

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

03/02/2016

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol](#)

[1. Questions to the Minister for Natural Resources](#)

[2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi](#)

[2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty](#)

[3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Gynlluniau Trafnidiaeth yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd](#)

[3. Debate on the Enterprise and Business Committee Report on its Inquiry into Rugby World Cup Transport Planning](#)

[5. Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio \(Cymru\)](#)

[5. Stage 3 Debate on the Nurse Staffing Levels \(Wales\) Bill](#)

[6. Dadl Fer: Cartref Pêl-Droed—y Ddadl o blaid Sefydlu Amgueddfa Genedlaethol Bêl-droed yn Wrexham](#)

[6. Short Debate: Bringing Football Home—the Case for a National Football Museum in Wrexham](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:31 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:31 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

1. Questions to the Minister for Natural Resources

[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.

13:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first item this afternoon are questions to the Minister for Natural Resources, and I call on Christine Chapman to ask the first question. Christine Chapman.

Yr eitem gyntaf y prynhawn yma yw cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, a galwaf ar Christine Chapman i ofyn y cwestiwn cyntaf. Christine Chapman.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cyfraddau Ailgylchu

Recycling Rates

13:31 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraddau ailgylchu yng Nghymru? OAQ(4)0409(NR)

1. Will the Minister make a statement on recycling rates in Wales? OAQ(4)0409(NR)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:31 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources

I thank the Member for Cynon Valley for her question. I am very proud of Wales's recycling performance. We are No. 1 in the UK, and fourth in Europe. I thank the people of Wales and local authorities for their fantastic efforts so far.

Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon am ei chwestiwn. Rwy'n falch iawn o berfformiad ailgylchu Cymru. Ni yw'r gorau yn y DU a'r pedwerydd yn Ewrop. Diolch i bobl Cymru ac awdurdodau lleol am eu hymdrechion gwych hyd yn hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 13:31 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. I welcome the repeated improvement in recycling rates, and I think, as you say, that this is the result of hard work on the part of Welsh Government, local authorities, and communities and citizens across Wales. I want to specifically mention Rhondda Cynon Taf food waste recycling scheme, which has seen the amount of waste collected for recycling doubled over the last six months. Will you join with me in congratulating RCT, and how is the Welsh Government engaging with councils to share innovative practice and new ways of encouraging community involvement?
- Diolch yn fawr, Weinidog. Rwy'n croesawu'r gwelliant cyson yn y cyfraddau ailgylchu ac rwy'n credu, fel y dywedwch, mai canlyniad gwaith caled ar ran Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a chymunedau a dinasyddion ledled Cymru yw hyn. Rwyf am sôn am gynllun ailgylchu gwastraff bwyd Rhondda Cynon Taf yn benodol, sydd wedi arwain at ddyblu'r maint o wastraff a gesglir i'w ailgylchu dros y chwe mis diwethaf. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Rhondda Cynon Taf, a sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â chynghorau er mwyn rhannu arfer arloesol a ffyrdd newydd o annog cyfranogiad cymunedol?
- 13:32 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for your question. Of course, I congratulate Andrew Morgan and RCT on the efforts they've delivered in driving up the food waste collections. I visited the principal site for collection. I know that there's been a community engagement programme operating in RCT, looking at recycling food waste and the wide-ranging recycling services offered by the council. They are leading the way in many ways, and I congratulate the authority and the people who work there.
- Diolch am eich cwestiwn. Wrth gwrs, rwy'n llongyfarch Andrew Morgan a Rhondda Cynon Taf ar eu hymdrechion i ysgogi'r casgliadau gwastraff bwyd. Ymwelais â'r prif safle casglu. Gwn fod rhaglen ymgysylltu â'r gymuned wedi bod yn weithredol yn Rhondda Cynon Taf i edrych ar ailgylchu gwastraff bwyd a'r gwasanaethau ailgylchu eang a gynnigir gan y cyngor. Maent yn arwain y ffordd mewn sawl modd ac rwy'n llongyfarch yr awdurdod a'r bobl sy'n gweithio yno.
- 13:32 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you'll be aware that some local authorities have moved to three-weekly bin collections. I know that there is some anecdotal evidence that this has led to an increase in fly-tipping. But I'd be grateful if you've done any analysis on—or what analysis has the Government done on the benefits, and also the adverse effects, of moving to three-weekly collection and in regard to recycling rates?
- Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol bod rhai awdurdodau lleol wedi symud i gasgliadau bin bob tair wythnos. Gwn fod rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd fod hyn wedi arwain at gynnydd mewn tipio anghyfreithlon. Ond byddwn yn ddiolchgar os ydych wedi gwneud unrhyw ddadansoddiad ar—neu pa ddadansoddiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud ar y manteision, a hefyd ar effeithiau niweidiol, symud i gasgliadau bin bob tair wythnos ac mewn perthynas â chyfraddau ailgylchu?
- 13:33 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Three-weekly collections is a matter for the local authorities that impose it. But the Member shouldn't always bring anecdotal data to this Chamber—he should base his detail on fact. The fact is we are the best in the UK at recycling, fourth best in Europe, and we will get better with the use of our clever local authorities, which are working on recycling, but also people delivering across our communities.
- Mae casgliadau bin bob tair wythnos yn fater i'r awdurdodau lleol sy'n eu gweithredu. Ond ni ddylai'r Aelod ddod â data anecdotaidd i'r Siambr hon bob amser—dylai seilio ei fanylion ar ffeithiau. Y ffaith yw mai ni yw'r gorau yn y DU am ailgylchu, a'r pedwerydd gorau yn Ewrop, a byddwn yn gwella drwy ddefnyddio ein hawdurdodau lleol clyfar, sy'n gweithio ar ailgylchu, ond hefyd pobl yn cyflawni ar draws ein cymunedau.
- 13:33 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rydym ni i gyd, wrth gwrs, yn croesawu'r ffaith bod awdurdodau lleol yn perfformio lawer, lawer yn well, o safbwynt ailgylchu gwastraff erbyn hyn. Ond, wrth gwrs, nid yw'r modd rydym ni'n mesur hynny, drwy fesur faint o dunelli sy'n cael eu hailgylchu, ddim o reidrydd yn adlewyrchiad digon ystyrlon, oherwydd mae yna ddadl nawr dros ddefnyddio gwerth carbon y gwastraff yna, fel ffon fesur. A charwn i ofyn pa ystyriaeth y mae'r Llywodraeth wedi ei rhoi i symud oddi wrth fesur tunelli i fesur gwerth carbon, a fyddai yn adlewyrchiad tecach, rwy'n meddwl, o'r cyfraniad sydd angen ei wneud.
- We all welcome, of course, the fact that local authorities are performing far better in terms of recycling waste now, but the way that we measure that—by measuring the number of tonnes that are recycled—isn't necessarily a sufficiently meaningful reflection of that, because there is now an argument for using the carbon value of that waste as a yardstick. Can I ask you what consideration the Government has given to moving away from measuring tonnage to measuring carbon value, which, I believe, would be a fairer reflection of the contribution that needs to be made?

| | | | |
|--|---|---|--|
| 13:34 | <p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I recognise the Member's view on that, and I also share, in part—I think there is an opportunity for us to work on tonnage, but also on the carbon exposure that is given from waste. I met with an organisation this morning, actually, to talk about that very thing, and what I've asked them to do, and others, including WRAP Cymru, is to look at the opportunities and challenges that we face, in terms of the easy tonnage collection versus carbon capture. So, it's something that we are working on.</p> | <p>Rwy'n cydnabod barn yr Aelod ar hynny, ac rwyf hefyd yn rhannu, yn rhannol—credaf fod cyfle i ni weithio ar dunelledd, ond hefyd ar y carbon sy'n cael ei ryddhau o wastraff. Cyfarfûm â sefydliad y bore yma i drafod yn union hynny, a'r hyn rwyf wedi gofyn iddynt ei wneud, ac eraill, gan gynnwys WRAP Cymru, yw edrych ar y cyfleoedd a'r heriau sy'n ein hwynebu, o ran casglu tunelledd hawdd o gymharu â dal carbon. Felly, mae'n rhywbeth rydym yn gweithio arno.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 13:34 | <p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, last year, Cardiff council narrowly avoided a fine for its falling recycling rate thanks to a plan for increasing the recycling that was approved by yourself. Part of that plan was to replace large black bins with smaller black bins. Those bins will now be recycled, having been collected. Would it be acceptable to you, in reviewing Cardiff Council's recycling rates for next year, if it includes the weight of all those recycled bins?</p> | <p>Weinidog, y llynedd, llwyddodd cyngor Caerdydd i osgoi dirwy o drwch blewyn am y gostyngiad yn ei gyfradd ailgylchu, diolch i gynllun ar gyfer cynyddu ailgylchu a gafodd ei gymeradwyo gennych chi. Rhan o'r cynllun oedd rhoi biniau du llai o faint yn lle biniau du mawr. Bydd y biniau hynny'n awr yn cael eu hailgylchu ar ôl cael eu casglu. A fyddai'n dderbyniol i chi, wrth adolygu cyfraddau ailgylchu Cyngor Caerdydd dros y flwyddyn nesaf, os yw'n cynnwys pwysau'r holl finiau a ailgylchwyd?</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 13:35 | <p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>The recycling targets are mine; the way that they do that is a matter for the local authority.</p> | <p>Fy nhargedau ailgylchu i ydynt; mater i'r awdurdod lleol yw'r ffordd y maent yn gwneud hynny.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| Yr Amgylchedd yn y Gymru Drefol | | The Environment in Urban Wales | |
| 13:35 | <p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p><i>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru i wella'r amgylchedd yn y Gymru drefol? OAQ(4)0412(NR)</i></p> | <p><i>2. Will the Minister make a statement on Welsh Government policy improve the environment in urban Wales? OAQ(4)0412(NR)</i></p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 13:35 | <p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for Newport East for his question. A clean, safe, accessible and attractive urban environment is an essential part of the Wales we want for future generations. To achieve this, the Welsh Government continues to work with a variety of partners to change public attitudes and behaviour through grant funding, education, partnership working and enforcement programmes.</p> | <p>Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain Casnewydd am ei gwestiwn. Mae amgylchedd trefol glân, diogel, hygrych a deniadol yn rhan hanfodol o'r Gymru rydym ei heisio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i newid agweddau ac ymddygiad y cyhoedd drwy gyllid grant, addysg, gweithio mewn partneriaeth a rhaglenni gorfodi.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 13:36 | <p>John Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that, Minister. I do believe the doorstep environment is very important to quality of life, to health, to community regeneration, and to valuing a commitment towards our environment. Given all of those benefits, Minister, I wonder if you could assure me that the learning from schemes such as Cynefin will be continued into the future, and particularly perhaps looking at the work of Natural Resources Wales and how that can ensure that those benefits do continue. And I think that's very significant in the light of the recent auditor general's report, which I think is very favourable and complimentary towards the work of Natural Resources Wales.</p> | <p>Diolch am hynny, Weinidog. Rwy'n credu bod yr amgylchedd ar stepen y drws yn bwysig iawn i ansawdd bywyd, i iechyd, i adfywio cymunedol, ac i werthfawrogi ymrwymiad tuag at ein hamgylchedd. O ystyried yr holl fanteision hynny, Weinidog, tybed a allwch fy sicrhau y bydd yr hyn a ddysgwyd o gynlluniau fel Cynefin yn parhau i'r dyfodol, ac yn arbennig efallai wrth edrych ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru a sut y gall hwnnw sicrhau bod y manteision hynny'n parhau. Ac rwy'n credu bod hynny'n arwyddocaol iawn yng ngoleuni adroddiad yr archwilydd cyffredinol yn ddiweddar, y credaf ei fod yn ffafriol ac yn ganmoliaethus iawn ynglŷn â gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |

- 13:36 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course. I thank the Member for his question. The Cynefin programme has presented great resilience and opportunities in communities, including the Member's, and it's something that we're looking at at present to see what the good parts of Cynefin are that we can take forward into new operations. I'm grateful for the Member also raising the issue of the operation of NRW. I'm surprised today that the opposition parties haven't raised that report with me as yet, because the auditor general has produced a great report on the great work that NRW have done. I'm surprised that Darren Millar and his colleagues haven't made much of it in the press today. But I'm sure there will be plenty more opportunities during this question time to congratulate NRW staff.
- Wrth gwrs. Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae'r rhaglen Cynefin wedi cyflwyno cydnerthedd a chyfleoedd gwych mewn cymunedau, gan gynnwys cymuned yr Aelod, ac mae'n rhywbeth rydym yn edrych arno ar hyn o bryd i weld beth yw rhannau da Cynefin y gallwn eu dwyn ymlaen i weithrediadau newydd. Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod hefyd am grybwyll y mater ynghylch gweithrediad Cyfoeth Naturiol Cymru. Rwy'n synnu heddiw nad yw'r gwrthbleidiau wedi tynnu sylw at yr adroddiad hyd yn hyn, gan fod yr archwilydd cyffredinol wedi cynhyrchu adroddiad gwych ar y gwaith gwych y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i wneud. Rwy'n synnu nad yw Darren Millar a'i gyd-Aelodau wedi sôn llawer amdano yn y wasg heddiw. Ond rwy'n siŵr y bydd digon o gyfleoedd yn ystod y sesiwn gwestiynau hon i longyfarch staff Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You're not supposed to prompt people for questions, Minister. Suzy Davies.
- Nid ydych i fod i brocio pobl i ofyn cwestiynau, Weinidog. Suzy Davies.
- 13:37 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Lywydd. Minister, every town and city, of course, would like a reputation for safety and cleanliness. Without it, it becomes difficult to attract businesses and shops and, of course, even people to use those city centres. Swansea business improvement district has worked really hard to improve Swansea's reputation for cleanliness and safety, with a number of activities ranging from removing gum from pavements to introducing wardens to help those who've perhaps been overdoing it in enjoyment of their night-time economy, shall we say. In a city where the seagull is king, how can you help the city council meet its own duties to keep the streets rubbish free and ensure that co-operation with other partners doesn't become over-reliant on those partners?
- Diolch, Lywydd. Weinidog, byddai pob tref a dinas, wrth gwrs, yn hoffi enw da am ddiogelwch a glanweithdra. Hebddo, mae'n dod yn anodd denu busnesau a siopau ac wrth gwrs, hyd yn oed pobl i ddefnyddio canol y dinasoedd hynny. Mae ardal gwella busnes Abertawe wedi gweithio'n galed iawn i wella enw da Abertawe am lanweithdra a diogelwch, gyda nifer o weithgareddau yn amrywio o gael gwared ar gwm cnoi oddi ar balmentydd i gyflwyno wardeniaid i helpu'r rhai sydd wedi gorwneud pethau efallai yn mwynhau eu heconomi nos, gadewch i ni ddweud. Mewn dinas lle y mae'r wylan yn frenin, sut y gallwch helpu cyngor y ddinas i gyflawni ei ddyletswyddau ei hun i gadw'r strydoedd yn rhydd o sbwriel a sicrhau nad yw cydweithrediad â phartneriaid eraill yn dod yn orddibynnol ar y partneriaid hynny?
- 13:38 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I think we have seen some really positive moves right across Wales in the way they look after the urban environments. In Swansea, the Labour authority of Swansea, may I say, do a fantastic job too. The issue of seagulls is one that many people discuss with me in written form. There are licences around the control of seagulls, but I also recognise the fact that, as residents and local authorities, we must have control over litter and the feeding of the gulls as well, which adds to the problem that we see.
- Rwy'n credu ein bod wedi gweld symudiadau cadarnhaol iawn ledled Cymru yn y ffordd y maent yn gofalu am yr amgylcheddau trefol. Yn Abertawe, mae awdurdod Llafur Abertawe, os caf ddweud, yn gwneud gwaith gwych hefyd. Mae mater gwylanod yn un y mae llawer o bobl yn ei drafod gyda mi yn ysgrifenedig. Ceir trwyddedau ar gyfer rheoli gwylanod, ond rwyf hefyd yn cydnabod y ffaith fod yn rhaid i ni, fel preswylwyr ac awdurdodau lleol, gael rheolaeth dros sbwriel a bwydo'r gwylanod hefyd, sy'n ychwanegu at y broblem a welwn.
- 13:38 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, what specific measures have you implemented and what has been done via the grant scheme announced by John Griffiths in 2012 to protect and expand habitats for urban wildlife? I particularly read recently about animals such as hedgehogs, which were once common but are now actually under threat.
- Weinidog, pa fesurau penodol rydych wedi'u gweithredu a beth sydd wedi'i wneud drwy'r cynllun grantiau a gyhoeddwyd gan John Griffiths yn 2012 i ddiogelu ac ehangu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt trefol? Darllenais yn arbennig yn ddiweddar am anifeiliaid fel draenogod, a oedd yn gyffredin gynt ond sydd dan gyfythiad bellach mewn gywirionedd.

13:39 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Again, I know the Member and many colleagues in this Chamber have a big interest in wildlife. Many of the investments we have made, including the nature fund, which we made a significant investment in, and many of the 20 recent collaborative landscape programmes under the nature fund, which ran from 2014-15, had key elements aimed at improving the quality of the urban environment. One instance would be the Natural Buzz project in Torfaen, which looks at creating habitats for pollinators, and which is a very successful one.

Unwaith eto, rwy'n gwybod bod gan yr Aelod a llawer o gyd-Aelodau yn y Siambr hon ddiddordeb mawr mewn bywyd gwylt. Roedd llawer o'r buddsoddiadau a wnaed gennym, gan gynnwys y gronfa natur, y buddsoddom yn sylweddol ynddi, a nifer o'r 20 o raglenni tirwedd cydweithredol diweddar o dan y gronfa natur a oedd yn weithredol o 2014-15, yn cynnwys elfennau allweddol gyda'r nod o wella ansawdd yr amgylchedd trefol. Un enghraifft yw prosiect Swyn Naturiol yn Nhorfaen, sy'n edrych ar greu cynefinoedd ar gyfer peillwyr, ac sy'n un llwyddiannus iawn.

13:39 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, clearly pollution is one of the major impacts upon the environment in urban areas, and, in Aberavon, we've been facing the challenge of air quality for many, many years. But we also now seem to be facing the possibility of water pollution as a result of drilling though for coal-bed methane or for shale gas. The Welsh Government has taken action on fracking, and I appreciate and applaud the action that it's already taken, but you've already indicated that it's a separate process from test drilling in that sense. If test drilling doesn't end up achieving anything, then there's a question as to whether there is a point in test drilling. Will you, therefore, look at a review of the guidance that you give to planning authorities to consider whether test drilling should be allowed, in consideration of the future impact of it?

Weinidog, yn amlwg, mae llygredd yn un o'r effeithiau mwyaf ar yr amgylchedd mewn ardaloedd trefol ac yn Aberafan, rydym wedi bod yn wynebu her ansawdd aer ers llawer o flynyddoedd. Ond yn awr, mae'n ymddangos ein bod hefyd yn wynebu'r posibilrwydd o lygredd dŵr o ganlyniad i ddrilio drwodd am fethan gwely glo neu nwy siâl. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu yn erbyn ffracio, ac rwy'n gwerthfawrogi ac yn cymeradwyo'r hyn y maent wedi'i wneud, ond rydych eisoes wedi nodi ei bod yn broses wahanol i ddrilio prawf yn hynny o beth. Os nad yw drilio prawf yn cyflawni unrhyw beth yn y pen draw, rhaid holi a oes pwrpas i ddrilio prawf. A wnewch chi, felly, edrych ar adolygiad o'r canllawiau rydych yn ei rhoi i awdurdodau cynllunio er mwyn ystyried a ddylid caniatáu drilio prawf, gan ystyried ei effaith yn y dyfodol?

13:40 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We've debated this on many occasions and the Member keeps pushing very hard on this. The notification direction that I've issued prevents local authorities from granting permission for unconventional oil and gas development, and this represents a precautionary approach in terms of planning. I'll continue to do that in this term of Government. As we've mentioned before around borehole exploration, there's a wide-ranging use for exploratory boreholes, and not just for fracking. I think there would be some risk there in terms of operation if we were to have a notification just on boreholes. But I will ask my team to look at that in more detail to see if we can be more helpful for communities across Wales.

Rydym wedi trafod hyn droeon ac mae'r Aelod yn parhau i wthio'n galed iawn ar hyn. Mae'r cyfarwyddyd hysbysu a gyhoeddais yn atal awdurdodau lleol rhag rhoi caniatâd ar gyfer datblygu olew a nwy anghonfensiynol, ac mae hyn yn cynrychioli dull rhagofalus o ran cynllunio. Byddaf yn parhau i wneud hynny yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Fel rydym wedi'i grybwyll o'r blaen mewn perthynas ag archwilio tyllau turio, ceir defnydd eang i dyllau turio archwiliol, ac nid ar gyfer ffracio yn unig. Rwy'n credu y byddai rhywfaint o berygl o ran gweithredu pe baem ond yn cael hysbysiad ar dyllau turio yn unig. Ond gofynnaf i fy nhîm edrych ar hynny yn fanylach i weld a allwn fod yn fwy defnyddiol i gymunedau ledled Cymru.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

13:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to spokespeople's questions and first this afternoon, the Welsh Liberal Democrat spokesperson, William Powell.

Symudwn yn awr at gwestiynau'r llefarwyr, ac yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, William Powell.

13:41 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Lywydd. Will the Minister please make a statement on Natural Resources Wales's remit in terms of providing recreation opportunities in the great outdoors for the people of Wales?

Diolch, Lywydd. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â chylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru o ran darparu cyfleoedd hamdden yn yr awyr agored i bobl Cymru?

13:41

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for his question and I also place on record my thanks to the staff and operational members of NRW. The report that was received from the auditor general today just shows that the development of that organisation is proving to be well worthy.

In terms of the Member's question regarding NRW's role in this, they are, of course, bound by the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, which will be coming into force in April of this year, and that will be part of the holistic view of wellbeing for communities, which, of course, will include the countryside and access to countryside, which the Member alludes to.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn ac rwyf hefyd yn cofnodi fy niolech i staff ac aelodau gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r adroddiad a dderbyniwyd gan yr archwilydd cyffredinol heddiw yn dangos bod datblygiad y sefydliad hwnnw'n profi'n deilwng iawn.

O ran cwestiwn yr Aelod ynghylch rôl Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyn, wrth gwrs, maent wedi'u rhwymo gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a ddaw i rym ym mis Ebrill eleni, a bydd honno'n rhan o'r olwg gyfannol ar lesiant cymunedol, a fydd, wrth gwrs, yn cynnwys cefn gwlad a mynediad i gefn gwlad, y cyfeiria'r Aelod ato.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, very much for that response. As you know, the Cwmcarn Forest Drive has now been closed to cars since November 2014 to allow the felling of over 150,000 infected larch. There's been considerable uncertainty amongst the public, both in terms of the long-term future of that particular attraction and also with regard to the rights of way that are still open to walkers and to mountain bikers. The Cwmcarn Forest visitor centre is set, I understand, to record at least a 10 per cent drop in visitors. This is believed, in part, to be down to a misunderstanding as to the current status of the footpath network. I know that my colleague, Jocelyn Davies, has recently written on this topic in the local media. In this regard, also, Rob Southall, chairman of the friends of Cwmcarn Forest Drive, has brought a petition to the Petitions Committee. Given the importance of the forest drive, what more can the Welsh Government do to support NRW in addressing the concerns of the local community and to ensure that it does open again and as soon as possible?

Diolch yn fawr iawn i chi am yr ymateb, Weinidog. Fel y gwyddoch, mae Ffordd Goedwig Cwmcarn bellach wedi'i chau i geir ers mis Tachwedd 2014, er mwyn caniatáu gwaith ar gwmpo dros 150,000 o larwydd heintiedig. Mae cryn ansicrwydd wedi bod ymhlith y cyhoedd ynghylch dyfodol hirdymor yr atyniad arbennig hwnnw a hefyd mewn perthynas â llwybrau tramwy sy'n dal ar agor i gerddwyr ac i feicwyr mynydd. Rwy'n deall bod canolfan ymwelwyr Coedwig Cwmcarn yn debygol o gofnodi gostyngiad o 10 y cant o leiaf yn nifer yr ymwelwyr. Credir bod hyn yn deillio'n rhannol o gamddealltwriaeth ynghylch statws presennol y rhwydwaith llwybrau. Gwn fod fy nghyd-Aelod, Jocelyn Davies, wedi ysgrifennu ar y pwnc yn y wasg leol yn ddiweddar. Yn hyn o beth, hefyd, mae Rob Southall, cadeirydd cyfeillion Ffordd Goedwig Cwmcarn, wedi cyflwyno deiseb i'r Pwyllgor Deisebau. O ystyried pwysigrwydd y ffordd goedwig, beth arall y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i gynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â phryderon y gymuned leol ac i sicrhau ei bod yn agor eto a chyn gynted ag y bo modd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that NRW are working extremely hard in the area to try and resolve these issues, but biological security for that area and for the rest of Wales is extremely important. I believe that they're handling the situation very well. Of course, we'd like to see the Cwmcarn Forest Drive open, but it's a matter of making sure that we can deal with the phytophthora ramorum infection that is under way in that particular region.

Gwn fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n galed iawn yn yr ardal i geisio datrys y materion hyn, ond mae diogelwch biolegol yr ardal honno a gweddill Cymru yn hynod o bwysig. Rwy'n credu eu bod yn ymdrin â'r sefyllfa'n dda iawn. Wrth gwrs, byddem yn hoffi gweld Ffordd Goedwig Cwmcarn ar agor, ond mae'n fater o sicrhau ein bod yn gallu ymdrin â haint phytophthora ramorum sydd ar droed yn y rhanbarth hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, thank you very much. This is just another example, I think, of some of the dilemmas facing NRW in terms of resource in fulfilling its remit whilst being allocated ever-diminishing resources for reasons that we know. I understand, also, that the Wales Audit Office will shortly be reporting on issues around this and making an assessment as to NRW's capacity to address the challenges that it faces as an organisation. In the light of this, and with the passing of the Environment (Wales) Bill just yesterday, what reassurance can you give that the future of the Welsh natural environment is safe in its hands and in yours?

Weinidog, diolch yn fawr iawn i chi. Enghraifft arall yn unig yw hyn, rwy'n meddwl, o'r cyfyng-gyngor sy'n wynebu Cyfoeth Naturiol Cymru o ran adnoddau i gyflawni ei gylch gwaith pan ddyrennir llai a llai o arian iddo am resymau sy'n hysbys i ni. Rwy'n deall hefyd y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn adrodd yn fuan ar faterion yn ymwneud â hyn ac yn gwneud asesiad ynghylch gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â'r heriau y mae'n eu hwynebu fel sefydliad. Yng ngoleuni hyn, a chyda Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn cael ei basio ddoe yn unig, pa sicrwydd y gallwch ei roi bod dyfodol amgylchedd naturiol Cymru yn ddiogel yn nwylo'r sefydliad hwnnw ac yn eich dwylo chi?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:44 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yesterday, we passed unanimously the Environment (Wales) Bill to be an Act, when, hopefully, we receive Royal Assent on that. This is the toolkit for NRW for delivery. I'm confident that the organisation can continue its great work and, as the report from the auditor general states today, they're doing a good job of it.
- Ddoe, pasiwyd Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn unfrydol gennym i fod yn Ddeddf, pan fyddwn, gobeithio, yn derbyn Cydsyniad Brenhinol ar hynny. Dyma'r pecyn cymorth i Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer cyflawni. Rwy'n hyderus y gall y sefydliad barhau â'i waith gwyth ac fel y mae'r adroddiad gan yr archwilydd cyffredinol yn ei ddatgan heddiw, maent yn gwneud gwaith da.
- 13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Welsh Conservative spokesperson, Janet Haworth.
- Symudwn yn awr at lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Janet Haworth.
- 13:44 **Janet Haworth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, I'm sure you will agree with me that actions speak louder than words—a sentiment that the voters of Wales endorse. Today, I would like to ask you about two actions that the victims of the floods in Wales are keen to hear about. Firstly, how much of the £3 million plus, announced in this Chamber back in early January, has found its way to those people still coping with the aftermath of floods, and how much additional money will you be seeking to make available from the £250 million plus that this Labour Government has hoarded in its reserves?
- Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno â mi ei bod yn well gwneud na dweud—teimlad y mae pleidleiswyr Cymru yn ei gymeradwyo. Heddiw, hoffwn eich holi ynghylch dau gam gweithredu y mae dioddefwyr y llifogydd yng Nghymru yn awyddus i glywed amdanynt. Yn gyntaf, faint o'r £3 miliwn a mwy a gyhoeddwyd yn y Siambr hon yn ôl ar ddechrau mis Ionawr sydd wedi cyrraedd y bobl sy'n dal i ymdopi â chanlyniadau llifogydd, a faint o arian ychwanegol y byddwch yn ceisio ei ryddhau o'r £250 miliwn a mwy y mae'r Llywodraeth Lafur hon wedi'i gasglu yn ei chronfeydd wrth gefn?
- 13:45 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Interesting question. The first part I can answer very quickly. Generally, I can't agree with most of the things you say. Secondly, on the issue of the £3 million that was allocated and announced by me and the First Minister, we have had the bids in from local authorities, we've considered the awards and they have been notified of that. I expect them to be working very quickly. As a matter of interest, I did visit the Member's constituency a week last Friday to talk with local people about the real issues that were going on and to take away the hot politics that we often see in this Chamber. It was a very useful conversation with them, and many of them were very grateful for the work, again, that volunteers and emergency services provided on that day.
- Cwestiwn diddorol. Gallaf ateb y rhan gyntaf yn gyflym iawn. Yn gyffredinol, ni allaf gytuno â'r mwyafrif o'r pethau rydych yn eu dweud. Yn ail, ar fater y £3 miliwn a ddyrannwyd ac a gyhoeddwyd gennyf i a'r Prif Weinidog, mae'r ceisiadau wedi dod i law gan awdurdodau lleol, rydym wedi ystyried y dyfarniadau ac maent wedi cael eu hysbysu am hynny. Rwy'n disgwyl iddynt fod yn gweithio'n gyflym iawn. Er diddordeb, ymwelais ag etholaeth yr Aelod wythnos i ddydd Gwener diwethaf i siarad gyda phobl leol ynglŷn â'r materion go iawn a oedd yn digwydd ac i gael gwared ar y wleidyddiaeth boeth rydym yn aml yn ei gweld yn y Siambr hon. Roedd yn sgwrs ddefnyddiol iawn â hwy, ac roedd llawer ohonynt yn ddiolchgar iawn am y gwaith, unwaith eto, a wnaed gan wirfoddolwyr a gwasanaethau brys ar y diwrnod hwnnw.

13:46

Janet Haworth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. Within a month of the floods in Scotland, plans are being formulated to deal with and prevent further flooding. In England, work has begun to bring stakeholders together and to especially engage with farmers to devise water drainage and water catchment plans. Minister, will you report on the work that is waiting to be done here in Wales? I do value the NRW reports that were mentioned earlier, but specifically, when will the NRW reports on the recent events be completed, and when will they be made public? Minister, the Welsh voters are waiting for you to show leadership. Will you be commissioning an independent investigation into forestry plantation and drainage practices on our hard-rock uplands in north Wales as a matter of some urgency? Minister, I am still receiving reports of failures with urban drainage, resulting in sewage flooding into streets and, potentially, homes. Minister, this is a disgrace and requires your urgent attention. Is it going to get your attention? What will you do?

Diolch yn fawr, Weinidog. O fewn mis i'r llifogydd yn yr Alban, mae cynlluniau'n cael eu llunio i atal ac ymdrin â llifogydd pellach. Yn Lloegr, mae gwaith wedi'i ddechrau ar ddod â rhanddeiliaid at ei gilydd ac i ymgysylltu â ffermwyr yn arbennig i ddyfeisio cynlluniau draenio dŵr a chynlluniau dalgylchoedd dŵr. Weinidog, a fyddwch yn adrodd ar y gwaith sy'n aros i gael ei wneud yma yng Nghymru? Rwy'n gwerthfawrogi adroddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru a gafodd eu crybwyll yn gynharach, ond yn benodol, pa bryd fydd adroddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar y digwyddiadau diweddar yn cael eu cwblhau, a pha bryd y byddant yn cael eu cyhoeddi? Weinidog, mae pleidleiswyr Cymru yn aros i chi ddangos arweiniad. A fyddwch yn comisiynu ymchwiliad annibynnol i blanhigfeydd coedwigaeth ac arferion draenio ar ein hucheldir craig galed yng ngogledd Cymru fel mater o frys? Weinidog, rwy'n dal i gael adroddiadau ar fethiannau gyda draenio trefol, gan arwain at garthion yn gorlifo i strydoedd ac o bosibl, i gartrefi. Weinidog, mae'n warth ac mae'n galw am eich sylw ar frys. A yw'n mynd i gael eich sylw? Beth fyddwch chi'n ei wneud?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I don't know where the Member's been for so long because, actually, England and Scotland are just catching up with what we're doing. We've got flood-management plans right across Wales. NRW, local authorities and flood-prevention services are in place. I cannot control the weather, but when we do have adverse weather conditions, such as those we saw on Boxing Day, my teams are out at 7 o'clock in the morning looking after your residents. So, the Member just really needs to realise she's not in England or Scotland; in Wales, we are doing something much better. If she wants to really look at the floods and the devastation that was caused, look at the news and look what happened in Kendal and northern parts of England. That didn't happen in Wales, fortunately—a little bit of luck, but also a very good part, on our terms, of planning with our regulators.

Wel, nid wyf yn gwybod lle y mae'r Aelod wedi bod ers cymaint o amser oherwydd, mewn gwirionedd, dim ond dal i fyny â'r hyn rydym ni'n ei wneud y mae Lloegr a'r Alban. Mae gennym gynlluniau rheoli llifogydd ledled Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a gwasanaethau atal llifogydd yn eu lle. Ni allaf reoli'r tywydd, ond pan fyddwn yn wynebu tywydd garw, fel y gwelsom ar Wyl San Steffan, mae fy nhimau allan am 7 o'r gloch y bore yn edrych ar ôl eich trigolion. Felly, mae angen i'r Aelod sylweddoli nad yw hi yn Lloegr na'r Alban; yng Nghymru, rydym yn gwneud rhywbeth llawer gwell. Os yw hi wir eisiau edrych ar y llifogydd a'r difrod a achoswyd, edrycher ar y newyddion ac edrycher ar yr hyn a ddigwyddodd yn Kendal a rhannau o ogledd Lloegr. Ni ddigwyddodd hynny yng Nghymru, yn ffodus—ychydig bach o lwc, ond hefyd rhan dda iawn ohono'n deillio, o'n rhan ni, o gynllunio gyda'n rheoleiddwyr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Janet Haworth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I have spoken with farming representatives, residents and businesses affected by the recent floods. Yesterday, this Chamber spent many hours debating a Bill that seeks to protect Wales's historical heritage. Can you then explain why the CEO of Cadw has refused to meet with me to discuss the damage that the floods in the Conwy valley have wreaked upon Gwydir Castle in Llanrwst? Minister, will you help me to get a meeting with the CEO of Cadw, a supposedly independent organisation dedicated to the protection of Welsh buildings?

Diolch yn fawr, Weinidog. Rwyf wedi siarad â chynrychiolwyr ffermio, trigolion a busnesau yr effeithiwyd arnynt gan y llifogydd diweddar. Ddoe, treuliodd y Siamb hon sawl awr yn trafod Bil sy'n ceisio amddiffyn treftadaeth hanesyddol Cymru. A allwch egluro, felly, pam y mae Prif Swyddog Gweithredol Cadw wedi gwrthod cyfarfod â mi i drafod y difrod y mae'r llifogydd yn nyffryn Conwy wedi'i wneud i Gastell Gwydir yn Llanrwst? Weinidog, a wnech chi fy helpu i gael cyfarfod gyda Phrif Swyddog Gweithredol Cadw, sefydliad annibynnol sydd wedi ymrwymo i warchod adeiladau Cymreig, yn ôl pob sôn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I've got a personal view as to why the chief executive might not want to meet with the Member. [Laughter.] However, with the greatest of respect, this is a matter for Ken Skates, who deals with Cadw, and I will ensure that he gets to know about your question that was asked this afternoon.

Mae gennyf farn bersonol ynglŷn â pham efallai nad yw'r prif weithredwr eisiau cyfarfod â'r Aelod. [Chwerthin.] Fodd bynnag, gyda'r parch mwyaf, mater i Ken Skates, sy'n ymdrin â Chadw, yw hwn, a byddaf yn sicrhau ei fod yn cael gwybod am eich cwestiwn a ofynnwyd y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the Plaid Cymru spokesperson, Llyr Gruffydd. Symudwn yn awr at lefarydd Plaid Cymru, Llyr Gruffydd.
- 13:49 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Lywydd. Cwestiwn i'r Dirprwy Weinidog sydd gen i, wrth gwrs. Mae, fel rŷm ni'n gwybod, nifer o ffermwyr yn dal i aros am eu taliadau sylfaenol, ac rŷch chi, er tegwch, wedi dweud wrthym ni fel Aelodau os oes pobl yn cysylltu â ni i'w cyfeirio nhw atoch chi, mewn amgylchiadau neilltuol. Ond, nid oes amheuaeth bod nifer o ffermwyr yn sefyll ar ymyl y dibyn yn aros am y taliadau yma—mewn cyd-destun ariannol, wrth gwrs. A gaf i ofyn pa ystyriaeth, felly, mae'r Llywodraeth wedi ei rhoi i ddarparu rhyw fath o fenthyciadau di-log, neu ryw fath o flaendaliad bychan, i'r rhai achosion yma lle mae yna ffermydd efallai na fydd yn derbyn eu taliadau am dipyn eto, ond sydd yn wynebu problemau ariannol difrifol?
- Thank you, Presiding Officer. This is a question for the Deputy Minister, of course. As we know, a number of farmers are still awaiting their basic payments, and in fairness you have told us as Members that if people do get in touch with us we should refer them to you, in exceptional circumstances. But, there's no doubt that a number of farmers are on the precipice awaiting these payments—in a financial context, of course. So, can I ask you what consideration the Government has given to providing some sort of interest-free loans, or some small pre-payment, in those few cases where there are farmers who won't receive their payments for some time yet, but are facing real financial difficulties?
- 13:50 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd / The Deputy Minister for Farming and Food*
- Thank you for the question. I'll just provide an update to Members that, as of today, we have paid 80 per cent of our farmers—or part-paid, I should say, 80 per cent of our farmers. So, that's 12,435. Between those, they have had the value of payment of £102.78 million. So, just to put that on the record. And, again, we are continuing to outperform Governments in England and Scotland on this issue. I met with the banks back in September to discuss interest-free loans for their customers, and I met again with one of the banks late last week, and they did confirm that they had actively been getting in touch with their farmer customers to offer them interest-free loans to the value of 60 per cent of their basic payment scheme payment to tide them over for the period from when they would normally expect to get payments at the start of the window in December. And as you know, it is a seven-month window, but we are aiming to pay farmers as quickly as we possibly can.
- Diolch am y cwestiwn. Darparaf y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ein bod hyd at heddiw wedi talu 80 y cant o'n ffermwyr—neu dalu'n rhannol, dylwn ddweud, i 80 y cant o'n ffermwyr. Felly, dyna 12,435. Rhwng y rheini, maent wedi derbyn taliad gwerth £102.78 miliwn. Felly, dyna gofnodi hynny. Ac unwaith eto, rydym yn parhau i berfformio'n well na Llywodraethau yn Lloegr a'r Alban ar y mater hwn. Cyfarfûm â'r banciau yn ôl ym mis Medi i drafod benthyciadau di-log ar gyfer eu cwsmeriaid, a chyfarfûm eto gydag un o'r banciau yn hwyr yr wythnos diwethaf, a chadarnhasant eu bod wedi mynd ati i gysylltu â'u cwsmeriaid sy'n ffermwyr i gynnig benthyciadau di-log iddynt hyd at werth 60 y cant o daliad eu cynllun taliad sylfaenol i'w cynorthwyo dros y cyfnod pan fyddent fel arfer yn disgwyl cael taliadau ar ddechrau'r cyfnod talu ym mis Rhagfyr. Ac fel y gwyddoch, mae'n gyfnod o saith mis, ond rydym yn anelu i dalu ffermwyr cyn gynted ag y gallwn.
- 13:51 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae wedi dod i'r amlwg hefyd, wrth gwrs, fod yna lawer iawn o ffermwyr yn cael eu cosbi oherwydd gor-hawliadau—'over-declarations'—ac mae hynny wedi dod fel syndod i nifer. Mae'n debyg bod yna problemau gyda lluniau o'r awyr, ac yn y blaen, a choed yn taflu cysgod a rhyw elfennau felly. Mae hynny hefyd yn golygu bod rhai ffermwyr yn derbyn llai nag yr oedden nhw wedi ei ragweld. A gaf i ofyn felly: sut fyddwch chi fel Llywodraeth yn sicrhau na fydd gwallau fel hyn yn digwydd yn y dyfodol?
- It's also become apparent, of course, that many farmers are being penalised because of over-declarations. That, of course, has come as a surprise to many. It seems that there are problems in terms of aerial shots and trees casting shadows and elements such as that. That does mean, of course, that some farmers will receive less than they had anticipated. Can I ask you, therefore, how you as a Government will ensure that such errors don't happen again in future?

13:51

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. You'll recall that there was quite some discussion some time back, when we introduced the system, about how we would be dealing with the issues of illegible features—trees, and so on. I've introduced a simplified appeals process in order for farmers to appeal any decisions that we've made that they don't think are correct in terms of the amount that we've deducted for tree canopy cover. I think that's a fair process, and I would encourage farmers who do dispute the area that we've deducted to get in touch with Rural Payments Wales and then we will look through that stage 1 process.

Diolch. Fe fyddwch yn cofio bod yna gryn drafodaeth beth amser yn ôl, pan gyflwynwyd y system gennym, ynglŷn â sut y byddem yn ymdrin â nodweddion aneglur—coed, ac yn y blaen. Rwyf wedi cyflwyno proses apelio symlach er mwyn i ffermwyr apelio yn erbyn unrhyw benderfyniadau a wnaethom nad ydynt yn credu eu bod yn gywir o ran y swm rydym wedi'i dynnu am orchudd canopi coed. Rwy'n credu bod honno'n broses teg, a byddwn yn annog ffermwyr sy'n dadlau ynglŷn â'r arwynebedd rydym wedi'i dynnu i gysylltu â Taliadau Gwledig Cymru ac yna byddwn yn edrych ar y broses cam 1 honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ond y cwestiwn y gwnes i ei ofyn oedd, nid sut y gall ffermwyr apelio, ond sut allwn ni sicrhau na fydd angen mynd i apêl mewn sefyllfa o'r fath yn y dyfodol. Byddwn i'n gofyn i chi efallai i ystyried sut byddai modd gwneud hynny.

But the question that I asked was not how farmers can appeal, but how we can ensure that there will be no need for such appeals in the future. I would ask you therefore to consider how that could be achieved.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf hefyd wedi codi gyda chi yn y gorffennol, wrth gwrs—ac mae'r undebau ac eraill wedi codi'r un pwynt—yr angen i ddarparu grantiau bychain i ffermwyr o'r cynllun datblygu gwledig. Mae yna deimlad bod y cynllun grant cynnyrch cynaliadwy, er enghraifft, tu hwnt i gyrraedd gormod o ffermwyr, er ei fod e'n addas i rai, a bod angen cynllun llawer mwy hygrych lefel is. Yn y pwyllgor amgylchedd nôl ym mis Hydref, mi ddywedoch chi a'ch swyddogion wrthym ni ei bod yn anodd gwneud hynny oherwydd bod y Comisiwn Ewropeaidd yn pennu trothwy lleiafswm ar gefnogaeth y gellid ei darparu. Wel, ers hynny, rwyf wedi cael copi o lythyr gan y Comisiwn Ewropeaidd sydd yn dweud nad oes yna drothwy wedi cael ei osod, ac mi ddarllenaf i'r llythyr:

I've also raised with you in the past—and the unions and others have raised the same point—the need to provide small grants to farms from the rural development plan. There is a feeling that the Sustainable production grant, for example, is beyond the reach of too many farmers, although it's appropriate to some, and that we need a far more accessible, lower level scheme. In the environment committee back in October, you and your officials told us that it was difficult to do that because the European Commission set a minimum threshold for the support that could be provided. Since then, I've seen a copy of a letter from the European Commission that states that there is no threshold set, and I will read the letter:

There are no specific EU rules on minimum and maximum thresholds for investment support. Moreover, in view of the aforementioned justification of the Welsh authorities, the condition at stake does not seem to infringe any relevant EU rules and principles.

Nid oes gan yr EU reolau penodol ynghylch uchafswm ac isafswm trothwyon ar gyfer cymorth budsoddi. At hynny, yn wyneb y cyfiawnhad uchod o awdurdodau Cymru, nid yw'n ymddangos bod yr amod dan sylw yn torri unrhyw reolau nac egwyddorion UE perthnasol.

Yn sgil cadarnhad felly nad oes rheol Ewropeaidd yn dweud na allwch chi gyflwyno cynllun grantiau bach, fel maen nhw wedi'i wneud yn yr Alban, wrth gwrs, a wnewch chi ailystyried a symud er mwyn sicrhau bod yna gynllun o'r fath yn cael ei gyflwyno yng Nghymru?

Given such confirmation that there isn't any European regulation saying that you can't introduce a smaller grant scheme, as they have done in Scotland, of course, will you reconsider and take some action to ensure that such a scheme is introduced here in Wales?

13:53

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we did have quite considerable interest in our sustainable production grant, because we decided that we wanted to make transformational change within the industry, and small stand-alone grants just won't achieve that. However, we have been clear that we will consider small grants as part of strategic initiatives, and I met with members of the industry just last week in order to do that. Such grants might be along the lines of the electronic reader system that we've brought in, and we offered grants through Hybu Cig Cymru for that. So, if we are to offer small grants, they would be as part of wider strategic initiatives to move the industry en masse towards those goals that we all want—profitable, resilient, more sustainable and more professionally managed, and so on. So, there is a place for small grants, but it's not stand-alone small grants, which just don't offer value for money.

Wel, roedd cryn dipyn o ddiddordeb yn ein grant cynhyrchu cynaliadwy am ein bod wedi penderfynu ein bod am wneud newid trawsnewidiol yn y diwydiant, ac ni fydd grantiau bach annibynnol yn cyflawni hynny. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn glir y byddwn yn ystyried grantiau bach fel rhan o fentrau strategol, a chyfarfûm ag aelodau o'r diwydiant yr wythnos diwethaf er mwyn gwneud hynny. Gallai enghreifftiau o grantiau o'r fath fod yn debyg i'r system darllynydd electronig rydym wedi'i chyflwyno, a chynigiasom grantiau drwy Hybu Cig Cymru ar gyfer hynny. Felly, os ydym yn mynd i gynnis grantiau bach, byddent yn rhan o fentrau strategol ehangach i symud y diwydiant yn gyfan tuag at yr amcanion rydym i gyd eu heisïau—proffidiol, gwydn, mwy cynaliadwy ac wedi'i reoli'n fwy proffesiynol, ac yn y blaen. Felly, mae lle i grantiau bach, ond nid grantiau bach annibynnol nad ydynt yn cynnig gwerth am arian.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to questions on the paper and question 3 is Gwyn Price.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur yn awr a daw cwestiwn 3 gan Gwyn Price.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ffordd Goedwig Cwmcarn

Cwmcarn Forest Drive

13:54

Gwyn R. Price [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y wybodaeth ddiweddaraf a roddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i Lywodraeth Cymru am ffordd goedwig Cwmcarn? OAQ(4)0411(NR)

3. Will the Minister make a statement on the latest update from Natural Resources Wales to the Welsh Government on Cwmcarn Forest Drive? OAQ(4)0411(NR)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for his question. Natural Resources Wales are making good progress on the felling and extraction of the diseased larch at Cwmcarn and are halfway through the two-year work programme.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud cynnydd da ar gwmpo a thynnu'r llarwydd heintus yng Nghwmcarn ac maent hanner ffordd drwy'r rhaglen waith ddwy flynedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

Gwyn R. Price [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer. Minister, I attended a packed public meeting in my constituency for the launch of the Friends of Cwmcarn Forest Drive. Representatives from Natural Resources Wales told the meeting they were pushing at an open door to desire to see Cwmcarn Forest Drive fully accessible. Will the Minister confirm the Government shares this desire and will continue to work with all interested parties to restore one of the jewels in the crown of Wales's wonderful natural landscape?

Diolch i chi am yr ateb. Weinidog, bûm mewn cyfarfod cyhoeddus gorlawn yn fy etholaeth ar gyfer lansio Cyfeillion Ffordd Goedwig Cwmcarn. Dywedodd cynrychiolwyr ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y cyfarfod eu bod yn gwthio ar ddrws agored yn eu dyhead i weld Ffordd Goedwig Cwmcarn yn gwbl hygyrch. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau bod y Llywodraeth yn rhannu'r awydd hwn ac y bydd yn parhau i weithio gyda phawb sydd â diddordeb mewn adfer un o drysorau tirwedd naturiol gwych Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:55 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Member for his question, but also his letters that he keeps sending me on this very issue. Responsibility for the management of Cwmcarn scenic forest drive is delegated to Natural Resources Wales. I am aware of the popularity of the drive and its future has not yet been decided by the authority. NRW has always been very clear that they cannot commit to reopening it until the funding to support the work associated with it can be identified. They're continuing to explore the possibilities and options available to them, but I do continue to hold talks with NRW in order to try to resolve the issue locally.
- Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn, ond hefyd am y llythyrau y mae'n parhau i'w hanfon ataf ar yr union fater hwn. Mae'r cyfrifoldeb am reoli ffordd goedwig hardd Cwmcarn wedi ei ddirprwyo i Cyfoeth Naturiol Cymru. Rwy'n ymwybod o boblogrwydd y ffordd ac nid yw'r awdurdod wedi penderfynu ar ei dyfodol eto. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bob amser wedi dweud yn glir iawn na allant ymrwymo i'w hailagor tan y gellir dod o hyd i gyllid i gefnogi'r gwaith sy'n gysylltiedig â hi. Maent yn parhau i edrych ar y posibiladau a'r opsiynau sydd ar gael iddynt, ond rwy'n parhau i gynnal trafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn ceisio datrys y mater yn lleol.
- 13:56 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm most grateful for the Minister's comments this afternoon. He will know that the much praised Natural Resources Wales has an aspiration to reopen the Cwmcarn scenic drive as the previous questioner has suggested. I note that, this year, Natural Resources Wales had great success with Bike Park in Merthyr, and wonder whether that might be one of the things that might be available to drive forward the future development of the Cwmcarn Forest Drive, and, more particularly perhaps, your Government has billed 2016 as a Year of Adventure. Could it be that Cwmcarn Forest Drive forms a key element in this?
- Rwy'n ddiolchgar iawn am sylwadau'r Gweinidog y prynhawn yma. Bydd yn gwybod bod Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n cael ei ganmol yn fawr, yn awyddus i ailagor ffordd hardd Cwmcarn fel yr awgrymodd yr holwr blaenorol. Nodaf fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael llwyddiant mawr gyda Pharc Beicio Cymru ym Merthyr eleni, ac rwy'n meddwl tybed a allai hynny fod yn un o'r pethau a allai ysgogi datblygiad Ffordd Goedwig Cwmcarn yn y dyfodol, ac yn fwy penodol efallai, mae eich Llywodraeth wedi enwi 2016 fel Blwyddyn Antur. A allai Ffordd Goedwig Cwmcarn fod yn elfen allweddol yn hyn?
- 13:56 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm sure Ken Skates will be delighted to consider the offer of that particular area for the Year of Adventure. I can say that the issue of the extraction of P. ramorum infected timber has made it necessary to close Cwmcarn drive, but it is an ambition for Government and for NRW to look at a future—a positive future—for that particular area.
- Rwy'n siŵr y bydd Ken Skates yn falch iawn o ystyried yr hyn sydd gan yr ardal arbennig honno i'w gynnis ar gyfer y Flwyddyn Antur. Gallaf ddweud bod mater tynnu coed wedi'u heintio gan P. ramorum wedi ei gwneud hi'n ofynnol i gau ffordd Cwmcarn, ond uchelgais y Llywodraeth a Cyfoeth Naturiol Cymru yw edrych ar ddyfodol—dyfodol cadarnhaol—i'r ardal honno.
- 13:57 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you. Presiding Officer, I declare an interest as a member of the Friends of Cwmcarn Forest Drive group.
- Minister, I doubt that there's time in this Assembly term to invite you to walk with me in the forests of Cwmcarn— [Assembly Members: 'Oh'.] I know you would have jumped at the opportunity of that. [Laughter.] But, I hope that you will appreciate that without the road, much of this mountain will become inaccessible to all but the fittest and most determined rambler. So will you bear in mind, in your discussions with Natural Resources Wales, that people of all ages and physical abilities want to continue to enjoy this valley after the felling of the diseased larch?
- Diolch. Lywydd, rwy'n datgan buddiant fel aelod o grŵp Cyfeillion Ffordd Goedwig Cwmcarn.
- Weinidog, rwy'n amau nad oes amser yn ystod y tymor Cynulliad hwn i'ch gwahodd i gerdded gyda mi yng nghoedwigoedd Cwmcarn— [Aelodau'r Cynulliad: 'O'] Rwy'n gwybod y byddech wedi bachu ar y cyfle hwnnw. [Chwerthin.] Ond rwy'n gobeithio y byddwch yn sylweddoli y bydd llawer o'r mynydd hwn, heb y ffordd, yn dod yn anhygyrch i bawb ond y cerddwr mwyaf ffit a mwyaf penderfynol. Felly, a wnewch chi gadw mewn cof, yn eich trafodaethau gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, fod pobl o bob oed a gallu corfforol am barhau i fwynhau'r cwm ar ôl i'r coed larwydd heintus gael eu cwmpo?

13:57

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course. I feel like I'm becoming a friend of the Cwmcarn Forest Drive as well with the amount of correspondence and questions that I get from Members of the Chamber, and I don't mind that because it's an important venue for constituents and people alike. I'm grateful for the Member's invitation. The last time we did go on a little stroll, the Member took me over a barbed wire fence, I seem to recall. [Laughter.] So, I will probably decline on this occasion, if I may. But I am grateful, and it's very topical that the Member's raised this issue with us today. It is an important part and feature of the landscape of Wales, and it's something that we need to look at very carefully.

Wrth gwrs. Rwy'n teimlo fy mod yn dod yn gyfaill i Ffordd Goedwig Cwmcarn hefyd yn ôl faint o ohebiaeth a chwestiynau rwy'n eu cael gan Aelodau'r Siambr, ac nid oes ots gennyf oherwydd mae'n lleoliad pwysig i etholwyr a phobl fel ei gilydd. Rwy'n ddiolchgar am wahoddiad yr Aelod. Y tro diwethaf i ni fynd am dro bach, aeth yr Aelod â mi dros ffens weiren bigog, os cofiaf yn iawn. [Chwerthin.] Felly, fe wrthodaf ar yr achlysur hwn, os caf i. Ond rwy'n ddiolchgar, ac mae'n amserol iawn fod yr Aelod wedi crybwyll y mater wrthym heddiw. Mae'n rhan bwysig ac yn nodwedd o dirwedd Cymru, ac mae'n rhywbeth y mae angen i ni edrych arno'n ofalus iawn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cyfoeth Naturiol Cymru (Blaenoriaethau)

Natural Resources Wales (Priorities)

13:58

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau i Gyfoeth Naturiol Cymru am weddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)0406(NR)

4. Will the Minister make a statement on his priorities for Natural Resources Wales for the remainder of this Assembly term? OAQ(4)0406(NR)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have recently discussed my priorities with the NRW board and will be issuing the 2016-17 remit letter to the chair shortly. The new legislative context of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 and the Environment (Wales) Bill—Act as of March 2016—will set the operational principles and purpose for NRW moving forward.

Rwyf wedi trafod fy mlaenoriaethau gyda bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar a byddaf yn cyhoeddi llythyr cylch gwaith 2016-17 at y cadeirydd yn fuan. Bydd cyddedun deddfwriaethol newydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Bil yr Amgylchedd (Cymru)—a fydd yn Ddeddf o fis Mawrth 2016 ymlaen—yn pennu egwyddorion a diben gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru wrth symud ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. Can I ask you about NRW's consultation process during forestry work? The residents of the village of Cleddon in my constituency are deeply concerned about a barrier that Natural Resources Wales are erecting, blocking off an access route that local people have relied on for decades. There's been no consultation in advance of this happening, and it has caused great inconvenience and distress to the residents of Cleddon. When you look into this, perhaps you can join me and Jocelyn Davies on a little stroll through the forest to look at these problems. What guidelines are in place to ensure residents are fully involved before these types of changes are made in future?

Diolch yn fawr, Weinidog. A gaf fi eich holi ynghylch proses ymgynghori Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod gwaith coedwigaeth? Mae trigolion pentref Cleddon yn fy etholaeth yn pryderu'n fawr am rwystr y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei godi, gan flocio llwybr mynediad y mae pobl leol wedi dibynnu arno ers degawdau. Ni fu unrhyw ymgynghori cyn i hyn ddigwydd, ac mae wedi achosi anghyfleustra a gofid mawr i drigolion Cleddon. Pan fyddwch yn edrych ar hyn, efallai y gallwch ddod gyda mi a Jocelyn Davies am dro bach drwy'r goedwig i edrych ar y problemau. Pa ganllawiau sydd ar waith i sicrhau bod trigolion yn cael eu cynnwys yn llawn cyn y gwneir y mathau hyn o newidiadau yn y dyfodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:59

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think the issue around consultation is really important—the Member raises a serious point there. I don't know about the particular scheme that the Member raises, but I will ask NRW to respond directly to the Member with regard to that.

Rwy'n meddwl bod y mater ynglŷn ag ymgynghoriad yn bwysig iawn—mae'r Aelod yn nodi pwynt difrifol yn hynny o beth. Nid wyf yn gwybod am y cynllun penodol y mae'r Aelod yn ei nodi, ond fe ofynnaf i Cyfoeth Naturiol Cymru ymateb yn uniongyrchol i'r aelod mewn perthynas â hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

| | | | |
|------------------------------------|--|--|--|
| 13:59 | <p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, you'll know the delay in terms of Swansea tidal lagoon is largely down to the UK Government deciding a strike price, but there is also a delay in terms of Natural Resources Wales determining the various licences for that lagoon and it is dragging on a bit. Can you give us an insight as to when you expect Natural Resources Wales to come to a decision on this particular issue?</p> | <p>Weinidog, fe wyddoch fod yr oedi ar forlyn llanw Abertawe yn ymwneud yn bennaf â Llywodraeth y DU yn penderfynu ar bris streic, ond ceir oedi hefyd ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru yn penderfynu ar y trwyddedau amrywiol ar gyfer y morlyn ac mae'n llusgo ymlaen braidd. A allwch roi syniad i ni pa bryd y disgwylwch i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud penderfyniad ar y mater hwn?</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:00 | <p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I expect Natural Resources Wales to act appropriately in issuing licences and take full consideration of the impacts of any scheme. As I am aware, the strike price still hasn't been agreed by the UK Government and therefore NRW still has some space in there to deal with the issues raised by the Member.</p> | <p>Rwy'n disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru weithredu'n briodol wrth roi trwyddedau ac ystyried effeithiau unrhyw gynllun yn llawn. Yn ôl yr hyn a ddeallaf, nid yw Llywodraeth y DU byth wedi cytuno ar bris streic ac felly, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ychydig o gyfle i ymdrin â'r materion a grybwyllodd yr Aelod.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| <p>Perygl Ymsuddo Sydyn</p> | | <p>The Dangers of Sudden Subsidence</p> | |
| 14:00 | <p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p><i>5. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o berygl ymsuddo sydyn?</i> OAQ(4)0398(NR)</p> | <p><i>5. What is the Welsh Government doing to raise awareness of the dangers of sudden subsidence?</i> OAQ(4)0398(NR)</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:00 | <p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>I thank the Member for her question. We highlight the issue of subsidence in national planning policy and will continue to work with stakeholders on this issue.</p> | <p>Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Rydym yn tynnu sylw at ymsuddo mewn polisi cynllunio cenedlaethol a byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid ar y mater.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:00 | <p>Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that, Minister. Sudden subsidence leading to sink holes is extremely hazardous. When such a recent incident caused a hole to appear in Cimla Road in my constituency, although it was only 18 inches square on the surface, the void below was 20 ft wide and 20 ft deep and required filling with 64 tonnes of stone and concrete. I must say the multi-agency response was excellent and rapid and I commend everyone who was involved with that. Can you outline what work is being done to map and monitor the risks of sink holes and other forms of subsidence in areas such as the south Wales coalfield where there is a particular danger?</p> | <p>Diolch am hynny, Weinidog. Mae ymsuddo sydyn yn arwain at lyncdyllau yn hynod beryglus. Pan achosodd digwyddiad o'r fath yn ddiweddar i dwll ymddangos yn Heol Cimla yn fy etholaeth, er mai 18 modfedd sgwâr yn unig ydoedd ar y wyneb, roedd y gwagle isod yn 20 troedfedd o led ac 20 troedfedd o ddyfnder ac roedd angen ei lenwi â 64 tunnell o gerrig a choncrid. Rhaid i mi ddweud bod yr ymateb amlasiantaethol yn ardderchog a chyflym a chymeradwyaf bawb a oedd yn gysylltiedig â hynny. A allwch amlinellu pa waith sy'n cael ei wneud i fapio a monitro perygl llyncdyllau a mathau eraill o ymsuddiant mewn ardaloedd fel maes glo de Cymru, lle y ceir perygl penodol?</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:01 | <p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes. I thank the Member for her question. The geology of Wales and the extensive history of underground mining activity means that it's not feasible to predict sudden instances of subsidence and we're not aware of any current responsibilities resting on the Welsh Government for a general awareness of such subsidence risk.</p> | <p>Gallaf. Diolch i'r Aelod am ei chwestiwn. Mae daeareg Cymru a'r hanes helaeth o weithgarwch cloddio tanddaearol yn golygu nad yw'n bosibl rhagweld achosion o ymsuddo sydyn ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gyfrifoldebau presennol sydd gan Lywodraeth Cymru o ran codi ymwybyddiaeth gyffredinol o risg ymsuddo o'r fath.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |

I don't have any plans, currently, to launch a general campaign to educate the public about the dangers associated with it. It's generally an issue of when they appear. I'm grateful for the Member's comments about the emergency services and authorities that dealt with the issues very well. I encourage local authorities and other responsible bodies to provide targeted responses to areas of known risk.

Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau, ar hyn o bryd, i lansio ymgyrch gyffredinol i addysgu'r cyhoedd am y peryglon sy'n gysylltiedig â hyn. Yn gyffredinol, mae'n fater o pan fyddant yn ymddangos. Rwy'n ddiolchgar am sylwadau'r Aelod ynghylch y gwasanaethau brys a'r awdurdodau a ymdriniodd â'r broblem yn dda iawn. Rwy'n annog awdurdodau lleol a chyfrifol eraill i ddarparu ymatebion wedi'u targedu ar yr ardaloedd lle y mae'r risg yn hysbys.

14:02 **Altat Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, there's a concern in my region over the increasing interest in unconventional gas, in particular underground coal gasification, and the potential this has to lead to sudden subsidence. Your Government has taken a strong line on fracking. Will you now take a similar strong line on coal gasification, because of the danger this poses to the geology in my region?

Weinidog, mae pryder yn fy rhanbarth ynghylch y diddordeb cynyddol mewn nwy anghonfensiynol, yn enwedig nweiddio glo tanddaearol, a'r perygl y bydd yn arwain at ymsuddo sydyn. Mae eich Llywodraeth wedi arddel safbwynt cadarn ar ffracio. A wnewch chi yn awr arddel safbwynt cadarn tebyg ar nweiddio glo oherwydd y perygl y mae'n ei greu i ddaearog yn fy rhanbarth?

14:02 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I'm surprised—well, should I be surprised at the split in the party opposite? We've got a very strong line on fracking and coal gasification. The Members opposite in Westminster are encouraging activity around fracking and this process. I find the Member's question very bizarre, but I welcome his comments on the basis that we are trying to protect Wales. And, of course, he's more than welcome—I'm sure we'll find him a chair if he really wants one.

Wel, rwy'n synnu—wel, a ddylwn i synnu at y rhaniad yn y blaidd gyferbyn? Rydym yn arddel safbwynt cadarn iawn ar ffracio a nweiddio glo. Mae Aelodau'r blaidd gyferbyn yn San Steffan yn annog gweithgarwch yn ymwneud â ffracio a'r broses hon. Rwy'n credu bod cwestiwn yr Aelod yn rhyfedd iawn, ond rwy'n croesawu ei sylwadau ar y sail ein bod yn ceisio amddiffyn Cymru. Ac wrth gwrs, mae croeso iddo—rwy'n siŵr y down o hyd i gadair iddo os yw eisiau un mewn gwirionedd.

14:02 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Minister, sink holes have appeared in the gardens of properties in Llystavel in Ystradgynlais caused by the River Tawe breaching the river wall and washing ground away behind that wall. Natural Resources Wales and Welsh Water all agree that, at some point, a historical municipal body built that wall, but nobody's willing to take responsibility for it now. Will you look sympathetically at the case for repair to the Llystavel river wall to prevent any further damage to properties in that area and to stop a massive breach into the River Tawe?

Weinidog, mae llyncdyllau wedi ymddangos yng ngerddi eiddo yn Llystavel yn Ystradgynlais a achoswyd gan Afon Tawe yn torri dros wal yr afon ac yn golchi tir i ffwrdd y tu ôl i'r wal. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru yn cytuno bod corff trefol hanesyddol wedi adeiladu'r wal ar ryw adeg, ond nid oes neb yn barod i gymryd cyfrifoldeb amdani yn awr. A wnewch chi edrych â chydymdeimlad ar yr achos dros atgyweirio wal afon Llystavel i atal unrhyw ddifrod pellach i eiddo yn yr ardal ac i atal toriad enfawr i mewn i Afon Tawe?

14:03 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Member has written to me on this specific issue, Presiding Officer, and I will give that some further consideration.

Mae'r Aelod wedi ysgrifennu ataf ynglŷn â'r mater hwn, Lywydd, a byddaf yn ei ystyried ymhellach.

Rheoli Gwelyau Afonydd a Llifogydd

River Bed Management and Flooding

14:03 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

6. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio rheoli gwelyau afonydd i atal llifogydd? OAQ(4)0399(NR)

6. How is the Welsh Government using river bed management to prevent flooding? OAQ(4)0399(NR)

14:03 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

River bed management is carried out in line with our whole catchment approach to flood-risk management. River bed management is allowed through permit on a case-by-case basis after assessing its impact on the river as well as the subsequent effect on flood risk for homes and businesses.

Caiff y gwaith o reoli gwelyau afonydd ei gyflawni yn unol â'n dull dalgylch cyfan o reoli perygl llifogydd. Caniateir rheoli gwelyau afonydd drwy drwydded ar sail achosion unigol ar ôl asesu ei effaith ar yr afon, yn ogystal â'r effaith ddilynol ar berygl llifogydd i gartrefi a busnesau.

14:03

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Well, after an Anglesey landowner contacted me to say he'd cleared the river bed on his side, but the adjacent farm was refusing to, saying that it was a matter for Natural Resources Wales, I contacted Natural Resources Wales with the warning that this would lead to flooding over winter. They replied that it didn't appear to pose any flood risk to people or property. Needless to say, during the heavy rain this December, half the field was flooded because of the blockage. My constituent went back to Natural Resources Wales saying that landowners were now going to contribute collectively to fund the clearance, and, instead of getting assistance, it came back saying, 'You'll need prior consent, you need to get a form, complete a form, submit a map, blah, blah blah' rather than working with them to do what they should've done in the first place. How, therefore, would you respond to the concern expressed by my constituent on Anglesey—quote—'no wonder we're having flooding. It's down to bad management of rivers'?

Diolch. Wel, ar ôl i dirfeddiannwr o Ynys Môn gysylltu â mi i ddweud ei fod wedi clirio gwely'r afon ar ei ochr ef, ond fod y fferm gyfagos yn gwrthod gwneud, gan ddweud mai mater i Cyfoeth Naturiol Cymru oedd gwneud hynny, cysylltais â Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r rhybudd y byddai hyn yn arwain at lifogydd dros y gaeaf. Eu hateb oedd nad oedd yn ymddangos ei fod yn achosi unrhyw berygl o lifogydd i bobl neu eiddo. Afraid dweud, yn ystod y glaw trwm fis Rhagfyr, roedd hanner y cae dan ddŵr oherwydd y rhwystr. Cysylltodd fy etholwr eto â Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud bod tirfeddianwyr yn awr yn mynd i gyfrannu ar y cyd i ariannu'r gwaith clirio, ac yn lle cael cymorth, atebodd Cyfoeth Naturiol Cymru drwy ddweud, 'Bydd angen caniatâd ymlaen llaw arnoch, mae angen i chi gael ffurflen, llenwi ffurflen, cyflwyno map, bla, bla, bla' yn hytrach na gweithio gyda hwy i wneud yr hyn y dylent fod wedi'i wneud yn y lle cyntaf. Sut, felly, y byddech yn ymateb i'r pryder a fynegwyd gan fy etholwr ar Ynys Môn—rwy'n dyfynnu—'no wonder we're having flooding. It's down to bad management of rivers'?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:04

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think the fact of the matter that the Member raises, saying that NRW said the process that is needed to do this —. Landowners can undertake watercourse maintenance work themselves and I've met with many farmers who do do that, providing they have consent from NRW. I don't think it's too complicated. The fact is, working together is really important, but we just can't allow dredging or watercourse management by stealth, because that has an effect elsewhere. That's why there has to be a management process around it.

Rwy'n credu mai'r gwir am y mater y mae'r Aelod yn ei grybwyll, yn dweud bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud mai'r broses sydd ei hangen i wneud hyn—. Gall tirfeddianwyr ymgymryd â gwaith cynnal a chadw cyrsiau dŵr eu hunain ac rwyf wedi cwrdd â nifer o ffermwyr sy'n gwneud hynny, cyn belled â'u bod yn cael caniatâd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid wyf yn credu ei fod yn rhy gymhleth. Y ffaith amdani yw, mae gweithio gyda'n gilydd yn bwysig iawn, ond ni allwn ganiatáu carthu neu reoli cyrsiau dŵr yn y dirgel, gan fod hynny'n effeithio ar fannau eraill. Dyna pam y mae'n rhaid cael proses reoli yn ei gylch.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:05

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I know you've seen first-hand the devastation of flooded premises and you have accompanied me, several times, to areas in my constituency that suffer from flooding. However, I believe it's vital that all agencies involved continue to take a balanced and a controlled approach to managing the risks of flooding. Will you, therefore, resist calls to allow landowners uncontrolled freedom to carry out drainage works without regard to the consequences for downstream communities?

Weinidog, gwn eich bod wedi gweld y difrod i eiddo yn sgil llifogydd â'ch llygaid eich hun ac rydych wedi dod gyda mi, sawl gwaith, i ardaloedd yn fy etholaeth sy'n dioddef o lifogydd. Fodd bynnag, credaf ei bod yn hanfodol fod pob asiantaeth sy'n ymwneud â hyn yn parhau i arfer dull cytbwys a rheoledig o reoli perygl llifogydd. A wnech chi, felly, wrthsefyll galwadau i ganiatáu rhyddid direolaeth i dirfeddianwyr wneud gwaith draenio heb ystyried y canlyniadau i gymunedau i lawr yr afon?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:05

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, and, as I just said to the Member previously, it is about working together with the farming sector and landholders to see how we can make sure that we can have planned drainage for land management. We have no plans to follow the English model in allowing drainage work on ditches of any length without appropriate assessment of flooding. My officials will continue to liaise with NRW on this matter. Our policy will, as ever, be based on actual evidence, rather than a knee-jerk reaction to recent events.

Wrth gwrs, ac fel rwyf newydd ei ddweud wrth yr Aelod yn flaenorol, mae'n ymwneud â gweithio gyda'r sector ffermio a thirfeddianwyr i weld sut y gallwn sicrhau bod gennym gynlluniau draenio ar gyfer rheoli tir. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau i ddilyn model Lloegr drwy ganiatáu gwaith draenio ar ffosydd o unrhyw hyd, heb asesiad priodol o lifogydd. Bydd fy swyddogion yn parhau i gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r mater. Bydd ein polisi, fel arfer, yn seiliedig ar dystiolaeth go iawn, yn hytrach nag adwaith difeddwl i ddigwyddiadau diweddar.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:06

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n gwybod, Weinidog, nad ydych chi wedi cael cyfle i ddod i weld y difrod yn dilyn y llifogydd a ddigwyddodd ar ôl y Nadolig yma yn Arfon, ond mi gafodd dros 100 o dai eu gorlifo, a rhai yn uniongyrchol o afonydd yn gorlifo. Wrth gwrs, mae amryw o'r teuluoedd hynny yn dal allan o'u cartrefi. Pryd fydd adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar y llifogydd a rhan yr afonydd yn y difrod hwnnw yn cael ei gyhoeddi, ac a ydy Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyd-awdurdodi'r adroddiad hwnnw gyda'r awdurdod lleol a Dŵr Cymru? Diolch.

I know, Minister, that you haven't had an opportunity to visit the damage following the floods that happened after Christmas in Arfon, but over 100 homes were flooded, and some directly as a result of fluvial flooding. Of course, many of those families are still away from their homes. When will the NRW report be published on the flooding and the rivers' role in that flooding, and is NRW co-authoring that report with the local authority and Dŵr Cymru? Thank you.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'll have to write to the Member with detail in regard to the report date and when that will be released. I have met with NRW recently to discuss this very issue, and I think it is important that we get the lessons learnt from the events that happened in December. I visited Arfon, actually, just before the floods, which is less than helpful in terms of what happened in December, but I am aware of the area, particularly, that was flooded, and my sympathies do go out to the families and businesses affected in your constituency.

Bydd yn rhaid i mi ysgrifennu at yr Aelod gyda manylion ynglŷn â dyddiad yr adroddiad a pha bryd y bydd yn cael ei ryddhau. Rwyf wedi cyfarfod â Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar i drafod yr union fater hwn, ac rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni ddysgu gwersi o'r digwyddiadau ym mis Rhagfyr. Ymwelais ag Arfon ychydig cyn y llifogydd mewn gwirionedd, sy'n llai na defnyddiol o ran yr hyn a ddigwyddodd ym mis Rhagfyr, ond rwy'n arbennig o ymwybodol o'r ardal a ddiodefodd llifogydd, a hoffwn fynegi fy nghydymdeimlad â'r teuluoedd a'r busnesau yr effeithwyd arnynt yn eich etholaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rydych chi wedi ei wneud e'n amlwg nad ydych chi'n barod i adolygu'r polisi o ran glanhau afonydd, ond a gaf i ofyn i chi—? Rydych chi'n cynnal adolygiad ynglŷn â'r sefyllfa yn Llanrwst, ond, i fod yn deg, mi oedd llawer iawn o'r gwaith sydd wedi cael ei wneud o gwmpas Llanrwst yn eithaf llwyddiannus. Ond mae yna broblemau yn nyffryn Conwy yn ei gyfanrwydd. Mae yna gynlluniau llifogydd ar gyfer yr afon Conwy, ond a ydych chi'n barod i ailystyried y sefyllfa o gofio bod cobiau yn ardal Llanrwst wedi cael eu dileu, ond mae yna gobiau, yn arbennig rhwng ardal Tan Lan a Threfriw, sydd, ar hyn o bryd, yn dal mewn bod.

Minister, you have made it obvious that you're not willing to review the policy as regards the cleansing of rivers, but, may I ask you—? You are undertaking a review of the situation at Llanrwst, but, to be fair, much of the work that was undertaken around Llanrwst was quite successful. But there are problems in the Conwy valley as a whole. There are flood prevention plans for the River Conwy, but are you willing to reconsider the situation bearing in mind that cobs in the Llanrwst area were overtopped, but there are cobs, in particular in the Tan Lan and Trefriw areas, that are still in existence?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:08

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for his question. I think it's really important that we continue to have an open mind on this. We've got a strategic plan that we are working to where we have known risks in terms of flooding. But, like we saw in December, we had rainfalls in Capel Curig of around 1m, which is unprecedented. Planning for that is really difficult. What we've got to do is review the issues that presented themselves through December and January and look at what preventative methods we can put in place to mitigate some of those risks. Again, the areas that the Member raises with me are something that I know NRW and my flood team are looking at.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiwn. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i ni barhau i fod â meddwl agored ar hyn. Mae gennym gynllun strategol ein bod yn gweithio ar ble y mae gennym risg hysbys o ran llifogydd. Ond fel y gwelsom ym mis Rhagfyr, cafwyd tua 1m o law yng Nghapel Curig, sy'n ddi-gynsail. Mae cynllunio ar gyfer hynny'n wirioneddol anodd. Yr hyn sy'n rhaid ni ei wneud yw adolygu'r materion a gododd drwy fis Rhagfyr a mis Ionawr ac edrych ar ba ddulliau ataliol y gallwn eu rhoi ar waith i liniaru rhai o'r risgiau hynny. Unwaith eto, mae'r meysydd y mae'r Aelod yn eu dwyn i fy sylw yn bethau y gwn fod Cyfoeth Naturiol Cymru a fy nhim llifogydd yn edrych arnynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Cynllun Datblygu Gwledig

The Rural Development Plan

14:09

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae'r cynllun datblygu gwledig yn bwriadu gwella economi'r Gymru wledig? OAQ(4)0413(NR)

7. Will the Minister outline how the rural development plan aims to improve the economy of rural Wales? OAQ(4)0413(NR)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:09

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Economic renewal is central to the Welsh Government rural communities rural development programme 2014-20 through the green growth approach. Knowledge and innovation interventions are supported by targeting investment that will benefit jobs and growth in the land-based sector, the food supply chain and other businesses in our rural communities.

Mae adnewyddu economaidd yn ganolog i raglen datblygu gwledig 2015-20 Llywodraeth Cymru i gymunedau gwledig drwy'r dull twf gwyrdd. Cefnogir ymryiadau gwybodaeth ac arloesedd drwy dargedu buddsoddiad a fydd o fudd i swyddi a thwf yn y sector diwydiannau'r tir, y gadwyn cyflenwi bwyd a busnesau eraill yn ein cymunedau gwledig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:09

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Thank you, Minister, for that answer. I heard what you said to previous questions about grants, in particular small grants, under the rural development plan, but I do believe that, given the distribution of money so far under the rural development scheme, there is scope to open up small grants to farmers in particular, who might well then be able to develop best business practices. Are you able, on your earlier answers, to enlarge on the strategic point that you made? Because you said you were sympathetic to creating strategic avenues of support, and you said about sheep readers and electronic devices such as that. Can you say a time frame when you might be bringing forward such proposals to make these devices available and the support packages out of the rural development plan?

Diolch i chi am eich ateb, Weinidog. Clywais yr hyn a ddywedoch wrth ateb cwestiynau blaenorol am grantiau, a grantiau bach yn arbennig, o dan y cynllun datblygu gwledig, ond rwy'n credu, o ystyried dosbarthiad arian hyd yn hyn o dan y cynllun datblygu gwledig, fod lle i gynng grantiau bach i ffermwyr yn arbennig, a fyddai wedyn efallai yn gallu datblygu arferion busnes gorau. A allwch ehangu ar eich atebion cynharach ynglŷn â'r pwynt strategol a wnaethoch? Oherwydd fe ddywedoch eich bod yn cydymdeimlo â chreu llwybrau strategol o gymorth, ac fe sonioch am ddyfeisiau darllen nodau defaid a dyfeisiau electronig o'r fath. A allwch roi ffrâm amser pan allech fod yn cyflwyno cynigion o'r fath i sicrhau bod y dyfeisiau hyn ar gael a'r pecynnau cymorth allan o'r cynllun datblygu gwledig?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:10

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, these proposals will be developed in partnership with the industry. They would come mostly under the co-operative projects that we have as one of the strands of the rural development programme. That's the co-operation and supply chain development scheme. We've already had one expression of interest window opened for that, and, following that, we've announced 29 applicants chosen to go forward to the next stage of making that formal approval. Some of those are projects that will fundamentally support farmers across the whole of Wales in a sector-specific way to achieve transformational change en masse. That includes options then for small grants to enable those things to happen.

Gallaf, bydd y cynigion hyn yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r diwydiant. Byddent yn dod yn bennaf o dan y prosiectau cydweithredol sydd gennym fel un o elfennau'r rhaglen datblygu gwledig. Dyna gynllun datblygu'r gadwyn cyflenwi a chydweithredu. Rydym eisoes wedi agor un cyfnod ar gyfer cyflwyno datganiad o ddiddordeb ynglŷn â hyn ac yn dilyn hynny, rydym wedi cyhoeddi 29 o ymgeiswyr a ddewiswyd i fynd ymlaen i'r cam nesaf o gael cymeradwyaeth ffurfiol. Mae rhai o'r rheini yn brosiectau a fydd yn cynorthwyo ffermwyr yn sylfaenol ledled Cymru gyfan mewn ffordd sy'n benodol i'r sector i gyflawni newid trawsnewidiol yn gyffredinol. Mae hynny'n cynnwys opsiynau o grantiau bach i alluogi i'r pethau hynny ddigwydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:10

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ddirprwy Weinidog, mae yna ffermwyr ifanc yn fy etholaeth i sy'n awyddus i chi fod yn cyhoeddi manylion eich cynllun mynediad ffermwyr ifanc. Y wybodaeth ddiweddaraf maen nhw wedi ei chlywed yw na fydd yna gynllun yn cael ei gyhoeddi tan o leiaf mis Mehefin. Mae hynny, wrth gwrs, ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ffurflenni IACS am eleni, ac mae hynny'n creu problemau ymarferol iawn i rai o'r bobl ifanc yma. A allech chi edrych, felly, at gyhoeddi'r cynllun yma ac agor y cynllun ar gyfer ceisiadau ynghynt yn hytrach nag yn hwyrach, a gwneud hynny cyn mis Mai?

Deputy Minister, there are young farmers in my constituency who are eager for you to announce the details of your young entrants scheme. The latest information that they have heard is that such a scheme will not be announced until at least June. That, of course, is after the closing date for the IACS forms for this year, and that creates some very practical problems for some of these young people. Therefore, can you look to announce this scheme and bring it forward for applications sooner rather than later, and do that before May?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:11 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Our priority, so far, under the rural development programme for young farmers has been to invest in skills and growth and so on, particularly with the announcement of our Mentro—or Venture—scheme, which is a scheme that we've developed in order to help young farmers come into share farming arrangements. So, that's where our priority has been thus far, and also to develop the work under Farming Connect. So, AgriScot, Agri Academy and so on. That's been our priority at the start of the rural development programme, which we only had approval for in May of last year. I think that it's easy to forget that we are only seven months into a seven- to 10-year programme.

Diolch. Ein blaenoriaeth, hyd yn hyn, o dan y rhaglen datblygu gwledig ar gyfer ffermwyr ifanc yw buddsoddi mewn sgiliau a thwf ac yn y blaen, yn enwedig gyda chyhoeddi ein cynllun Mentro, sef cynllun a ddatblygwyd gennym i helpu i gyflwyno trefniadau ffermio cyfran i ffermwyr ifanc. Felly, dyna beth yw ein blaenoriaeth hyd yn hyn, a hefyd i ddatblygu'r gwaith o dan Cyswllt Ffermio. Felly, AgriScot, Academi Amaeth ac yn y blaen. Dyna oedd ein blaenoriaeth ar ddechrau'r rhaglen datblygu gwledig na chawsom gymeradwyaeth iddi hyd nes fis Mai y llynedd. Credaf ei bod yn hawdd anghofio mai saith mis yn unig i mewn i raglen saith i 10 mlynedd rydym ni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:12 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I declare an interest, that my husband is a partner in a farming business in Brecon and Radnorshire. Minister, all farmers have contributed to the RDP via the pillar transfer, yet, if the first round of the sustainable production grant scheme is anything to go by, very few will actually benefit. What steps can farmers in Brecon and Radnorshire expect you to take to ensure that as many of them as possible have the advantage of participating in the rural development plan in schemes that will not only help them invest in their businesses in terms of new technology, but would you consider, for instance, a scheme similar to that in the south of Ireland that focused on genetic databases and the ability to improve our breeding stock?

Rwy'n datgan buddiant fod fy ngŵr yn bartner mewn busnes ffermio ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed. Weinidog, mae pob ffermwr wedi cyfrannu at y Cynllun Datblygu Gwledig drwy'r trosglyddo o golofn i golofn, ac eto, os yw cylch cyntaf y cynllun grant cynhyrchu cynaliadwy yn ffon fesur, ychydig iawn a fydd yn elwa, mewn gwirionedd. Pa gamau y gall ffermwyr ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed ddisgwyl i chi eu cymryd i sicrhau bod gan gymaint ohonynt â phosibl fantais o gymryd rhan yn y cynllun datblygu gwledig mewn cynlluniau a fydd nid yn unig yn eu helpu i fuddsoddi yn eu busnesau o ran technoleg newydd, ond a fyddech yn ystyried, er enghraifft, cynllun tebyg i'r un yn ne Iwerddon a oedd yn canolbwyntio ar gronfeydd data genetig a'r gallu i wella ein stoc bridio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:13 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank you for that question. Of course, since May, we've already made more than £200 million-worth of support available, and the vast, vast majority does go to farmers and landowners. The land-based sector has had first priority in the programme. We've already opened windows and expressions of interest for Farming Connect, Glastir Advanced, Glastir Commons, Glastir Organic, Glastir Woodland Restoration, Glastir Woodland Creation, the sustainable production grant, the food business investment grant, the rural community development fund, the co-operation and supply chain development scheme, LEADER and the European innovation partnership. The vast majority of those are actually only open to farmers. So, I think that farmers have had many opportunities already under our rural development programme which, as I say, is only seven months in.

Diolch am eich cwestiwn. Wrth gwrs, ers mis Mai, rydym eisoes wedi sicrhau bod gwerth mwy na £200 miliwn o gymorth ar gael, ac mae'r mwyafrif helaeth yn mynd i ffermwyr a thirfeddianwyr. Mae sector diwydiannau'r tir wedi cael prif flaenoriaeth yn y rhaglen. Rydym eisoes wedi agor cyfnodau cyflwyno datganiadau o ddi-ddordeb ar gyfer Cyswllt Ffermio, Glastir Uwch, Glastir – Tir Comin, Glastir Organig, Glastir – Adfer Coetir, Glastir – Creu Coetir, y grant cynhyrchu cynaliadwy, y grant buddsoddi mewn busnesau bwyd, y gronfa datblygu cymunedau gwledig, y cynllun cydweithredu a datblygu'r gadwyn gyflenwi, LEADER a phartneriaeth arloesedd Ewrop. Mae'r mwyafrif helaeth o'r rheini ar gael i ffermwyr yn unig mewn gwirionedd. Felly, credaf fod ffermwyr wedi cael llawer o gyfleoedd eisoes o dan ein rhaglen datblygu gwledig, sydd ond wedi bod yn weithredol ers saith mis, fel y dywedais.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynllun Trydan Dŵr Rhaeadr y Graig Lwyd

Conwy Falls Hydroelectric Scheme

14:13 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun trydan dŵr Rhaeadr y Graig Lwyd? OAQ(4)0403(NR)

8. Will the Minister make a statement on the Conwy Falls hydroelectric scheme? OAQ(4)0403(NR)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:13 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Natural Resources Wales are currently considering the application for the abstraction licence related to this project. I'm unable to comment on planning aspects of this scheme.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n ystyried y cais am y drwydded tynnu dŵr sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn. Ni allaf wneud unrhyw sylwadau ar agweddau cynllunio'r cynllun hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:14 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you will be aware of around 6,000 signatures opposing the Conwy Falls hydroelectric scheme. Concerns raised primarily are as a result of a lack of consultation, failure to engage, and insufficient detail. With works of such magnitude, and in an area of stunning natural beauty, massive tourism appeal, and a site of special scientific interest, it is essential that the views of those affected are considered very much part of this planning process. Non-compliance incidents with regard to hydroelectric licences in Snowdonia national park have more than doubled in the past three years, causing much of this scepticism. How will you ensure that these representations will be heard, considered and accurately reflected so as to reflect all views, both those for and against the scheme?
- Weinidog, fe fyddwch yn ymwybodol o'r oddeutu 6,000 o lofnodion i wrthwynebu cynllun trydan dŵr Rhaeadr y Graig Lwyd. Mae'r pryderon yn ymwneud yn bennaf â diffyg ymgynghori, methiant i ymgysylltu, a phrinder manylion. Gyda gwaith mor fawr, ac mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol, sy'n atyniad enfawr i dwristiaeth ac yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig, mae'n hanfodol fod barn y rhai yr effeithir arnynt yn cael ei hystyried yn rhan bwysig o'r broses gynllunio hon. Mae nifer yr enghreifftiau o fethiant i gydymffurfio mewn perthynas â thrywyddedau trydan dŵr ym mharc cenedlaethol Eryri wedi mwy na dyblu yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, a hynny sydd wrth wraidd llawer o'r amheuaeth. Sut y byddwch yn sicrhau bod y sylwadau hyn yn cael eu clywed, eu hystyried a'u mynegi'n gywir er mwyn adlewyrchu pob barn, o blaid ac yn erbyn y cynllun?
- 14:14 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Presiding Officer, as I've made very clear in the past, I'm not able to comment on a live planning application. The Member knows that very well.
- Lywydd, fel y dywedais yn glir iawn yn y gorffennol, ni allaf roi sylwadau ar gais cynllunio byw. Mae'r Aelod yn gwybod hynny'n iawn.
- 14:15 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The Minister is aware of my enthusiasm for the hydroelectric scheme at Radyr weir, which is at the Taff river. I know I've raised it many times in this Chamber, because I think it is a fantastic scheme and I pay tribute to the local authority for what they've done. But what sort of incentives is he able to offer to community groups or local authorities to harness the power of the abundant water that we've got in Wales, to increase the number of schemes like this one, like Radyr weir, throughout Wales?
- Mae'r Gweinidog yn ymwybodol o fy mrwdfrydedd ynglŷn â'r cynllun trydan dŵr yng nghored Radur, sydd ar afon Taf. Gwn fy mod wedi'i grybwyll sawl gwaith yn y Siambr hon, gan fy mod yn credu ei fod yn gynllun gwych, a thalaf deyrnged i'r awdurdod lleol am yr hyn y maent wedi'i wneud. Ond pa fath o gymhellion y gall y Gweinidog eu cynnig i grwpiau cymunedol neu awdurdodau lleol er mwyn harneisio grym y digonedd o ddŵr sydd gennym yng Nghymru, a chynyddu nifer cynlluniau o'r fath, fel cored Radur, ledled Cymru?
- 14:15 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- For all the invitations I've received today, I really am looking forward to the invitation to join Julie Morgan at this scheme shortly. It is a great scheme, and I also pay tribute to the people involved in that locally. We are seeing more investment in hydroelectric schemes; we've got an abundance of supply. I was up in the Valleys recently looking at a new scheme being developed there with Brendan Toomey. Again, we can, and we should, use as much of this natural resource as possible. We have a scheme, which we've just launched, in terms of a support mechanism post-Ynni'r Fro in which we are helping communities to be enabled to create schemes like this one in her constituency.
- O'r holl wahoddiadau a dderbynias heddiw, rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y gwahoddiad i fynd gyda Julie Morgan i weld y cynllun hwn cyn bo hir. Mae'n gynllun gwych, a thalaf deyrnged hefyd i'r bobl sy'n ymwneud ag ef yn lleol. Rydym yn gweld mwy o fuddsoddi mewn cynlluniau trydan dŵr; mae gennym ddigonedd o gyflenwad. Bûm yn y Cymoedd yn ddiweddar yn edrych ar gynllun newydd sy'n cael ei ddatblygu yno gyda Brendan Toomey. Unwaith eto, fe allwn, ac fe ddylem, ddefnyddio cymaint o'r adnodd naturiol hwn â phosibl. Mae gennym gynllun rydym newydd ei lansio sy'n system gefnogi ar ôl Ynni'r Fro lle'r ydym yn helpu i alluogi cymunedau i greu cynlluniau fel hyn yn ei hetholaeth hi.
- 14:16 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n datgan diddordeb, gan fy mod i'n byw ar bwys Rhaeadr y Graig Lwyd.
- I declare an interest, as I live near Conwy falls.
- A fyddai'r Gweinidog yn cytuno y dylai Aelodau'r Cynulliad adael i bwyllgorau cynllunio perthnasol gymryd penderfyniadau mewn achosion o gynllunio?
- Would the Minister agree that Assembly Members should allow the relevant planning committees to take decisions in cases of planning?

| | | | |
|-------|--|---|--|
| 14:16 | <p>Carl Sargeant Bywgraffiad Biography</p> <p>Of course, this is a matter for the local planning authority or/and Natural Resources Wales. These are important decisions to be made, and I do expect all decisions, without prejudice, to be made fairly. But it is sometimes inappropriate for Members to make inappropriate comments when they have not had the full details presented in front of them that may be, on occasion, in certain circumstances, alluded to.</p> | <p>Wrth gwrs, mater i'r awdurdod cynllunio lleol neu/a Cyfoeth Naturiol Cymru yw hwn. Mae'r rhain yn benderfyniadau pwysig, ac rwy'n disgwyl i'r holl benderfyniadau, heb ragfarn, gael eu gwneud yn deg. Ond weithiau mae'n amhriodol i Aelodau wneud sylwadau amhriodol pan na chyflwynwyd yr holl fanylion o'u blaenau, manylion y gellid cyfeirio atynt ar brydiau ac mewn rhai amgylchiadau.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:17 | <p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you very much, Minister.</p> | <p>Diolch yn fawr iawn, Weinidog.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| | <p>2. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi</p> <p><i>Mae [R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant. Mae [W] yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.</i></p> | <p>2. Questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty</p> <p><i>[R] signifies the Member has declared an interest. [W] signifies that the question was tabled in Welsh.</i></p> | |
| 14:17 | <p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We now move to item 2, which is questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty, and question 1 is from Janet Haworth.</p> | <p>Symudwn yn awr at eitem 2, sef cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, a daw cwestiwn 1 gan Janet Haworth.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| | <p>Janet Haworth Bywgraffiad Biography</p> <p>What discussions has the Minister had with farming industry representatives to establish schemes which could prevent future flooding incidents?</p> | <p>Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chynrychiolwyr y diwydiant ffermio i sefydlu cynlluniau a allai atal llifogydd yn y dyfodol?</p> | |
| 14:17 | <p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty</i></p> <p>I don't think that's my question.</p> | <p>Nid wyf yn credu mai fy nghwestiwn i yw hwnnw.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:17 | <p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I don't think that's the question that's on paper.</p> | <p>Nid wyf yn credu mai dyna'r cwestiwn sydd ar y papur.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:17 | <p>Janet Haworth Bywgraffiad Biography</p> <p>No, sorry.</p> | <p>Na, mae'n ddrwg gennyf.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:17 | <p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, no; are you going to ask the question, or shall we move on?</p> | <p>Wel, na; a ydych chi'n mynd i ofyn y cwestiwn, neu a wnawn ni symud ymlaen?</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:17 | <p>Janet Haworth Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes, sorry about that.</p> | <p>Ydw, mae'n ddrwg gennyf am hynny.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| | <p>Ceiswyr Lloches</p> | <p>Asylum Seekers</p> | |
| 14:17 | <p>Janet Haworth Bywgraffiad Biography</p> <p><i>1. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i sefydlu ceiswyr lloches yng Nghymru? OAQ(4)0420(CTP)</i></p> | <p><i>1. Will the Minister provide an update on plans to settle asylum seekers in Wales? OAQ(4)0420(CTP)</i></p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |

- 14:17 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Asylum policy and the dispersal of asylum seekers is not devolved to the Welsh Government. However, we welcome asylum seekers within the four dispersal areas in Wales.
- 14:18 **Janet Haworth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you will be aware that people in our regions and constituencies are deeply concerned about the refugee crisis, and our local authorities will be at the forefront of any resettlement plans. So, when will you be able to provide more information about settlement plans?
- 14:18 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I'm assuming that the Member is referring to the Syrian refugee resettlement programme that's being led by the UK Government, which we are working very closely on with the Minister for Syrian refugees in the UK Government. You will be aware that all 22 local authorities are keen to resettle Syrian refugees. There are four—Ceredigion, Torfaen, Neath Port Talbot, and Caerphilly—which settled approximately 50 Syrian refugees before Christmas, and I know that the other 18 local authorities are at different stages in their considerations.
- 14:19 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I've raised these concerns a number of times, Minister, and now Europol estimates that at least 10,000 unaccompanied children have disappeared after arriving in Europe. Many are feared to have fallen into the hands of organised traffickers, and the number in the UK alone this month has doubled. The UK Government has said that Britain will only take in vulnerable children identified in Italy and Greece who have a family connection in the UK—so, no children from Calais—and Wales is, of course, bound by that decision. But can you update us, Minister, on the Syrian resettlement programme here in Wales, and can you provide an update on what we as a country are doing to take in and identify and protect child refugees?
- 14:19 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Joyce Watson for that question. You heard my answer to Janet Haworth regarding where the local authorities are in relation to the Syrian refugee resettlement programme. Next week we'll be having the second taskforce looking at the Syrian refugee programme, which I'll be chairing. On Monday I'm having a telephone conversation with Richard Harrington, who's the UK Government Minister, to see what the UK Government are doing in relation to the vast numbers of unaccompanied children that you've just referred to. You'll be aware that the UK Government had said no unaccompanied children would be in the first tranche of refugees coming into the country, but once I have that update from the Minister I'll be very happy to update Members.

| | | | |
|-------|--|--|--|
| 14:20 | <p>Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Gyda sylw ar eich ymateb i Janet Haworth, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch cyngor Ceredigion o dan arweinyddiaeth ddoeth a chadarn Ellen ap Gwynn ar y modd y trefnwyd croeso a llety i ffoaduriaid o Syria yn y cyfnod cyn y Nadolig?</p> | <p>In relation to your response to Janet Haworth, will you join with me in congratulating Ceredigion council, wisely and strongly led by Elen ap Gwynne, for the way that a welcome and accommodation was provided to Syrian refugees before Christmas?</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:21 | <p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes, certainly I will. I mentioned there are four local authorities—Ceredigion, Torfaen, Neath Port Talbot and Caerphilly—who have absolutely led the way. I think in relation specifically to Ceredigion, they haven't had any refugees or asylum seekers in the area before, so they'd gone to a great deal of hard work and commitment to ensure that when those refugees arrive—because you'll appreciate, just before Christmas is not the best time, perhaps, looking at public services closing down over Christmas. So I think certainly those four local authorities, including Ceredigion, have certainly led the way.</p> | <p>Gwnaf, yn sicr. Soniais fod pedwar awdurdod lleol—Ceredigion, Torfaen, Castell-nedd Port Talbot a Chaerffili—wedi arwain y ffordd. O ran Ceredigion yn benodol, credaf nad oes unrhyw ffoaduriaid neu geiswyr lloches wedi bod yn eu hardal o'r blaen, felly maent wedi gwneud cryn waith ac wedi dangos ymrwymiad i sicrhau, pan gyrhaedda'r ffoaduriaid hynny—oherwydd gallwch werthfawrogi efallai nad y cyfnod cyn y Nadolig yw'r amser gorau, gan gofio bod gwasanaethau cyhoeddus yn cau dros y Nadolig. Felly, credaf fod y pedwar awdurdod lleol hwnnw, gan gynnwys Ceredigion, yn sicr wedi arwain y ffordd.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:21 | <p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, I've had representations from a number of constituents who would wish to offer a home to an unaccompanied child should the UK Government do what it ought to and accept more of those vulnerable young people into our country. I wonder if the Welsh Government had considered establishing a register for those people so that some of the pre-checks and the paperwork could perhaps be done in advance.</p> | <p>Weinidog, rwyf wedi derbyn sylwadau gan nifer o etholwyr a fyddai'n dymuno rhoi cartref i blentyn ar ei ben ei hun pe bai Llywodraeth y DU yn gwneud yr hyn y dylai ei wneud a chroesawu rhagor o'r bobl ifanc hyn sy'n agored i niwed i mewn i'n gwlad. Tybed a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried sefydlu cofrestr o'r bobl hynny fel bod modd cyflawni rhai o'r cyn-wiriadau a'r gwaith papur ymlaen llaw o bosibl.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:22 | <p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Several individuals from across Wales have written to me offering accommodation, and what I have done is put them in touch with their relevant local authority, because I think it's something that they can discuss. I know the UK Government have looked at what could be done in regard to this matter, but I think that, because of the refugees that are coming in, maybe placement in an individual's home is not the best place for them. But I think that it's something where certainly local authorities are keen to accumulate that information, and again, I will ask the Minister for an update when I have my telephone conversation with him on Monday.</p> | <p>Mae nifer o unigolion o bob rhan o Gymru wedi ysgrifennu ataf i gynnig llety, ac rwyf wedi eu rhoi mewn cysylltiad â'u hawdurdodau lleol perthnasol, gan fy mod yn credu ei fod yn rhywbeth y gallant ei drafod. Gwn fod Llywodraeth y DU wedi ystyried yr hyn y gellid ei wneud ynghylch y mater hwn, ond oherwydd y ffoaduriaid sy'n dod i mewn, credaf efallai nad cartref unigolyn yw'r lle gorau ar eu cyfer. Ond credaf ei fod yn rhywbeth y mae awdurdodau lleol yn sicr yn awyddus i gronni'r wybodaeth yn ei gylch, a byddaf yn gofyn i'r Gweinidog am y wybodaeth ddiweddaraf pan fyddaf yn cael sgwrs ffôn ag ef ddydd Llun.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:22 | <p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Question 2, Janet Finch-Saunders.</p> <p>Will Members try and keep up?</p> | <p>Cwestiwn 2, Janet Finch-Saunders.</p> <p>A wnaiff yr Aelodau geisio peidio â llusgo ar ôl?</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| | <p>Trosglwyddo Asedau Cymunedol</p> | <p>Community Asset Transfers</p> | |
| 14:22 | <p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p>2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drosglwyddo asedau cymunedol? OAQ(4)0417(CTP)</p> | <p>2. Will the Minister make a statement on community asset transfers? OAQ(4)0417(CTP)</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |

- 14:22 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- On 7 December, I published a written statement on protecting community assets. This provided an update on the responses to the consultation, which closed on 11 September. Welsh Government continues to support work in this area. Legislative action on community assets will need to be considered by a future Government.
- Ar 7 Rhagfyr, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar ddiogelu asedau cymunedol. Roedd yn rhoi diweddariad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a ddaeth i ben ar 11 Medi. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi gwaith yn y maes hwn. Bydd angen i Lywodraeth yn y dyfodol ystyried deddfu mewn perthynas ag asedau cymunedol.
- 14:23 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. So often we hear in this Chamber the comparison stories of the success of the UK Government. Well, here's another one. The community right to bid in England has increased year on year, with more than 2,600 now listed across the country, to include pubs. One hundred and fifty—yes, 150—assets have now been transferred into community ownership. Minister, your Government simply refuses to adopt this model, and yet the figures stack up so positively. Can you tell the Chamber how many assets have been transferred to community ownership under this Welsh Labour Government?
- Diolch yn fawr, Weinidog. Rydym yn aml yn clywed straeon yn y Siambr hon yn cymharu â llwyddiant Llywodraeth y DU. Wel, dyma un arall. Mae'r hawl gymunedol i wneud cais yn Lloegr wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda thros 2,600 wedi'u rhestru erbyn hyn ar draws y wlad, yn cynnwys tafarndai. Mae cant a hanner—ie, 150—o asedau bellach wedi'u trosglwyddo i berchnogaeth y gymuned. Weinidog, mae eich Llywodraeth yn gwrthod yn lân â mabwysiadu'r model hwn, ac eto mae'r ffigurau mor gadarnhaol. A wnewch chi ddweud wrth y Siambr faint o asedau sydd wedi cael eu trosglwyddo i berchnogaeth gymunedol o dan y Llywodraeth Lafur hon yng Nghymru?
- 14:23 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- I don't have that figure to hand, but what I am very pleased about is that, following the consultation, it was very apparent that the majority of respondents to that consultation want a Wales-specific approach. I'll certainly have a look at what has been done in England, particularly in relation to the Localism Act 2011, but certainly my officials are working very hard now with really good stakeholder engagement out there to find that alternative approach in Wales.
- Nid yw'r ffigur hwnnw gennyf wrth law, ond rwy'n falch iawn, yn dilyn yr ymgynghoriad, ei bod yn amlwg iawn fod y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwnnw'n dymuno gweld ymagwedd sy'n benodol i Gymru. Byddaf yn sicr yn edrych ar yr hyn sydd wedi'i wneud yn Lloegr, yn enwedig mewn perthynas â Deddf Lleoliaeth 2011, ond mae fy swyddogion yn sicr yn gweithio'n galed yn awr, gydag ymgysylltiad da iawn â rhanddeiliaid ar lawr gwlad i sicrhau'r ymagwedd amgen honno yng Nghymru.
- 14:24 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, you refer to the consultation document on your proposals for community asset transfer, which have been widely welcomed. I think it's important to ensure that we keep important local services and facilities and we continue those facilities, and also to create jobs and skills within our local communities for local people. Do you agree with me, then, that we need to listen to all those who supported your consultation?
- Weinidog, rydych yn cyfeirio at y ddogfen ymgynghori ar eich cynigion ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, a gafodd groeso eang. Credaf ei bod yn bwysig sicrhau ein bod yn cadw gwasanaethau a chyfleusterau lleol pwysig a'n bod yn sicrhau bod y cyfleusterau hynny'n parhau, a'n bod hefyd yn creu swyddi a sgiliau o fewn ein cymunedau lleol i bobl lleol. A ydych yn cytuno, felly, fod angen i ni wrando ar bawb a gefnogodd eich ymgynghoriad?
- You've referred to the excellent consultation responses we've had back, but they want to see a specific Welsh community asset transfer project and scheme, and that's what we should be working towards.
- Fe gyfeirioch at yr ymatebion rhagorol a gawsom i'r ymgynghoriad, ond maent yn dymuno gweld prosiect a chynllun trosglwyddo asedau cymunedol sy'n benodol i Gymru, a dylem fod yn gweithio tuag at hynny.
- 14:25 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, absolutely; I think the consultation did find very popular support, as I said, in establishing a Wales-specific approach. The majority of respondents also felt that decisions should be taken at a local level, and, if there are any lists to be kept, that they should be kept at a local level, informed by local context. So, I do absolutely remain of the view that we should have an approach that is tailored to what's best for Wales. I am having further work done on this, as I said, but it will be an issue, if we do need legislation, for the next Government.
- Yn hollol; credaf fod yr ymgynghoriad wedi canfod cryn gefnogaeth, fel y dywedais, dros sefydlu ymagwedd sy'n benodol i Gymru. Teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr hefyd y dylai penderfyniadau gael eu gwneud ar lefel lleol, ac os oes unrhyw restrau i'w cadw, y dylid eu cadw ar lefel lleol, wedi'u llywio gan y cyd-destun lleol. Felly, rwy'n parhau i fod o'r farn y dylai fod gennym ymagwedd sydd wedi'i theilwra i'r hyn sydd orau i Gymru. Rwy'n sicrhau bod gwaith pellach yn cael ei wneud ar hyn, fel y dywedais, ond os bydd angen deddfwriaeth arnom, bydd yn fater ar gyfer y Llywodraeth nesaf.

14:25 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, mae yna nifer o gynigion ar hyn o bryd yn y gogledd i drosglwyddo asedau cymunedol, yn cynnwys rhai llyfrgelloedd. Un o'r problemau sy'n ymddangos ydy'r ffaith bod cynghorau ddim yn barod i ryddhau rhestrau llyfrau llyfrgelloedd sydd yn cael eu cadw ganddyn nhw yn ganolog. Felly, a wnewch chi gael trafodaethau efo'ch cyd-Weinidog Ken Skates, i weld a yw hi'n bosibl ichi edrych ar hynny, sydd yn rhwystr sylfaenol, ar hyn o bryd, i'r cynigion yma fynd yn eu blaen?

Minister, there are a number of proposals at present in north Wales to transfer community assets, including some libraries. One of the problems that have become apparent is that the councils aren't willing to release the bibliographies that are kept centrally. So, will you have some discussions with your fellow Minister Ken Skates, to see whether it would be possible for you to look at this, because it's a fundamental barrier at present to these proposals going ahead?

14:26 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, absolutely. I was not aware of that, but I'll be very happy to have a discussion with Ken Skates around that, because if that is a barrier to libraries being taken into community ownership, then, clearly, it's something I'm sure that could be easily got over. But I'm very happy to have that discussion and I'll write to the Member with the outcome.

Gwnaf, yn bendant. Nid oeddwn yn ymwybodol o hynny, ond byddaf yn hapus iawn i gael trafodaeth gyda Ken Skates ynglŷn â hynny, oherwydd os yw'n rhwystr i lyfrgelloedd sy'n dod i mewn i berchnogaeth gymunedol, yna yn amlwg, rwy'n sicr y gellid dod dros hynny'n ddidrafferth. Ond rwy'n hapus iawn i gael y drafodaeth honno a byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda'r canlyniad.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Lefarwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from Party Spokespeople

14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We now move to questions from the party spokespeople. First this afternoon, the Welsh Conservatives' spokesperson, Mohammad Asghar.

Symudwn yn awr at gwestiynau gan lefarwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, llefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Mohammad Asghar.

14:26 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Madam Presiding Officer. Minister, I welcome the decision to award Disability Wales funding to allow it to continue its work promoting the rights, independence and equality of disabled people following its initial loss of core funding. However, Disability Wales's income will still be substantially reduced. Now that responsibility for Disability Wales rests with your department, will you work closely with the organisation during its strategic review to ensure it has a sustainable future here in Wales?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, croesawaf y penderfyniad i ddyfarnu cyllid i Anabledd Cymru i'w alluogi i barhau â'i waith yn hyrwyddo hawliau, annibyniaeth a chydaddoldeb pobl anabl ar ôl iddo golli ei gyllid craidd yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, bydd incwm Anabledd Cymru yn dal i fod wedi'i leihau'n sylweddol. Gan mai eich adran chi sy'n gyfrifol am Anabledd Cymru, a fyddwch yn gweithio'n agos gyda'r sefydliad yn ystod ei adolygiad strategol i sicrhau bod ganddo ddyfodol cynaliadwy yma yng Nghymru?

14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

As the Member pointed out, the organisation failed in its bid for funding; it was a competitive process in which they didn't succeed in getting that funding. I do fund them, and I'm working very closely with the organisation to see whether we can find a way forward. I'm not quite sure how you can say that there'll be a loss of core funding, because that sum of money hasn't been reached yet, but I'm very happy to continue working with them. I met with many of them from the organisation last week at an event to celebrate some training courses that many of their members had undertaken.

Fel y nododd yr Aelod, methodd y sefydliad yn ei gais am gyllid; roedd yn broses gystadleuol ac ni lwyddasant i gael y cyllid hwnnw. Maent yn cael eu hariannu gennyf, ac rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r sefydliad i weld a allwn ddod o hyd i ffordd ymlaen. Nid wyf yn hollol siŵr sut y gallwch ddweud y bydd cyllid craidd yn cael ei golli, gan nad yw'r swm hwnnw o arian wedi'i gyrraedd eto, ond rwy'n hapus iawn i barhau i weithio gyda hwy. Cyfarfûm â llawer ohonynt o'r sefydliad yr wythnos diwethaf mewn digwyddiad i ddathlu cyrsiau hyfforddi roedd llawer o'u haelodau wedi bod arnynt.

- 14:28 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister, but still the funding is reduced. The House of Commons Women and Equalities Committee has made more than 30 recommendations to tackle discrimination against transgender people. These include a root-and-branch review of NHS treatment of transgender people, more training of school staff to better support gender-variant young people and training for police officers on transphobic hate crimes. Will the Minister consider these recommendations and make a statement to this Assembly on what measures she will take to promote transgender equality in Wales?
- Diolch yn fawr, Weinidog, ond mae'r cyllid yn dal i fod wedi'i leihau. Mae Pwyllgor Cydraddoldebau Menywod Tŷ'r Cyffredin wedi gwneud dros 30 o argymhellion i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl drawsrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys adolygiad o'r bôn i'r brig o'r modd y mae'r GIG yn trin pobl drawsrywiol, rhagor o hyfforddiant i staff ysgolion i gefnogi pobl ifanc rhywedd gwahanol a hyfforddiant ar gyfer swyddogion yr heddlu ar droseddau casineb trawsffobig. A wnaiff y Gweinidog ystyried yr argymhellion hyn a gwneud datganiad i'r Cynulliad hwn ar ba gamau y bydd yn eu rhoi ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb trawsrywiol yng Nghymru?
- 14:28 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- That's something I have been focusing on over the past 12 months, and I've had several meetings again with members of the transgender community. I think we have taken forward a considerable piece of work. I'll be very happy to look at any recommendations that come forward.
- Mae hynny'n rhywbeth y bŵm yn canolbwyntio arno dros y 12 mis diwethaf, ac rwyf wedi cael sawl cyfarfod eto gydag aelodau o'r gymuned drawsrywiol. Credaf ein bod wedi bwrw ymlaen â chrym dipyn o waith. Byddaf yn hapus iawn i edrych ar unrhyw argymhellion a gyflwynir.
- 14:28 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. The UK Government has launched an Educate Against Hate website as part of a renewed drive to tackle extremism in our schools. Minister, will you join me in welcoming this initiative, and what discussions have you had with ministerial colleagues about introducing measures to tackle possible extremism in our schools in Wales?
- Diolch yn fawr, Weinidog. Mae Llywodraeth y DU wedi lansio gwefan Educate Against Hate fel rhan o ymgyrch newydd i fynd i'r afael ag eithafiaeth yn ein hysgolion. Weinidog, a wnewch chi ategu fy nghroeso i'r fenter hon, a pha drafodaethau rydych wedi'u cael gyda'ch cyd-Weinidogion ynghylch cyflwyno mesurau i fynd i'r afael ag eithafiaeth bosibl yn ein hysgolion yng Nghymru?
- 14:29 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Again, this is an area that's been a focus right across Government. I recently had a meeting with my colleagues Huw Lewis, the Minister for Education and Skills, and Leighton Andrews, the Minister for Public Services to see exactly what more we can do with our students in schools across Wales.
- Unwaith eto, mae'r maes hwn wedi bod yn ffocws ar draws y Llywodraeth. Yn ddiweddar, cefais gyfarfod gyda fy nghyd-Aelodau Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, a Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, i weld yn union beth arall y gallwn ei wneud gyda'n disgyblion mewn ysgolion ledled Cymru.
- 14:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We now move to the acting Plaid Cymru spokesperson, Lindsay Whittle.
- Symudwn yn awr at lefarydd dros dro Plaid Cymru, Lindsay Whittle.
- 14:29 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch, Lywydd. Minister, many young people find access to better and higher-paid jobs becomes a lot easier when they have internships or voluntary work experience that they can point to. Often, in a competitive job market, this can mean the difference between getting and losing out on a job. Many of our young people from poorer backgrounds simply don't have the means or opportunities to be able to do these things. How can we, please, level the playing field, by providing more access to voluntary work and internships for younger people from poorer backgrounds?
- Diolch, Lywydd. Weinidog, mae llawer o bobl ifanc yn gweld bod mynediad at swyddi gwell sy'n talu cyflogau uwch yn dod yn llawer haws pan fyddant yn gallu nodi interniaethau neu brofiad gwaith gwirfoddol a gawsant. Yn aml, mewn marchnad swyddi gystadleuol, gall hyn olygu'r gwahaniaeth rhwng cael a methu â chael swydd. Nid oes gan lawer o'n pobl ifanc sydd o gefndiroedd tlotach y modd neu'r cyfle i allu gwneud y pethau hyn. Sut y gallwn ni sicrhau chwarae teg drwy ddarparu mwy o fynediad at interniaethau a gwaith gwirfoddol ar gyfer pobl ifanc o gefndiroedd tlotach?

| | | | |
|-------|---|---|--|
| 14:30 | Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I think you raise a very important point there, because, often, I'm sure Members around the Chamber will have been contacted to see if we can help with work experience et cetera, and, often, it's the parents who contact us because they know us et cetera. So, I think you do raise a point that young people from more deprived backgrounds, perhaps, haven't got those contacts. It's certainly something that I've discussed with officials to see what more we can do, within some of our current programmes, for instance, to see if there's an aspect of it where we can give work experience to pupils from Communities First areas. That's one area I have been focusing on. | Credaf eich bod yn crybwyll pwynt pwysig iawn, gan fy mod yn siŵr y bydd Aelodau o gwmpas y Siambr yn aml wedi cael pobl yn holi i weld a allwn helpu gyda phrofiad gwaith ac yn y blaen, ac yn aml, y rhieni sy'n cysylltu â ni gan eu bod yn ein hadnabod ac yn y blaen. Felly, credaf eich bod yn tynnu sylw at y pwynt nad yw'r cysylltiadau hynny, o bosibl, gan bobl ifanc o gefndiroedd mwy difreintiedig. Mae'n sicr yn rhywbeth rwyf wedi'i drafod gyda swyddogion i weld beth arall y gallwn ei wneud, o fewn rhai o'n rhaglenni cyfredol, er enghraifft, i weld a oes yna agwedd ar hyn lle y gallwn roi profiad gwaith i ddisgyblion o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae hwnnw'n un maes y bŵm yn canolbwyntio arno. | Senedd.tv Fideo Video |
| 14:30 | Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography Thank you for your answer, Minister. I appreciate we're in the early stages of the budget process at the moment, but has the Welsh Government made any assessment of the impact of cuts to further education on female learners, and those groups furthest from study, and, as a consequence, furthest from the workplace? | Diolch am eich ateb, Weinidog. Rwy'n gwerthfawrogi ein bod yng nghamau cynnar proses y gyllideb ar hyn o bryd, ond a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad o effaith y toriadau i addysg bellach ar ddysgwyr benywaidd, a'r grwpiau hynny sydd bellaf oddi wrth astudio, a phellaf oddi wrth y gweithle o ganlyniad i hynny? | Senedd.tv Fideo Video |
| 14:31 | Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography I'm sure that has been looked at within our equality impact assessments, but I can't give you the specifics on that in the Chamber. | Rwy'n siŵr fod hynny wedi cael ei ystyried yn ein hasesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, ond ni allaf roi'r manylion ar hynny i chi yn y Siambr. | Senedd.tv Fideo Video |
| 14:31 | Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography Thank you, Minister. Minister, what is the Welsh Government doing to enable and encourage females to access apprenticeships in the science, technology, engineering and mathematics subjects, please? | Diolch yn fawr, Weinidog. Weinidog, beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i alluogi ac i annog menywod i gael mynediad at brentisiaethau mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg, os gwelwch yn dda? | Senedd.tv Fideo Video |
| 14:31 | Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography That's a piece of work that has been ongoing for many years, and, certainly, when I was Deputy Minister for Skills, Innovation and Science, that was something that we were encouraging. And I've had discussions with my colleague Julie James, the Deputy Minister for Skills and Technology, to see what more we can be doing. Again, it's a piece of work I've been looking at with the Equality and Human Rights Commission—it's something I've discussed with them—and I know there will be an announcement, hopefully this term, regarding apprenticeships. | Mae hwnnw'n waith sydd wedi bod yn mynd rhagddo ers blynyddoedd lawer, ac yn sicr, pan oeddwn yn Ddirprwy Weinidog Sgiliau, Arloesi a Gwyddoniaeth, roedd yn rhywbeth roeddem yn ei annog. Ac rwyf wedi cael trafodaethau gyda fy nghyd-Aelod Julie James, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, i weld beth arall y gallwn ei wneud. Unwaith eto, mae'n waith rwyf wedi bod yn edrych arno gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol—mae'n rhywbeth rwyf wedi'i drafod gyda hwy—a gwn y bydd cyhoeddiad, y tymor hwn gobeithio, ynghylch prentisiaethau. | Senedd.tv Fideo Video |
| 14:31 | Lindsay Whittle Bywgraffiad Biography Okay. Thank you. | Iawn. Diolch. | Senedd.tv Fideo Video |
| 14:31 | Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography We now move to the Welsh Liberal Democrats spokesperson, Peter Black. | Symudwn yn awr at lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black. | Senedd.tv Fideo Video |

- 14:32 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Presiding Officer. Minister, the 'South Wales Evening Post' reports today that they've been told by the Welsh Government that the capital money left over from the Regeneration Investment Fund for Wales will not be spent, or any announcement made on that, until after the Assembly elections. That is contrary to what you told the committee on 21 January. Could you provide some clarification on this, please?
- Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, mae adroddiadau'r 'South Wales Evening Post' heddiw yn dweud eu bod wedi cael gwybod gan Lywodraeth Cymru na fydd yr arian cyfalaf sydd dros ben o Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio yn cael ei wario, ac na fydd unrhyw gyhoeddiad ar hynny, tan ar ôl etholiadau'r Cynulliad. Mae hynny'n groes i'r hyn a ddywedoch wrth y pwyllgor ar 21 Ionawr. A allwch roi rhywfaint o eglurhad ynglŷn â hyn, os gwelwch yn dda?
- 14:32 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You'll be aware that we've now had the, sort of, final report—there's been several ongoing investigations into RIFW. But it does mean we are now in a position to release some significant funds, which will benefit communities across Wales. We're currently in discussions. That funding has now been released, but it could be, unfortunately, due to timing, after the election in May.
- Fe fyddwch yn gwybod ein bod erbyn hyn wedi cael yr adroddiad terfynol, mewn ffordd—mae nifer o ymchwilliadau parhaus wedi bod i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio. Ond mae'n golygu ein bod mewn sefyllfa bellach i ryddhau arian sylweddol, a fydd o fudd i gymunedau ledled Cymru. Rydym mewn trafodaethau ar hyn o bryd. Mae'r cyllid hwnnw bellach wedi'i ryddhau, ond yn anffodus, oherwydd amseru, gallai hynny fod ar ôl yr etholiad ym mis Mai.
- 14:32 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, thank you for that clarification of your earlier statement to committee, Minister. I'm very disappointed, if that is the case. As you'll know, there's a particularly good scheme in Mumbles, around the Mumbles pier, which is desperately in need of that money, and has been on hold since this whole RIFW saga took off. Can I ask whether you could have a look at that Mumbles project particularly to see whether you can assist it to get off the ground more quickly, rather than them having to wait yet more months before they have any idea when they'll be able to start?
- Wel, diolch am eich eglurhad o'ch datganiad cynharach i'r pwyllgor, Weinidog. Rwy'n siomedig iawn, os mai felly y mae. Fel y byddwch yn gwybod, mae cynllun arbennig o dda yn y Mwmbwls, ger pier y Mwmbwls, sydd angen yr arian hwnnw'n ddybryd, ac sydd wedi'i ohirio ers i holl saga Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio gychwyn. A gaf fi ofyn a fyddai modd i chi gael golwg ar y prosiect hwnnw yn y Mwmbwls yn benodol i weld a allwch ei gynorthwyo i gael ei draed dano'n gyflymach, yn hytrach na'u bod yn gorfod aros am ragor o fisoedd cyn bod unrhyw syniad ganddynt pa bryd y byddant yn gallu dechrau?
- 14:33 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I know my officials have been in regular contact with representatives from the Mumbles pier project, throughout the period from when RIFW was suspended, and I know the director of housing and regeneration visited the project himself, and has seen the merits of it. So, I will ask officials to continue having those discussions.
- Gwn fod fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â chynrychiolwyr o brosiect pier y Mwmbwls, drwy gydol y cyfnod er pan ataliwyd Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, a gwn fod y cyfarwyddwr tai ac adfywio wedi ymweld â'r prosiect ei hun, ac wedi gweld ei rinweddau. Felly, byddaf yn gofyn i swyddogion barhau i gael y trafodaethau hynny.
- 14:33 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, Minister. That will be very helpful. It is disappointing the way this money has, effectively, been put to one side, and has not been able to be spent. You will know, of course, that a number of your officials were actually involved with the RIFW board, and also with this whole saga around this expense with this money, and the sale of land. And, of course, the report was very critical of the advice that was given to the RIFW board by external consultants, but also, I assume, by Welsh Government officials, who were involved with this as well. What action is the Welsh Government taking against officials who provided that advice, which proved to be so wrong-headed?
- Diolch yn fawr, Weinidog. Bydd hynny'n ddefnyddiol iawn. Mae'n siomedig fod yr arian hwn wedi'i roi i un ochr i bob pwrpas, ac na fu modd ei wario. Fe fyddwch yn gwybod, wrth gwrs, fod nifer o'ch swyddogion mewn gwirionedd yn ymwneud â bwrdd Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, a hefyd gyda'r holl saga ynghylch y gost gyda'r arian hwn, a gwerthu tir. Ac wrth gwrs, roedd yr adroddiad yn feiriadol iawn o'r cyngor a roddwyd i fwrdd Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio gan ymgynghorwyr allanol, ond hefyd, rwy'n tybio, gan swyddogion Llywodraeth Cymru, a oedd yn ymwneud â hyn hefyd. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn erbyn swyddogion a ddarparodd y cyngor hwnnw, a oedd mor anghywir?

| | | | |
|-----------------------------------|--|---|--|
| 14:34 | <p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Well, you'll be aware this project was introduced back in 2010. The report has now come forward to the Welsh Government, and I've committed to giving a response before the end of this term. So, the Public Accounts Committee report is something we are considering very carefully, and I'm sure the questions you ask will be answered in our response.</p> | <p>Wel, fe fyddwch yn ymwybodol fod y prosiect wedi'i gyflwyno yn ôl yn 2010. Mae'r adroddiad bellach wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac rwyf wedi ymrwymo i roi ymateb cyn diwedd y tymor hwn. Felly, mae adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn rhywbeth rydym yn ei ystyried yn ofalus iawn, ac rwy'n siŵr y bydd y cwestiynau a ofynnwch yn cael eu hateb yn ein hymateb.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| <p>Cymunedau yn Gyntaf</p> | | <p>Communities First</p> | |
| 14:34 | <p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p>3. Pa systemau sydd ar waith i fonitro effeithiolrwydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)0411(CTP)</p> | <p>3. What systems are in place to monitor the effectiveness of the Communities First programme? OAQ(4)0411(CTP)</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:34 | <p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you. The Aspireview performance management system, based on results-based accountability, provides reports on Communities First outputs and outcomes. This allows performance monitoring, comparison and feedback on local and national levels against the programme's outcomes framework. Increasingly positive outcomes have been reported. Performance data for 2014-15 were published on our website.</p> | <p>Diolch. Mae system rheoli perfformiad AspireView, sy'n seiliedig ar atebolrwydd ar sail canlyniadau, yn darparu adroddiadau ar allbynnau a chanlyniadau Cymunedau yn Gyntaf. Mae hyn yn caniatáu i ni fonitro perfformiad, cymharu a chael adborth ar lefelau lleol a chenedlaethol yn ôl fframwaith canlyniadau'r rhaglen. Cafwyd adroddiadau am ganlyniadau cynyddol gadarnhaol. Cyhoeddwyd data perfformiad ar gyfer 2014-15 ar ein gwefan.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:35 | <p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for the detailed reply, Minister. The Communities First programme was set up to narrow the economic, skills and health gaps between the most deprived and more affluent areas. However, in 2013-14, Swansea city council underspent its Communities First budget by £550,000. Last year, Swansea underspent by over £200,000, and now, this year, most probably, there'll be more than £160,000 underspent in Swansea. Will the Minister advise as to how much money has been returned to the Welsh Government by local authorities not spending their Communities First funding, and how this spending is monitored to ensure that value for money is achieved rather than wasted?</p> | <p>Diolch i chi am yr ateb manwl, Weinidog. Sefydlwyd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf er mwyn cau'r bwlch economaidd, y bwlch sgiliau a'r bwlch iechyd rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r ardaloedd mwy cefnog. Fodd bynnag, yn 2013-14, cafwyd tanwariant o £550,000 yng nghyllideb Cymunedau yn Gyntaf cyngor dinas Abertawe. Y llynedd, cafwyd tanwariant o dros £200,000 gan Abertawe, a bellach, eleni, yn ôl pob tebyg, bydd tanwariant o dros £160,000 yn Abertawe. A wnaiff y Gweinidog roi gwybod i ni faint o arian a ddychwelwyd i Lywodraeth Cymru gan awdurdodau lleol nad ydynt yn gwario'u cyllid Cymunedau yn Gyntaf, a sut y caiff y gwariant hwn ei fonitro i sicrhau gwerth am arian yn hytrach na'i fod yn cael ei wastraffu?</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:36 | <p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p>Not all Communities First lead delivery bodies are local authorities. A number of them are third sector organisations. So, I can't specifically give you those figures now. One of your colleagues has put in a written Assembly question asking exactly the same, and once that question is answered to her, I will make sure that you get the same answer also.</p> | <p>Nid awdurdodau lleol yw pob un o gyrff cyflawni arweiniol Cymunedau yn Gyntaf. Mae nifer ohonynt yn sefydliadau trydydd sector. Felly, ni allaf roi'r ffigurau penodol hynny i chi yn awr. Mae un o'ch cyd-Aelodau wedi cyflwyno cwestiwn Cynulliad ysgrifenedig yn gofyn yr un peth yn union, a phan gaiff ateb i'r cwestiwn hwnnw, fe wnaiff y siŵr eich bod yn cael yr un ateb hefyd.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 14:36 | <p>Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography</p> <p>My concern is whether or not we're really reaching the families who most need the services of Communities First. How do we know that programmes aren't simply dealing with the people who actually turn up rather than those who most need it, who need that outreach? So, what work is done with the statistics you collect to ensure that these are meaningful figures, and that we are worrying more about the people we're not seeing than the people we are seeing?</p> | <p>Fy mhryder i yw a ydym yn cyrraedd y teuluoedd sydd fwyaf o angen gwasanaethau Cymunedau yn Gyntaf mewn gwirionedd. Sut y gwyddom nad yw rhaglenni ond yn ymddrin â'r bobl sy'n dod i'r golwg yn hytrach na'r rhai sydd fwyaf o'u hangen, y rhai sydd angen allgymorth o'r fath? Felly, pa waith a wneir gyda'r ystadegau a gasglwch er mwyn sicrhau bod y rhain yn ffigurau ystyrlon, a'n bod yn poeni mwy am y bobl nad ydym yn eu gweld yn hytrach na'r bobl rydym yn eu gweld?</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |

14:36

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think you raise a very important point. Obviously, Communities First is a universal programme. It's not means-tested—it's available to absolutely everybody in that area, but it's really important that we reach the people who need it the most. And, certainly, my experience of Communities First is that the outreach workers—the people who go out in the communities—are reaching those families. Certainly, if you think that the programme has been our flagship tackling poverty programme for 17 years, the work that those people have done in the communities, building up the trust and confidence, with individuals in the community, has led them to be able to ensure that we are indeed reaching out to people who really need our support.

Cydraddoldeb ym Maes Cyflogaeth

14:37

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. Pa gynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran hyrwyddo cydraddoldeb ym maes cyflogaeth yng Nghymru? OAQ(4)0421(CTP)

14:37

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Good progress has been made on all our programme for government and strategic equality plan actions to promote equality in employment in Wales. These include tackling inequality in the devolved public sector, addressing pay and employment differences and encouraging inclusive workplaces.

14:37

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that response. Is there anything the Welsh Government could do to incentivise private companies to take on people with a hearing loss? I'm sure that the Minister is aware that people with a hearing loss are four times more likely to be unemployed than the rest of the population, and often people do hide the fact that they've got a hearing loss when they try to get jobs.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Rwy'n meddwl eich bod yn crybwyll pwynt pwysig iawn. Yn amlwg, mae Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen gyffredinol. Nid yw'n seiliedig ar brawf modd—mae ar gael i bawb yn yr ardal honno, ond mae'n bwysig iawn ein bod yn cyrraedd y bobl sydd fwyaf o'i hangen. Ac yn sicr, fy mhrofiad i o Cymunedau yn Gyntaf yw bod y gweithwyr allgymorth—y bobl sy'n mynd allan i'r cymunedau—yn cyrraedd y teuluoedd hynny. Yn sicr, os meddyliwch mai hon yw ein prif raglen ar gyfer trechu tlodi ers 17 mlynedd, mae'r gwaith y mae'r bobl hynny wedi'i wneud yn y cymunedau, ar ddatblygu ffydd a hyder unigolion yn y gymuned, wedi'u harwain i allu sicrhau ein bod yn estyn allan o ddifrif at bobl sydd angen ein cefnogaeth mewn gwirionedd.

Equality in Employment

4. What progress has been made by the Welsh Government in promoting equality in employment in Wales? OAQ(4)0421(CTP)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

I'd like to declare an interest as a private landlord. There are around 30 deaths each year in England and Wales from the silent killer known as carbon monoxide poisoning. There are many who feel that more should be done at Welsh Government level. Now, we've just had the Renting Homes (Wales) Act and I know many members of the committee raised concerns about this. Minister, one death is too many from such a hidden and silent killer. Do you regret this Government not bringing in such obligations in the Act, and will you consider bringing this forward as legislation in line with the Smoke and Carbon Monoxide Alarm (England) Regulations 2015? Hoffwn ddatgan buddiant fel landlord preifat. Ceir oddeutu 30 o farwolaethau bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr yn sgil y lladdwr tawel a elwir yn wenwyn carbon monocsid. Mae yna lawer sy'n teimlo y dylid gwneud mwy ar lefel Llywodraeth Cymru. Nawr, rydym newydd gael Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) a gwn fod sawl aelod o'r pwyllgor wedi mynegi pryderon ynglŷn â hyn. Weinidog, mae un farwolaeth yn sgil lladdwr mor gudd a thawel yn un farwolaeth yn ormod. A ydych yn difaru na chyflwynodd Llywodraeth Cymru rwymedigaethau o'r fath yn y Ddeddf, ac a fyddwch yn ystyried cyflwyno hyn fel deddfwriaeth yn unol â rheoliadau larymau mwg a charbon monocsid 2015 yn Lloegr?

| | | |
|-------|--|---|
| 15:01 | Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video |
| | <p>Well, you will have heard in my previous answer to Mike Hedges that I expect the first set of regulations will require the installation of smoke and carbon monoxide detectors. You're quite right: one death is too many. So, I'm sure you'll agree with me that it's a great shame that England didn't do the same with the UK Government's housing and planning Bill.</p> | <p>Wel, fe fyddwch wedi clywed yn fy ateb blaenorol i Mike Hedges fy mod yn disgwyl y bydd y set gyntaf o reoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i osod synwryddion mwg a charbon monocsid. Rydych chi'n hollol iawn: mae un farwolaeth yn ormod. Felly, rwy'n siwr y byddwch yn cytuno ei bod yn drueni mawr na wnaeth Lloegr yr un peth gyda Bil tai a chynllunio Llywodraeth y DU.</p> |
| 15:02 | Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video |
| | <p>Thank you, Minister.</p> | <p>Diolch yn fawr, Weinidog.</p> |
| 15:02 | 3. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Gynlluniau Trafnidiaeth yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd | 3. Debate on the Enterprise and Business Committee Report on its Inquiry into Rugby World Cup Transport Planning |
| | Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography | Y Senedd.tv Fideo Video |
| | <p>We now move to item 3, which is a debate on the Enterprise and Business Committee report on its inquiry into Rugby World Cup transport planning. I call on the Chair of the committee, William Graham to move the motion.</p> | <p>Symudwn yn awr at eitem 3, sef dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei ymchwiliad i gynlluniau trafndiaeth yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd. Galwaf ar Gadeirydd y pwyllgor, William Graham i gynnig y cynnig.</p> |
| | <p>Cynnig NDM5943 William Graham</p> | <p>Motion NDM5943 William Graham</p> |
| | <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</p> | <p>The National Assembly for Wales:</p> |
| | <p>Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar ei Ymchwiliad i Gynlluniau Trafnidiaeth yn ystod cwpan Rygbi'r Byd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Rhagfyr 2015.</p> | <p>Notes the report of the Enterprise and Business Committee on its Inquiry into Rugby World Cup Transport Planning, which was laid in the Table Office on 2 December 2015.</p> |
| | <p><i>Cynigiwyd y cynnig.</i></p> | <p><i>Motion moved.</i></p> |
| 15:02 | William Graham Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video |
| | <p>Thank you, Presiding Officer. The Enterprise and Business Committee was greatly concerned by the transport difficulties that fans faced travelling to and from the Rugby World Cup matches in Cardiff during September of last year. Major sporting events like the Rugby World Cup are an opportunity for Wales to display itself to the world as a great place to visit and to do business and they can be our shop window.</p> | <p>Diolch i chi, Lywydd. Roedd y Pwyllgor Menter a Busnes yn bryderus iawn ynghylch yr anawsterau trafndiaeth a wynebwyd gan gefnogwyr wrth deithio i ac o gemau Cwpan Rygbi'r Byd yng Nghaerdydd yn ystod mis Medi y llynedd. Mae digwyddiadau chwaraeon mawr fel Cwpan Rygbi'r Byd yn gyfle i Gymru arddangos ei hun i'r byd fel lle gwych i ymweld ag ef ac i gynnal busnes a gallant fod yn fenestri siop i ni.</p> |

The committee invited a range of stakeholders for a one-day inquiry on 5 November to investigate the planning and delivery of transport provision around the Rugby World Cup. We wanted to see what lessons could be learnt for future high-profile events. Specifically, we wished to consider the planning process for the Rugby World Cup; reports of significant queues and overcrowding on train services, including their causes and impact; the appropriateness and effectiveness of public transport provision for the events more generally, and, for example, bus and taxi services and, of course, infrastructure; the effectiveness of communication around the events; any public safety or other concerns arising from the organisation of these events; and any lessons learnt for future events of this type in Cardiff.

I'm grateful to the rail and bus operators, South Wales Police, Cardiff council and the Rugby World Cup organisers. They shared with us the issues that led to transport problems during the first three games of the Rugby World Cup and how they overcame them for the final five games held in Cardiff.

It is clear to us that the root problem here is the ageing infrastructure at Cardiff Central station. The current station building dates from the early 1930s, designed for a time when the population of Cardiff was just over 0.25 million people. The city has grown by 50 per cent since then and the number of rail passengers has greatly increased.

We heard from Network Rail that while the station currently handles around 13 million passengers a year, by 2023 that figure could rise to 23 million. Substantial investment in the station is needed to create a facility fit for the twenty-first century and the expectations of passengers. But, there are also many constraints. A grade II listed building must be treated with respect. Serious and urgent thought is required to ensure that development plans are up to the challenge of growing passenger numbers and can access the required level of substantial funding. However, my colleagues and I on the committee were concerned to hear last Thursday, when taking evidence for our Welsh rail infrastructure inquiry, that train operating companies have serious concerns that the master plan for the station currently being developed by Network Rail is not sufficient to address the issues at the station and on the network. We believe that's something of which the Minister should be aware and will no doubt take appropriate action.

The committee has made nine recommendations: five looking at the travel planning aspects of dealing with major events and the rest looking at infrastructure. I am very pleased that the Welsh Government has accepted them all—eight in full and one in principle—while noting that rail infrastructure is not devolved. I hope that all relevant stakeholders can use our inquiry as a checklist for ensuring a problem-free six nations over the next few weeks.

Gwahoddodd y pwyllgor amrywiaeth o randdeiliaid ar gyfer ymchwiliad undydd ar 5 Tachwedd i ymchwilio i'r gwaith o gynllunio a chyflwyno darpariaeth drafnidiaeth mewn perthynas â Chwpan Rygbi'r Byd. Roeddem yn awyddus i weld pa wersi y gellid eu dysgu ar gyfer digwyddiadau proffil uchel yn y dyfodol. Yn benodol, roeddem yn dymuno ystyried y broses gynllunio ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd; adroddiadau am giwiau sylweddol a gorlenwi ar wasanaethau trên, gan gynnwys eu hachosion a'u heffaith; priodoldeb ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth drafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer y digwyddiadau yn fwy cyffredinol, ac er enghraifft, gwasanaethau bws a thacsi, a seilwaith wrth gwrs; effeithiolrwydd cyfathrebu mewn perthynas â'r digwyddiadau; unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cyhoeddus neu bryderon eraill a gododd yn sgil trefniadaeth y digwyddiadau hyn; ac unrhyw wersi a ddysgwyd ar gyfer digwyddiadau o'r math yma yng Nghaerdydd yn y dyfodol.

Rwy'n ddiolchgar i'r cwmnïau rheilffyrdd a bysiau, Heddlu De Cymru, Cyngor Caerdydd a threfnwyr Cwpan Rygbi'r Byd. Rhanasant â ni'r materion a arweiniodd at broblemau trafniadaeth yn ystod tair gêm gyntaf Cwpan Rygbi'r Byd a sut y llwyddasant i'w goresgyn ar gyfer y pum gêm olaf a gynhaliwyd yng Nghaerdydd.

Mae'n amlwg i ni mai'r broblem sylfaenol yma yw'r seilwaith sy'n heneiddio yng ngorsaf Caerdydd Canolog. Mae adeilad presennol yr orsaf yn dyddio o ddechrau'r 1930au, ac fe'i cynlluniwyd ar gyfer adeg pan oedd poblogaeth Caerdydd ychydig dros 0.25 miliwn o bobl. Mae'r ddinas wedi tyfu 50 y cant ers hynny ac mae nifer y teithwyr rheilffordd wedi cynyddu'n fawr.

Clywsom gan Network Rail, er bod yr orsaf ar hyn o bryd yn ymdrin ag oddeutu 13 miliwn o deithwyr y flwyddyn, erbyn 2023 gallai'r ffigwr hwnnw godi i 23 miliwn. Mae angen buddsoddiad sylweddol yn yr orsaf i greu cyfleuster sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain a disgwyliadau teithwyr. Ond mae yna lawer o gyfyngiadau hefyd. Rhaid trin adeilad rhestredig gradd II â pharch. Mae angen meddwl yn ddifrifol ac ar frys i sicrhau bod cynlluniau datblygu yn gallu ateb her niferoedd cynyddol o deithwyr ac yn gallu denu'r lefel angenrheidiol o arian sylweddol. Fodd bynnag, roedd fy nghyd-Aelodau a minnau ar y pwyllgor yn bryderus i glywed ddydd Iau diwethaf, wrth gymryd tystiolaeth ar gyfer ein hymchwiliad i seilwaith rheilffyrdd Cymru, fod gan gwmnïau gweithredu trenau bryderon difrifol nad oedd yr uwchgynllun ar gyfer yr orsaf sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan Network Rail yn ddigonol i fynd i'r afael â'r problemau yn yr orsaf ac ar y rhwydwaith. Credwn ei fod yn fater y dylai'r Gweinidog fod yn ymwybodol ohono ac mae'n sicr y bydd yn rhoi'r camau priodol ar waith.

Mae'r pwyllgor wedi gwneud naw argymhelliad: pump yn edrych ar agweddau ar gynllunio teithiau wrth ymdrin â digwyddiadau mawr a'r gweddill yn edrych ar seilwaith. Rwy'n falch iawn fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un—wyth yn llawn ac un mewn egwyddor—gan nodi nad yw seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli. Rwy'n gobeithio y gall yr holl randdeiliaid perthnasol ddefnyddio ein hymchwiliad fel rhestr wirio ar gyfer sicrhau na fydd unrhyw broblemau gyda phencampwriaeth y chwe gwlad yn ystod yr wythnosau nesaf.

Despite the criticism we heard in our inquiry, there was also a positive story. Following severe difficulties at the first three matches, the final five games at the stadium showed that it is possible to deliver an experience that allows fans to leave quickly without excessive waiting. We commend those involved for their hard work, under significant pressure, to respond to the initial difficulties. The bar has now been raised for future events, and we are urging all involved to continue to work together to maintain that standard.

All the evidence suggests that expectations are rising both for fans and organisers. To remain a world-leading venue for major events, Cardiff needs to continue to improve its transport planning and delivery. Cardiff will welcome football's Champions League final next year. The most watched annual sporting event in the world is watched by over 200 countries, with an estimated global television audience of 180 million. What an opportunity for Wales to make our best impression on the global stage. Clearly, it is vital that the lessons of the Rugby World Cup are learned quickly and put in place early, so that Wales's national stadium is ready for its moment in the world spotlight.

Er gwaethaf y feirniadaeth a glywsom yn ein hymchwiliad, roedd yna stori gadarnhaol hefyd. Yn dilyn anawsterau difrifol yn y tair gêm gyntaf, dangosodd y pum gêm olaf yn y stadiwm ei bod yn bosibl darparu profiad sy'n caniatáu i gefnogwyr adael yn gyflym heb ormod o aros. Rydym yn cymeradwyo'r rhai a fu'n gysylltiedig â hynny am eu gwaith caled dan bwysau sylweddol yn ymateb i'r anawsterau cychwynnol. Mae'r bar wedi'i godi erbyn hyn ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol ac rydym yn annog pawb sydd ynghlwm â hyn i barhau i weithio gyda'i gilydd er mwyn cynnal y safon.

Mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu bod disgwyliadau'n codi i gefnogwyr a threfnwyr. I barhau i fod yn lleoliad o'r radd flaenaf ar gyfer digwyddiadau mawr, mae angen i Gaerdydd barhau i wella ei chynlluniau a'r ddarpariaeth drafnidiaeth. Bydd Caerdydd yn croesawu rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr pêl-droed y flwyddyn nesaf. Mae dros 200 o wledydd yn gwyllo'r digwyddiad chwaraeon blynyddol hwn a wylir gan fwy o bobl ledled y byd nag unrhyw ddigwyddiad chwaraeon arall, ac amcangyfrifir bod y gynulleidfa deledu fyd-eang yn 180 miliwn. Dyma gyfle go iawn i Gymru wneud ein hargraff orau ar y llwyfan byd-eang. Yn amlwg, mae'n hanfodol fod gwersi Cwpan Rygbi'r Byd yn cael eu dysgu'n gyflym ac yn cael eu rhoi ar waith yn gynnar, er mwyn i stadiwm cenedlaethol Cymru fod yn barod ar gyfer ei awr fawr yn sylw'r byd.

15:07

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n cytuno â nifer o'r pethau mae William wedi eu dweud nawr. Ond, roedd Bill Shankly, pan oedd e'n rheolwr Clwb Pêl-droed Lerpwl, wedi ateb y cwestiwn a oedd pêl-droed mor bwysig â byw a marw gyda'r sylw craff, 'Mae'n bwysicach na hynny'. Dyna'r cwestiwn mawr. Ond mae gennym ni yng Nghymru'r ateb. Arwyddair Cymdeithas Bêl-droed Cymru yw 'Gorau chwarae, cyd chwarae'. Mae hynny'n wir am rygbi ac am Gymru. Mae'n wir hefyd am y trefniadau sy'n arwain at drefniadau'r Cwpan Rygbi'r Byd yma yng Nghaerdydd.

Felly, hollol addas oedd y ffaith bod y Pwyllgor Menter a Busnes wedi derbyn tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth y cyrff canlynol: Heddlu De Cymru, cwmnïau bus Caerdydd a National Express, Trenau Arriva Cymru, rheilffordd y Great Western, rhwydwaith y rheilffyrdd, grŵp gweithredu'r rheilffordd, ac yn olaf, ond yn sicr nid y lleiaf, cwmni rygbi Lloegr 2015. Roedd llawer ohonynt wedi ymddangos o flaen y pwyllgor yn ogystal â'r Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr a chynghor Caerdydd.

Dan ystyriaeth hefyd yr oedd adroddiadau cyfryngol a chymdeithasol parthed trafnidiaeth a chludiant yng Nghaerdydd. Roedd profiad y mwyafrif helaeth o wylwyr yn bositif. Serch hynny, nid ydym am laesu dwylo. Lle mae'n bosib gwneud yn well byth, dylem ymdrechu am y gwell. Dyna oedd swyddogaeth y pwyllgor wrth ymchwilio. Felly, mae'r pwyllgor wedi gwneud nifer o argymhellion, fel y dywedodd William yn gynharach, ac mae'n bleser hefyd nodi bod Llywodraeth Cymru, mewn ymateb, wedi derbyn pob un ond un o'r argymhellion yn llawn.

I agree with much of what William has said. But, Bill Shankly, when he was manager of Liverpool Football Club, responded to the question as to whether football was as important as life and death by coming back saying, 'It's much more important than that'. That's the major question, but we in Wales have the answer. The slogan of the Welsh FA is 'Gorau chwarae, cyd chwarae'—it's better to play with each other. That's true about rugby and Wales. It's also true about the arrangements for the Rugby World Cup here in Cardiff.

So, it's entirely appropriate that the Enterprise and Business Committee took written evidence from the following bodies: South Wales Police, the bus companies in Cardiff and National Express, Arriva Trains Wales, the Great Western Railway, Network Rail, the train operating companies, and finally, but by no means least, the Rugby World Cup England company. Many of them appeared before the committee, as well as representatives of Cardiff council and the Confederation of Passenger Transport.

There was also much coverage in the media and on social media of transport in Cardiff. The experience of most travellers was positive. However, we can't rest on our laurels. We should always strive for better. That was the committee's role in carrying out its inquiry. The committee made a number of recommendations, as William said earlier, and it's a pleasure too to note that the Welsh Government, in response, has accepted all but one of those recommendations in full.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ond, cyn tawelu, hoffwn wneud ychydig o sylwadau yn sgil llythyr a ddaeth i law'r wythnos yma oddi wrth Rowland Pittard, ysgrifennydd Raifuture Cymru. Mae ei lythyr yn cynnwys sawl pwynt mae'n werth rhoi ystyriaeth iddynt. Yn gyntaf, mae cyngor Caerdydd siŵr o fod wedi gwneud elw sylweddol o gwpan y byd a diolch i Isambard Kingdom Brunel, mae'r orsaf trenau yng nghanol Caerdydd. Serch hynny, mae llawer yn teithio i mewn ar fysiau i gludo gwylwyr i'r gemau. Mae'n rhaid bod cyngor Caerdydd yn trefnu rhywle cyfagos ar eu cyfer—efallai ar dir sydd heb gael ei ddatblygu hyd yn hyn, a'r defnydd hefyd yn ddefnydd dros dro. Wedi'r cyfan, mae cwpan y byd, er yn ddigwyddiad arbennig, yn ddigwyddiad dros dro ei hun. Beth am rywle mwy parhaol i'r fysiau yng Nghaerdydd?

Mae mwy o broblemau hefyd gyda'r trenau o'r dwyrain. Yn ôl adroddiad yn ddiweddar gan Rhodri Clark yn y 'Western Mail', mae rheilffordd y Great Western yn gweld pethau yn gwella gyda'r sefyllfa o'r dwyrain unwaith y daw trydaneiddio o orsaf Paddington at orsaf Caerdydd. Ond beth am y sefyllfa lan hyd hynny? Mae llythyr Raifuture Cymru yn canmol cyhoedduswydd Trenau Arriva Cymru y llynedd. Mewn gwrthgyferbyniad, hen fap o'r trac a oedd wedi darfod oedd gan Great Western yn eu pecyn cyflwyno. Yn ffodus, mae'r gwaith a wnaethpwyd yn ddiweddar dros y Nadolig a chyfnod y calan gan Network Rail wedi gwella'r sefyllfa o'r dwyrain ar gyfer y dyfodol agos. Yn wir, gan fod digwyddiadau megis Cwpan Rygbi'r Byd mor bwysig, hoffwn weld y cwmnïau a fydd yn ceisio am y 'franchise' newydd, pan ddaw'r amser, yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r gofyniadau arbennig ar gyfer y digwyddiadau mawr cyson sy'n digwydd yn aml yng Nghaerdydd. Fel dywedodd William yn gynharach, mae'n rhaid inni edrych ar yr orsaf yng Nghaerdydd.

Dechreuais drwy gyfeirio at bêl-droed a'r gallu i weithio ar y cyd. Wrth offen, efallai y byddai'n addas gofyn a ydy hi'n werth ystyried datblygu hen orsaf Parc Ninian ar gyfer trafniadaeth rygbi'r dyfodol. Ar y nodyn ecwmenaidd hwnnw, rwy'n cwplu. Diolch.

But, before I conclude, I would like to make some comments in light of a letter that was received this week from Roland Pittard, the secretary of Raifuture Wales. His letter includes a number of points that deserve consideration. First of all, Cardiff council have probably made significant profits from the Rugby World Cup, and thanks to Isambard Kingdom Brunel, the rail station is in the heart of Cardiff. However, many come in by bus to actually attend matches. Cardiff council must actually arrange for a convenient dropping point—perhaps on land that is yet to be developed. That could be for temporary purposes. After all, the world cup, although a very special event, is temporary itself. What about having a more permanent location for buses in Cardiff?

There are also more problems with trains coming from the east. According to a recent report by Rhodri Clark in the 'Western Mail', the Great Western Railway sees things improving in terms of transport from the east once electrification from Paddington to Cardiff Central is completed. But what about the situation up until that point? The Raifuture Wales letter applauds Arriva Trains Wales on its publicity from last year. In contrast, Great Western had an old, defunct map in its pack. Fortunately, the recent work done by Network Rail over Christmas and the new year has improved the position from the east for the near future. Indeed, as events such as the Rugby World Cup are so important, I'd like to see the companies applying for the new franchise, when the time comes, displaying that they are aware of the particular requirements for these regular major events that frequently take place in Cardiff. As William said earlier, we do have to look at the station in Cardiff.

I started with a reference to football and the ability to work together. In conclusion, perhaps it would be appropriate to ask whether we should consider redeveloping the old Ninian Park station for future rugby transport. On that ecumenical note, I conclude. Thank you.

15:11

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad Biography](#)

Wel, nid oes angen i mi siarad yn helaeth iawn heddiw, a dweud y gwir, achos mae'r adroddiad gan y pwyllgor yn gwneud argymhellion sydd, mewn difrif, ddim yn orddadleuol. Mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr egwyddorion i gyd, yn llawn neu mewn egwyddor, yn brawf o hynny, rwy'n meddwl. Mi oedd Cymru, wrth gwrs, yn falch iawn o'n rôl yng Nghwpan Rygbi'r Byd y llynedd, yn falch iawn o berfformiadau'r tîm yn wyneb anafiadau di-rif—ond nid fan hyn ydy'r lle i drafod hynny—ac yn falch iawn hefyd, wrth gwrs, ein bod ni'n gallu cynnig llwyfan i nifer o'r gemau yn stadiwm rygbi orau'r byd. Ond, os ydym ni fel cenedl yn falch o'r stadiwm yna ac yn falch ei bod hi yn gallu denu digwyddiadau enfawr i ganol ein prifddinas ni, mae'n fater o ychydig o embaras, onid ydy hi, pan fyddwn ni'n gweld nad yw'r isadeiledd yn ein prifddinas ni yn gallu ymdopi efo'r her.

Well, there is no need for me to speak at length today, to be honest, because the report from the committee makes recommendations that aren't really overly controversial. The fact that the Welsh Government has accepted all of the recommendations in full or in principle testifies to that. Of course, Wales was very proud of our role in the Rugby World Cup last year, very proud of the team's performance in the face of numerous injuries—although this is not the place to discuss that—and also very proud to be able to offer a platform for a number of the matches in the best rugby stadium in the world. However, if we as a nation are proud of that stadium, and proud that it can attract major events to the centre of our capital city, it's a matter of some embarrassment, isn't it, when we see that the infrastructure in our capital city is unable to cope with that challenge.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mi ddaeth hi'n amlwg iawn bod isadeiledd y rheilffordd ei hun yn annigonol, ac nid dim ond yr adeilad chwaith. Mae'n gwbl amlwg, mewn difrif, nad yw'r orsaf ei hun yn ddigon mawr, yn ddigon modern nac yn ddigon hyblyg i allu ymdopi efo degau o filoedd o deithwyr ar un adeg. Mi wnaethom ni gymharu gorsaf Caerdydd â gorsaf Reading, lle mae yna fuddsoddiad enfawr wedi bod a lle mae'r 'platforms' yn llydan iawn a'r gallu yno i ddelio â nifer fawr iawn o bobl ar y tro. A dweud y gwir, ar gyfer gwyliau fel y Reading Festival, lle mae systemau ciwio yn cael eu gosod y tu allan i'r orsaf honno, nid oes pobl yn ciwio yn y rhesi hynny erbyn hyn, gymaint fu llwyddiant y gwaith ar yr orsaf yna. Mae'n amlwg, felly, fod buddsoddi yng ngorsaf Caerdydd yn mynd i ofod bod yn flaenoriaeth ar gyfer rhaglenni buddsoddi yn seilwaith rheilffyrdd Cymru yn y blynyddoedd i ddod, ac all hynny ddim digwydd yn ddigon buan.

Felly, mae'r orsaf yn un peth, ond mae'r problemau hefyd yn ymwneud â faint o drenau sy'n gallu pasio drwy'r orsaf o fewn amser cyfyngedig, a, heb wneud y math o fuddsoddiad sydd ei angen mewn signalau yn benodol, a thrac hefyd o bosib, fydd gorsaf Canol Caerdydd byth yn orsaf sy'n deilwng o wasanaethu ein stadiwm rygbi genedlaethol ni. Ond beth ddaeth yn amlwg hefyd, rydw i'n meddwl, i ni i gyd fel pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad byr yma oedd bod yna rywsut ddiffygion yn y cynlluniau a oedd yn ein galluogi i gael hyd yn oed y gorau allan o'r isadeiledd, ac, o wella elfennau sylfaenol fel cyfathrebu efo teithwyr a rhoi gwybod iddyn nhw am y cyfyngiadau, i ystyried sut i symud mwy o deithwyr o ganol Caerdydd ar fysus ac ati, ac i drafod yn gynharach efo cwmnïau trenau, a chwmnïau trenau 'freight' hyd yn oed, cyn digwyddiadau, mae'n amlwg bod angen edrych o'r newydd ar y trefniadau hynny.

Rydw i'n falch bod y Llywodraeth yn derbyn yr argymhellion yn llawn neu mewn egwyddor. Er bod y rhain yn argymhellion synhwyrol y bydd yna gonsensws arnyn nhw, rydw i'n gwybod eu bod nhw'n sicr yn rhai sy'n gosod her i Lywodraeth Cymru, yn enwedig yr angen i fuddsoddi yn drwm iawn yn yr orsaf ac isadeiledd y rheilffordd ei hun ac i berswadio Network Rail i wneud hynny yn flaenoriaeth. Ac rydw i'n gwneud y pwynt, i gloi, nad rhywbeth dymunol ydy hynny erbyn hyn; mae'n gwbl glir ei bod hi'n rheidrwydd i symud ymlaen ar fyrder.

It became evident that the railway infrastructure itself was inadequate, and not just the building. It's quite clear that the station building itself is not large enough, not modern enough, and not flexible enough to be able to cope with tens of thousands of passengers at one time. We compared Cardiff Central station with Reading station, where there has been huge investment, and where the platforms are very wide and, therefore, there is the capacity to deal with huge numbers of people at the same time. In fact, for festivals such as the Reading Festival, where queuing systems are installed outside that station, you no longer actually get people queuing because the development has been so successful. Therefore, it's obvious that investment in Cardiff station will have to be a priority for the investment programmes for rail infrastructure in Wales in future years, and that cannot happen soon enough.

The station is one thing, but there are also problems with the number of trains that can pass through the station within a limited amount of time. Without having the kind of investment required in signals, specifically, and in the track itself, quite possibly, Cardiff Central station will never become worthy of serving our national rugby stadium. What also became obvious to us all, as a committee, during this brief inquiry was that there were, somehow, deficiencies in the plans that should enable us to get the best out of the infrastructure and, from improving basic things like communicating with passengers and notifying them of restrictions, to considering how to move more passengers from the centre of Cardiff on buses and so on, and to negotiating earlier with rail companies, and even freight train companies, prior to events, it's clear that we need to look anew at those arrangements.

I'm very pleased that the Government has accepted the recommendations in full, or in principle. Although these are sensible recommendations that everybody will agree upon, I know that they're certainly quite challenging for the Welsh Government, particularly the need to invest very heavily in the station and in the rail infrastructure itself, and to persuade Network Rail to do so as a matter of priority. In closing, I make the point that this is no longer something that is desirable; it is absolutely clear that it is essential that we move forward with urgency.

Although not a member of the committee, being an elected Member for South Wales Central, I've taken a great interest in the work of the committee in formulating this report, and, as someone who went along to many of the matches, I can only praise the atmosphere, the conduct of the fans, and, very often, the conduct of the teams on the field, with some really exciting and some brilliant rugby—I'd have to say some of the best of the Rugby World Cup. But, when you actually look at the fan base that did come to Cardiff, as the report notes in its early points, the 'key facts', it does show that the city of Cardiff was expecting a huge amount of people arriving in Cardiff. For the six games that didn't have Wales playing in them, only 5 per cent of those tickets were sold to Welsh postal addresses, and so 95 per cent of the people coming to watch those matches were coming from outside Wales. And, indeed, the games that Wales played in, only 25 per cent of the tickets were sold to Welsh postal addresses. So, 75 per cent of the fan base was having to travel some great distance into the capital city.

We've got a history, we've got a pedigree, of being able to host many major events, and the Millennium Stadium, as I'd agree with the Member from Anglesey, is by far the best rugby stadium, I would suggest, in the world—the way it's uniquely placed, the way it can actually hold the atmosphere and make you feel as if you're on the pitch with the players, really is a credit to the design of that stadium. But the infrastructure around it, sadly, really is not fit for purpose, and it is the overall experience that we are giving to the match-day goer that is the key element in, I would suggest, the city of Cardiff, sporting promoters, and anyone with the best interests of developing the brand here in Cardiff's ability to attract whether they be pop concerts, whether they be sporting events, or any other event that can actually host a large number of people in that stadium. And so it is critical that the recommendations in this report are delivered, and not thought of as, 'Oh well, the World Cup's been and gone; yes, this report has followed and there was a bit of press around it, but now these recommendations will sit on the fence', as it were. There is a huge piece of work, working with Network Rail in particular, to develop Cardiff Central station. Many Members around this Chamber—and I can picture them; many of them sitting in this room today, who might well be contributing later in the debate—have spoken about the key requirement to develop Cardiff Central station into what it should be, which is a transport hub for the twenty-first century, so that, when you do arrive in Cardiff Central station, you do then actually get into other integrated modes of transport, whether they be buses or whether they be walkways or pathways into the wider city experience, so that you don't get the horrific scenes that certainly blighted the first three matches at that particular venue. It cannot be right that people have to stand for four, five, six hours, waiting to get a lift, a journey home, from an event that they have spent a considerable part of their hard-earned cash on coming to enjoy and be entertained.

Er nad wyf yn aelod o'r pwyllgor, gan fy mod yn Aelod etholedig dros Ganol De Cymru, rwyf wedi bod â diddordeb mawr yng ngwaith y pwyllgor yn llunio'r adroddiad hwn, ac fel rhywun a aeth draw i weld llawer o'r gemau, ni allaf ond canmol yr awyrgylch, ymddygiad y cefnogwyr, ac yn aml iawn, ymddygiad y timau ar y cae, gyda rygbi gwirioneddol gyffrous a gwych—rhaid i mi ddweud, peth o rygbi gorau Cwpan Rygbi'r Byd. Ond pan edrychwch ar y sylfaen gefnogwyr a ddaeth i Gaerdydd mewn gwirionedd, fel y mae'r adroddiad yn nodi yn ei bwyntiau cynnar, y 'ffeithiau allweddol', mae'n dangos fod dinas Caerdydd yn disgwyl i lawer iawn o bobl gyrraedd Caerdydd. Ar gyfer y chwe gêm nad oedd Cymru yn chwarae ynddynt, 5 y cant yn unig o'r tocynnau hynny a werthwyd i gyfeiriadau post yng Nghymru, ac felly roedd 95 y cant o'r bobl a ddaeth i wyllo'r gemau hynny'n dod o'r tu allan i Gymru. Ac yn wir, o'r gemau roedd Cymru yn chwarae ynddynt, 25 y cant yn unig o'r tocynnau a werthwyd i gyfeiriadau post yng Nghymru. Felly, roedd 75 y cant o'r sylfaen gefnogwyr yn gorfod teithio cryn bellter i mewn i'r brifddinas.

Mae gennym hanes, mae gennym bedigri ar ôl gallu cynnal llawer o ddigwyddiadau mawr, a chytunaf â'r Aelod o Ynys Môn, fe fyddwn yn awgrymu mai Stadiwm y Mileniwm yw'r stadiwm rygbi gorau yn y byd o bell ffordd—o ran ei leoliad unigryw, mae'r ffordd y gall ddal yr awyrgylch mewn gwirionedd a gwneud i chi deimlo fel pe baech chi ar y cae gyda'r chwaraewyr yn glod go iawn i ddyluniad y stadiwm. Ond nid yw'r seilwaith o'i gwmpas yn addas at y diben, gwaetha'r modd, ac fe fyddwn yn awgrymu mai'r profiad cyffredinol rydym yn ei roi i ymwelwyr diwrnod gêm yw'r elfen allweddol i ddinas Caerdydd, hyrwyddwyr chwaraeon, ac unrhyw un sydd â fwyaf o ddiddordeb mewn datblygu'r brand yma yng ngallu Caerdydd i ddenu naill ai cyngherddau pop, digwyddiadau chwaraeon neu unrhyw ddigwyddiad arall a all groesawu nifer fawr o bobl i'r stadiwm. Ac felly mae'n hanfodol fod argymhellion yr adroddiad yn cael eu cyflawni, ac nid meddwl amdanynt yn yr ystyr o: 'O wel, mae Cwpan y Byd wedi bod ac wedi mynd; ydy, mae'r adroddiad wedi dilyn a chafwyd peth sylw iddo, ond yn awr bydd yr argymhellion hyn yn eistedd ar y ffens', fel petai. Mae yna lawer o waith, gan weithio gyda Network Rail yn arbennig, ar ddatblygu gorsaf Caerdydd Canolog. Mae nifer o'r Aelodau o gwmpas y Siambr hon—a gallaf eu gweld; mae llawer ohonynt yn eistedd yn yr ystafell hon heddiw, a allai'n hawdd fod yn cyfrannu yn nes ymlaen yn y ddadl—wedi siarad am y gofyniad allweddol i ddatblygu gorsaf Caerdydd Canolog i fod yr hyn y dylai fod, sef canolbwynt trafniadaeth ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, fel y gallwch, wrth gyrraedd gorsaf Caerdydd Canolog, ddefnyddio dulliau integredig eraill o deithio mewn gwirionedd, boed yn fysiau neu'n llwybrau cerdded neu lwybrau i mewn i brofiad ehangach y ddinas, fel nad ydych yn cael y golygfeydd arswydus a fu'n sicr yn falltodd ar y tair gêm gyntaf yn y lleoliad hwnnw. Ni all fod yn iawn fod yn rhaid i bobl sefyll am bedair, pump, chwe awr, yn aros i gael eu cludo, taith adref, o ddigwyddiad y maent wedi gwario rhan sylweddol o'u harian a enillwyd drwy waith caled i ddod i'w fwynhau a chael eu diddanu.

I do note that the report didn't touch on the roads in particular, and I think that was an anomaly maybe. That should have been looked at, because there was considerable congestion at the Severn Bridge toll plaza in particular, and I know, from my own inbox, I received two or three e-mails on a couple of the matches where—. In particular, the one that stands out in my mind was a family travelling from London, and they were so far away from the toll plaza that, in the end, they turned in for Bath and they watched the match in Bath and spent the weekend in Bath, they did, and they had to forego the tickets that the father had bought for his family to enjoy a game of rugby here in Cardiff. What sort of message is that sending out to the wider travelling public who want to come and enjoy the delights of this great capital city of Cardiff?

I do think also, in a wider context, there is a responsibility on the local authority as well to make sure that the outside element of the stadium is as secure and enjoyable as possible. The conduct of the fans was superb, but it is vital that the taxis operate to the code of conduct, shall we say, that we expect and people don't feel that they get ripped off. It is vital that there is bold information when you're queuing for a train or a bus, and you can understand that your queue is moving and you will get on a train and you will get on a bus at some point, rather than you standing there with little or no information. No wonder people get very frustrated. It does show it could have been done with better planning. The last five games clearly show that there was a far better experience, and fans were moved in a timely manner. So, there is, I think, fair criticism levelled at the early-stage planning of the event, and I'd seriously hope, as I said in my earlier comments, that this report is not allowed to gather dust, and there is momentum to improve the travel situation so that Cardiff can continue to deliver a product that is world beating in the sports arena. Thank you, Presiding Officer.

Rwy'n nodi na chyfeiriodd yr adroddiad at y ffyrdd yn benodol, ac rwy'n meddwl fod hynny'n gamgymeriad o bosibl. Dylid bod wedi eu hystyried, gan fod tagfeydd sylweddol ar fan casglu tollau Pont Hafren yn arbennig, ac rwy'n gwybod, yn fy mewnflwch hun, fy mod wedi cael dwy neu dair neges e-bost ar un neu ddwy o'r gemau lle—. Yn benodol, yr un sy'n sefyll allan yn fy meddwl oedd teulu a deithiodd o Lundain ac roeddent mor bell i ffwrdd o'r man casglu tollau fel eu bod yn y pen draw wedi troi am Gaerfaddon ac wedi gwyllo'r gêm yng Nghaerfaddon a threulio'r penwythnos yng Nghaerfaddon, do, a bu'n rhaid iddynt wneud heb y tocynnau roedd y tad wedi'u prynu i'w deulu fwynhau gêm o rygbi yma yng Nghaerdydd. Pa fath o neges y mae hynny'n ei chyfleu i'r cyhoedd ehangach sy'n teithio ac sydd am ddod i fwynhau hyfrydwch y brifddinas wych hon?

Rwy'n meddwl hefyd, mewn cyd-destun ehangach, fod cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol yn ogystal i wneud yn siŵr fod elfen allanol y stadiwm mor ddiogel a phleserus â phosibl. Roedd ymddygiad y cefnogwyr yn wych, ond mae'n hanfodol fod y tacsis yn gweithredu yn ôl y cod ymddygiad a ddisgwyliwn, o'i roi fel yna, ac nad yw pobl yn teimlo eu bod yn cael eu twyllo. Mae'n hanfodol fod gwybodaeth gadarn yn cael ei rhoi pan fyddwch yn ciwio am drên neu fws, a gallwch ddeall bod eich ciw yn symud ac y byddwch yn cael mynd ar drên ac ar fws ar ryw bwynt, yn hytrach na'ch bod yn sefyll yno heb fawr o wybodaeth, os o gwbl. Nid oes rhyfedd fod pobl yn teimlo'n rhwystredig iawn. Mae'n dangos y gellid bod wedi'i gynllunio'n well. Mae'r pum gêm olaf yn dangos yn glir fod pobl wedi cael profiad llawer gwell, a chefnogwyr yn cael eu symud yn heb oedi. Felly, mae'r feirniadaeth o gynlluniau camau cynnar y digwyddiad yn deg, rwy'n meddwl, a byddwn yn gobeithio o ddiifrif, fel y dywedais yn fy sylwadau cynharach, na chaiff yr adroddiad hwn ei ganiatáu i hel llwch, ac mae yna fomentwm i wella'r sefyllfa deithio fel y gall Caerdydd barhau i ddarparu cynnyrch sy'n curo gweddill y byd yn y maes chwaraeon. Diolch i chi, Lywydd.

15:20

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As everybody else has already said, the infrastructure at Cardiff Central is really neanderthal and needs replacing as a matter of urgency. I'd just like to reflect on what a tragedy it is that our macroeconomic policy, instead of investing in our ageing infrastructure—because Cardiff's not alone in this—. We have instead spent billions on the banking industry to keep the economy afloat, when we could have been spending it on upgrading our infrastructure: £375 billion thrown at quantitative easing since 2009 without any noticeable change in the gambling behaviour of the bankers, and little evidence that they've been using it to help fund businesses or infrastructure.

Fel y mae pawb arall wedi dweud eisoes, mae'r seilwaith yng ngorsaf Caerdydd Canolog yn wirioneddol neanderthalaidd ac mae angen ei adnewyddu ar fyrder. Hoffwn ystyried cymaint o drasiedi yw'r ffaith fod ein polisi macro-economaidd, yn hytrach na buddsoddi yn ein seilwaith sy'n heneiddio—oherwydd nid yw Caerdydd ar ei phen ei hun yn hyn o beth—. Rydym yn lle hynny wedi gwario biliynau ar y diwydiant bancio i gadw'r economi i fynd, pan allem fod wedi'i wario ar uwchraddio ein seilwaith: £375 biliwn wedi'i daflu at leddfu meintiol ers 2009 heb unrhyw newid amlwg yn ymddygiad gamblo'r bancwyr, a fawr o dystiolaeth eu bod wedi bod yn ei ddefnyddio i helpu i gyllido busnesau neu'r seilwaith.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, as Rhun has already pointed out, the electrification of the London to south Wales line has been started, but it's been started at the other end of the line. Reading looks fantastic, but, you know, they could have started in Swansea and worked back to London—but, no, they work on it the other way. I think the bad news in terms of the delays in completing this electrification was, as ever, slipped out on the same day as the Chancellor's autumn statement in November. This line to Cardiff isn't going to be electrified until 2019, and there's no date set yet for it reaching Swansea or the Valleys lines, other than sometime between 2019 and 2023-24. So, for now we are left with a Heath Robinson situation that has seen little improvement since the 1960s, and that is just the railway line saga. There's also been little progress on rebuilding the bus station and the interchange metro tram/train system, which at least in part is dependent on the electrification of the Valleys lines.

I acknowledge that the scale of the number of rail passengers generated by the Rugby World Cup was of a different order to normal rugby match traffic, with between four and 10 times the numbers on most routes compared with a different type of rugby match. So, we do have to be mindful of that in our understanding of why there were so many problems in the initial three matches, where people were really crammed in like sardines and it really wasn't a way of advertising Wales as a tourist destination. But, as the report acknowledges, much work was done after the initial shambles to improve the dispersal and dispatch of passengers, and I hope that this will become the new normal for the forthcoming 6 Nations and other major events taking place in Cardiff.

It should be perfectly possible to use Cardiff Queen Street station for people travelling up the Valleys lines, which would help to disperse people, rather than them all having to get on their train at Cardiff Central. The trains to the Valleys lines all pass through Queen Street station, and it really isn't that much further to walk from the stadium than Cardiff Central. Instead, the custom and practice has always been to close access to Queen Street on match days, so I hope that that will now change, now that Queen Street station itself has been upgraded and has an extra platform.

I think that one of the biggest problems is on the signalling system, which is absolutely neanderthal, and there are 192 miles of signalling that need to be upgraded between Newport and Port Talbot. That's absolutely crucial, as is the development of this new platform at Cardiff Central, which will enable trains to come into the station and then go out on the same line, rather than having to be shunted, which obviously delayed things when people were trying to dispatch thousands of people out after the match.

Felly, fel y mae Rhun eisoes wedi nodi, mae gwaith trydaneiddio wedi dechrau ar reilffordd Llundain i dde Cymru, ond mae wedi'i ddechrau ar ben arall y llinell. Mae Reading yn edrych yn wych, ond, wyddoch chi, gallent fod wedi dechrau yn Abertawe a gweithio'n ôl i Lundain—ond na, maent yn gweithio arno y ffordd arall. Rwy'n meddwl bod y newyddion drwg o ran yr oedi ar gwblhau'r trydaneiddio hwn, fel erioed, wedi sleifio allan ar yr un diwrnod â datganiad hydref y Canghellor ym mis Tachwedd. Nid yw'r rheilffordd hon i Gaerdydd yn mynd i gael ei thrydaneiddio tan 2019, ac nid oes dyddiad wedi'i bennu eto ar gyfer ei weld yn cyrraedd Abertawe neu reilffyrdd y Cymoedd ar wahân i rywbryd rhwng 2019 a 2023-24. Felly, am nawr cawn ein gadael gyda sefyllfa Heath Robinsonaidd sydd heb weld fawr o welliant ers y 1960au, a saga'r rheilffordd yn unig yw hynny. Ni chafwyd fawr o gynnydd ychwaith ar ailadeiladu'r orsaf fysiau a system y gyfnewidfa tram/trên metro, sy'n rhannol ddiabydd o leiaf ar drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd.

Rwy'n cydnabod bod nifer y teithwyr rheilffordd a gynhyrchwyd gan Gwpan Rygbi'r Byd ar raddfa wahanol i draffig gêm rygbi arferol, gyda rhwng pedwar a 10 gwaith y nifer ar y rhan fwyaf o lwybrau o gymharu â math gwahanol o gêm rygbi. Felly, rhaid i ni gofio hynny yn ein dealltwriaeth o'r rhesymau pam roedd cymaint o broblemau yn y tair gêm gyntaf, pan oedd pobl wedi'u gwasgu i mewn fel sardîns ac nid oedd yn ffordd o fath yn y byd o hysbysebu Cymru fel cyrchfan i dwristiaid. Ond fel y mae'r adroddiad yn cydnabod, gwnaed llawer o waith ar ôl y llanast cychwynnol ar wella'r modd y câi teithwyr eu gwasgaru a'u cludo ymaith, ac rwy'n gobeithio mai dyma fydd y drefn arferol ar gyfer pencampwriaeth y chwe gwlad sydd ar y ffordd a digwyddiadau mawr eraill sy'n digwydd yng Nghaerdydd.

Dylai fod yn berffaith bosibl defnyddio gorsaf Heol y Frenhines Caerdydd ar gyfer pobl sy'n teithio ar hyd rheilffyrdd y Cymoedd, a fyddai'n helpu i wasgaru pobl, yn hytrach na'u bod i gyd yn gorfod mynd ar eu trên yng ngorsaf Caerdydd Canolog. Mae'r trenau i reilffyrdd y Cymoedd i gyd yn mynd drwy orsaf Heol y Frenhines, ac mewn gwirionedd nid yw'n llawer pellach i gerdded yno o'r stadiwm na gorsaf Caerdydd Canolog. Yn lle hynny, yr arfer bob amser yw cau mynediad i Heol y Frenhines ar ddiwrnodau gêm, felly rwy'n gobeithio y bydd hynny'n newid yn awr, gan fod gorsaf Heol y Frenhines ei hun wedi'i huwchraddio a bod yno blatfform ychwanegol bellach.

Rwy'n meddwl mai un o'r problemau mwyaf yw'r system signalau, sydd yn hollol neanderthalaidd, a cheir 192 o filltiroedd o signalau sydd angen eu huwchraddio rhwng Casnewydd a Phort Talbot. Mae hynny'n gwbl hanfodol, fel y mae datblygiad y platfform newydd yng ngorsaf Caerdydd Canolog a fydd yn galluogi trenau i ddod i mewn i'r orsaf a mynd allan ar yr un rheilffordd, yn hytrach na gorfod cael eu siyntio, a oedd yn amlwg yn peri oedi pan oedd pobl yn ceisio cludo miloedd o bobl allan ar ôl y gêm.

I think one of the key issues is what is going to happen in control period 6, between 2019 and 2024. I note that the Welsh Government has accepted this recommendation in principle, but it's absolutely essential that Cardiff Central is considered a priority for this. We are in competition with other stations, including Liverpool Lime Street and Leeds, to be recognised as in need of a major and urgent enhancement. This is absolutely essential. As the Chair has already pointed out, we are due to have 23 million people using the station by 2023, and 32 million by 2043, so we must have the infrastructure to go with it, otherwise it will seriously hamper our future development.

Rwy'n credu mai un o'r materion allweddol yw beth sy'n mynd i ddigwydd yng nghyfnod rheoli 6, rhwng 2019 a 2024. Nodaf fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ond mae'n gwbl hanfodol fod gorsaf Caerdydd Canolog yn cael ei hystyried yn flaenoriaeth ar gyfer hyn. Rydym mewn cystadleuaeth â gorsafedd eraill, gan gynnwys Lime Street Lerpwl a Leeds, i gael ein cydnabod fel gorsaf sydd angen gwelliannau mawr ar frys. Mae hyn yn gwbl hanfodol. Fel y nododd y Cadeirydd eisoes, rydym yn mynd i weld 23 miliwn o bobl yn defnyddio'r orsaf erbyn 2023, a 32 miliwn erbyn 2043, felly mae'n rhaid i ni gael y seilwaith i gyd-fynd â hynny, neu fel arall bydd yn amharu'n ddifrifol ar ein datblygiad yn y dyfodol.

15:25

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Firstly, might I say thank you to the Welsh Government for accepting the recommendations of this report? I think that the evidence that we received was very clear, and whilst I don't think anyone is particularly interested in apportioning blame to different parties involved, what we want to see is a change in the future.

As a member of the committee who represents all of Cardiff, can I say, personally, how deeply disappointed I was that in the first three—and I may say, actually, four—matches of the Rugby World Cup, we did not show the best face of Cardiff and Wales to the world? In fact, I'm sorry to say that when visitors who come to Cardiff— if even one leaves this city thinking that we were anything short of wonderful, then I am disappointed. But, on this occasion, through infrastructure failings and difficulties in the organisation, we have had many hundreds of people leaving our city, and instead of going home and telling their families and their friends all over the world how fantastic Wales is as a nation, they've gone home feeling, unfortunately, that their experience was chaotic. I am deeply disappointed by that, as I know that everyone here will be.

There are two recommendations that I think really stand out for me: firstly, that we absolutely must review the way that events are managed in terms of the major events. We don't want to see a situation where quick decisions cannot be taken because there are too many partners to consult in the process; there must be a much clearer division of labour and a much clearer line of command.

I also think it's important that we should look at making sure that there is co-ordination across and between events in the city centre. I think it was after the third match, which was on the Saturday evening—. Sunday morning, at 8 o'clock, I was in the city centre. It was knee-deep in rubbish from the previous night's match, and there were hundreds and thousands of people lining the streets of Cardiff for the Cardiff half marathon: again, a second opportunity to show our beautiful city to the world, and a second opportunity when we disappointed.

Yn gyntaf, a gaf fi ddweud diolch i Lywodraeth Cymru am dderbyn argymhelliad yr adroddiad hwn? Credaf fod y dystiolaeth a gawsom yn glir iawn, ac er nad wyf yn meddwl bod gan neb ddiddordeb arbennig mewn beio gwahanol bartion sy'n gysylltiedig â'r mater, yr hyn rydym am ei weld yw newid yn y dyfodol.

Fel aelod o'r pwyllgor sy'n cynrychioli Caerdydd gyfan, a gaf fi ddweud, yn bersonol, pa mor wirioneddol siomedig roeddwn i na ddangosom wyneb gorau Caerdydd a Chymru i'r byd yn nhair gêm gyntaf—mewn gwirionedd gallwn ddweud pedair gêm gyntaf—gemau Cwpan Rygbi'r Byd? Yn wir, mae'n ddrwg gennyf ddweud pan fydd ymwelwyr sy'n dod i Gaerdydd—. Os oes hyd yn oed un yn gadael yn meddwl nad oedd y ddinas yn wych, yna rwy'n siomedig. Ond ar yr achlysur hwn, drwy fethiannau seilwaith ac anawsterau trefniadol, cawsom gannoedd lawer o bobl yn gadael ein dinas, ac yn hytrach na mynd adref a dweud wrth eu teuluoedd a'u ffrindiau i gyd ym mhob rhan o'r byd pa mor wych yw Cymru fel cenedl, maent wedi mynd adref yn teimlo eu bod wedi profi anhrefn llwyr, yn anffodus. Rwy'n siomedig iawn am hynny, fel y bydd pawb yma, rwy'n gwybod.

Mae dau argymhelliad rwy'n meddwl yn wir eu bod yn sefyll allan i mi: yn gyntaf, fod yn rhaid i ni adolygu'r ffordd y caiff digwyddiadau eu rheoli o ran y prif ddigwyddiadau. Nid ydym am weld sefyllfa lle na ellir gwneud penderfyniadau cyflym oherwydd bod gormod o bartneriaid i ymgynghori â hwy yn y broses; rhaid bod rhaniad llafur llawer cliriach a llinell orchymyn lawer cliriach.

Rwyf hefyd yn meddwl ei bod yn bwysig y dylem ystyried gwneud yn siŵr fod cydgysylltiad ar draws a rhwng digwyddiadau yng nghanol y ddinas. Rwy'n credu mai ar ôl y drydedd gêm, a gynhaliwyd gyda'r nos ar nos Sadwrn—. Ar y bore dydd Sul, am 8 o'r gloch, roeddwn yng nghanol y ddinas. Roedd sbwriel i fyny hyd at y pengliniau ar ôl gêm y noson flaenorol, ac roedd cannoedd ar filoedd o bobl ar strydoedd Caerdydd ar gyfer hanner marathon Caerdydd: unwaith eto, cyfle arall i ddangos ein dinas brydferth i'r byd, a chyfle arall pan gawsom ein siomi.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I do think that another thing that we need to think about as well in terms of transport is not just moving people in and out of our city for major events, but that Cardiff must be able to operate as our capital city even on days when it is hosting major events. We have to be able to get workers to work, we have to be able to get shoppers to shops, we have to be able to see the normal business of life in Cardiff continue on every day of the year. Otherwise, what we'll see is that the major events will not be the universal benefit to our businesses that they might be.

For that reason, I think it's critical that, when we look at the redevelopment of Cardiff Central railway station, we must also look at the redevelopment of Cardiff central bus station, too, because there is an opportunity there to make sure we're using that bus network effectively to move working people in and out of the city centre by public transport, and make sure that as few people as possible are using private cars.

As I say, in the short term, we do have to plan very carefully for the Champions League final. It is the biggest sporting event on the planet; we cannot afford for the same situation to arise. I have to say that, having listened to the evidence, I am confident that those involved will not allow that to happen. However, we do have a difference in that the bus station site in the middle of Cardiff is currently being developed, so there is, actually, less land available for planning queuing systems in the city centre, and that is going to be a challenge that we need to plan for very carefully.

In the medium term, as I say, we need to think about how that co-ordination of a new bus station and that railway station will work alongside plans for the metro for the future, and, of course, our active travel priorities, too.

In the long term, though, we must work together across this Chamber in all parties to say that Cardiff Central must be a priority for redevelopment. It is no longer able to cope with the demands we put upon it, not only on the days when we have major events, but in every single rush hour. As a commuter, to have to queue to buy tickets within a crowded underground tunnel is not acceptable, and you query the safety of that. Clearly, there's been some investment in that station, but it is woefully inadequate for our long-term needs as a capital city, and I hope that we can at least agree across parties that that is something we will take forward. Thank you.

Rwy'n credu mai peth arall sydd angen i ni feddwl amdano hefyd o ran trafnidiaeth yw nid yn unig symud pobl i mewn ac allan o'n dinas ar gyfer digwyddiadau mawr, ond bod yn rhaid i Gaerdydd allu gweithredu fel ein prifddinas hyd yn oed ar ddiwrnodau pan fo'n cynnal digwyddiadau mawr. Mae'n rhaid i ni allu cael gweithwyr i weithio, mae'n rhaid i ni allu cael siopwyr i siopau, mae'n rhaid i ni allu gweld bywyd arferol o ddydd i ddydd yng Nghaerdydd yn parhau ar bob diwrnod o'r flwyddyn. Fel arall, yr hyn a welwn yw na fydd y digwyddiadau mawr yn fantais i bawb o'n busnesau fel y gallent fod.

Am y rheswm hwnnw, rwy'n credu ei bod yn hollbwysig, wrth i ni ystyried y gwaith o ailddatblygu gorsaf reiffordd Caerdydd Canolog, fod yn rhaid i ni hefyd ystyried ailddatblygu gorsaf fysiau ganolog Caerdydd hefyd, oherwydd mae yna gyfle yno i wneud yn siŵr ein bod yn defnyddio'r rhwydwaith bysiau yn effeithiol i symud pobl sy'n gweithio i mewn ac allan o ganol y ddinas ar drafnidiaeth gyhoeddus, a sicrhau bod cyn lleied o bobl â phosibl yn defnyddio ceir preifat.

Fel rwy'n dweud, yn y tymor byr, rhaid i ni gynllunio'n ofalus iawn ar gyfer rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr. Dyma'r digwyddiad chwaraeon mwyaf ar y blaned; ni allwn fforddio gweld yr un sefyllfa'n digwydd. Mae'n rhaid i mi ddweud, ar ôl gwranddo ar y dystiolaeth, rwy'n hyderus na fydd y rhai sy'n ymwneud â'r mater yn caniatáu i hynny ddigwydd. Fodd bynnag, mae gennym wahaniaeth yn yr ystyr bod safle'r orsaf fysiau yng nghanol Caerdydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, felly mewn gwirionedd, mae llai o dir ar gael ar gyfer cynllunio systemau ciwio yng nghanol y ddinas, ac mae honno'n mynd i fod yn her y bydd angen i ni gynllunio ar ei chyfer yn ofalus iawn.

Yn y tymor canolig, fel y dywedais, mae angen i ni feddwl sut y bydd cydgyssylltu gorsaf fysiau newydd a'r orsaf reiffordd yn gweithio ochr yn ochr â chynlluniau ar gyfer y metro yn y dyfodol, ac wrth gwrs, ein blaenoriaethau teithio llesol hefyd.

Yn y tymor hir, fodd bynnag, mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd ar draws y Siambr hon ym mhob plaid i ddweud bod yn rhaid i orsaf Caerdydd Canolog fod yn flaenoriaeth ar gyfer ailddatblygu. Nid yw bellach yn gallu ymdopi â'n gofynion, nid yn unig ar y dyddiau pan fydd gennym ddiwyddiadau mawr, ond yn ystod yr holl oriau brys. Fel cymudwr, mae gorfod ciwio i brynu tocynnau mewn twnnel tanddaearol gorlawn yn annerbyniol, ac rydych yn amau diogelwch hynny. Yn amlwg, cafwyd rhywfaint o fuddsoddiad yn yr orsaf honno, ond mae'n druenus o annigonol i'n hanghenion hirdymor fel prifddinas, ac rwy'n gobeithio y gallwn o leiaf gytuno ar draws y pleidiau fod hynny'n rhywbeth y byddwn yn bwrw ymlaen ag ef. Diolch.

A gaf innau siarad yn gryno fel un sydd wedi defnyddio gorsaf Caerdydd Canolog o leiaf bedair gwaith bob wythnos waith dros 20 mlynedd? Mae'n hen bryd i ni ddod at ein gilydd, fel y dywedodd fy nghydweithwraig ar y pwyllgor, Eluned, i sicrhau'r flaenoriaeth i'r gwaith yma. Mae gennym ni gymhariaeth, fel y gŵyr pawb, sef Haymarket yng Nghaeredin, sydd wedi cael ei datblygu yn gymharol ddiweddar fel gorsaf sy'n gallu derbyn niferoedd mawr ar gyfer digwyddiadau rhyngwladol, yn arbennig digwyddiadau chwaraeon.

Ond rwyf yn ddiolchgar iawn i Paul McMahon, rheolwr cyffredinol llwybrau Cymru i Network Rail, am ei gyfraniad yn y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgor, a pharodrwyd y pwyllgor hefyd i ddefnyddio ei amser ar faterion cysylltu, oherwydd dyna rydym ni'n sôn amdano pan rydym ni'n sôn am drafnidiaeth. Mae buddsoddi mewn cysylltu pobl gyda'i gilydd—yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol, ac i bwrpas gwaith—yn rhywbeth hanfodol i unrhyw gymdeithas, ac i unrhyw wlad ddatblygedig.

Ac mae'r ffigur gennym ni—y ffigur a ddefnyddiodd o yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor oedd bod yna gost wirioneddol o rhwng £200 miliwn a £300 miliwn er mwyn creu gorsaf ganolog go iawn yng Nghaerdydd. Mae hyn yn cymharu, wrth reswm, â'r hyn rydym ni wedi ei glywed yn barod am Reading, am fuddsoddiad Crossrail, ac yn y blaen, a hyd yn oed y £5 miliwn ardderchog a gawsom ni yn Llandudno, heb sôn am beth sydd wedi ei fuddsoddi mewn llefydd eraill. Mae gorsafoddedd yn ddrud, ac mae buddsoddi ynddyn nhw yn rhan o'r hyn sydd yn angenrheidiol er mwyn hwylustod trafnidiaeth.

Nid oes rhaid i mi ailadrodd na phwysleisio yr anawsterau technegol presennol ynglŷn â'r rheilffyrdd, ond mae yna fuddsoddi newydd mewn signalau. Mae'n anodd iawn buddsoddi yn ychwanegol mewn trac nes bod gennych chi ragor o le, wrth gwrs, mewn gofod fel yna. Mae'r ffaith bod gennych chi un plattform sydd yn rhy fach yn mynd i'r dwyrain—er ei fod o'n mynd i le pwysig iawn, rwy'n derbyn, i fyny i Lynebwy—ac yna bod gennych chi ddau blatfform arall sy'n mynd i gyfeiriad Bristol Parkway a Llundain, ac yna'r pedwerydd plattform sy'n bosib ei ddefnyddio y ddwy ffordd—wel, dydy hi ddim yn bosib i chi redeg gorsaf gyfoes gyda'r math yna o drefniadau.

Dylai fod hyn wedi cael ei dderbyn ers blyneddoddedd. Nid wyf i'n beio Llywodraeth Cymru; nid wyf i'n disgwyl i Lywodraeth Cymru fod yn buddsoddi y cyfan o'r hyn sydd ei angen. Ond, er mwyn cyrraedd y math o orsaf y mae ei hangen ar gyfer dyfodol Caerdydd—a dyfodol Cymru—mae'n hanfodol bod yna gyfraniad sylweddol o Lywodraeth Cymru, yn ogystal ag oddi wrth y Deyrnas Unedig, drwy Network Rail, i wneud hyn yn bosib.

Rwy'n caru eistedd mewn trenau, Fonesig Lywydd, neu buaswn i ddim yn parhau i geisio am y swyddi rwy'n eu cynnal yma, yn Llundain ac yn y gogledd. Mae trenau cyfforddus yn hawl ddinesig i bobl fel fi, ac rwy'n gobeithio bod y Llywodraeth yng Nghymru yn cydnabod hynny hefyd.

May I speak briefly as one who has used Cardiff Central station at least four times every working week over a period of 20 years? It's about time that we came together, as my committee colleague Eluned said, in order to provide priority for this work. We do have a comparison, as everyone knows, namely Haymarket in Edinburgh, which has been developed relatively recently as a station that can cope with large numbers for international events, particularly sporting events.

But I am very grateful to Paul McMahon, the general manager of the Wales route for Network Rail, for his contribution in the evidence provided to the committee and the committee's willingness to use its time on issues of connectivity, because that's what we're talking about when we talk of transport. Investment in connecting people—culturally, socially and for employment—is crucially important for any society and for any developed nation.

And we do have the figure—the figure that he himself used in his evidence to the committee was that there was a real-term cost of between £200 million and £300 million in order to create a real central station for Cardiff. This compares, naturally, with what we've already heard about Reading, the Crossrail investment and so on, and even the excellent £5 million invested in Llandudno, never mind what's been invested elsewhere. Stations are expensive and investing in them is part of what is required for transport connectivity.

I don't need to repeat or emphasise the current technical difficulties in terms of our railways, but there is new investment in signalling. It's very difficult to provide additional investment in tracks until you have more space, of course. The fact that you have one platform that's too small going eastbound—although it goes to a very important place, I accept, up to Ebbw Vale—and then you have two other platforms travelling towards Bristol Parkway and London and then a fourth platform which can be used both ways—well, it's not possible to run a modern station with that sort of arrangement.

This should have been accepted many years ago. I don't blame the Welsh Government for this; I don't expect the Welsh Government to invest all of what's required. But, in order to actually achieve the kind of station that we need for the future of Cardiff—and the future of Wales—then it is crucial that there is a significant contribution made by the Welsh Government, as well as from the UK Government, through Network Rail, in order to achieve this.

I do enjoy sitting in trains, Dame Presiding Officer, or I wouldn't continue to apply for the posts that I hold here, in London and in north Wales. Comfortable trains are a civic right for people such as me, and I do hope that the Government in Wales would recognise that.

15:33 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I now call on the Minister for Economy, Science and Transport to speak on behalf of the Government.

Galwaf yn awr ar Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i siarad ar ran y Llywodraeth.

15:33 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Thank you, Presiding Officer. Can I say I very much welcome this debate today? I would particularly like to thank the committee for its work in producing the report and recommendations, which, I think, we universally sign up to. Can I also thank the Chair for his introduction to the report, which has highlighted how successful they were in taking evidence, and getting conclusions that, I think, can be acted upon?

Diolch i chi, Lywydd. A gaf fi ddweud fy mod yn croesawu'r ddatl hon heddiw? Hoffwn ddiolch yn arbennig i'r pwyllgor am ei waith yn llunio'r adroddiad a'r argymhellion y mae pawb ohonom, rwy'n meddwl, yn eu cefnogi. A gaf fi hefyd ddiolch i'r Cadeirydd am ei gyflwyniad i'r adroddiad, sydd wedi amlygu pa mor llwyddiannus y buont yn casglu tystiolaeth, a dod i gasgliadau y credaf y gellir gweithredu arnynt?

Wales does actually have an outstanding reputation for hosting successful major events, including the Ryder Cup, back in 2010, the 2014 NATO summit, Wales Rally GB, and last year's Ashes test, to name a few. And next week, of course, we see Wales playing Scotland at the Principality Stadium in this year's RBS 6 Nations championship, and I'm sure all our best wishes go to the nation for that match. Of course, the Principality Stadium has been selected to host the 2017 UEFA Champions League final, the first time that this has happened in Wales. In terms of European football and global events, this is absolutely massive.

Mae gan Gymru enw da rhagorol mewn gwirionedd am gynnal digwyddiadau mawr llwyddiannus, gan gynnwys Cwpan Ryder, yn ôl yn 2010, uwchgynhadledd NATO 2014, Rali Cymru Prydain Fawr, a gêm brawf y Llundw y llynedd, i enwi ond ychydig. A'r wythnos nesaf, wrth gwrs, bydd Cymru yn chwarae'r Alban yn Stadiwm Principality ym mhencampwriaeth RBS y 6 Gwlad eleni, ac rwy'n siŵr fod ein holl ddymuniadau gorau'n mynd i'r genedl ar gyfer y gêm honno. Wrth gwrs, dewiswyd Stadiwm Principality i gynnal rownd derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA 2017, y tro cyntaf i hyn ddigwydd yng Nghymru. O ran digwyddiadau pêl-droed Ewropeaidd a byd-eang, mae'n wirioneddol enfawr.

I was pleased to accept, or accept in principle, all the committee's recommendations, and I welcome the opportunity today to outline the significant work that is already under way in relation to transport planning for major events. Some of the committee's recommendations related to planning and communication issues, particularly around the Rugby World Cup last September. I, like them, was very concerned to hear the issues faced by customers who travelled to Wales for the early matches last September. I was interested in Andrew R.T. Davies's comments about the Severn bridge. In light of those and, probably, the discussion we've had today, I'll be writing today to the Department for Transport to raise the committee's concerns, and possibly copy the Record in from today, because these are issues that we do not control. And, as Eluned Parrott said, we don't want to apportion blame, but it's important that people recognise the difficulties that were surrounding what had happened on the bridge.

Roeddwn yn falch o dderbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, holl argymhellion y pwyllgor, a chroesawaf y cyfle heddiw i amlinellu'r gwaith sylweddol sydd eisoes yn mynd rhagddo mewn perthynas â chynlluniau trafniadaeth ar gyfer digwyddiadau mawr. Roedd rhai o argymhellion y pwyllgor yn ymwneud â materion cynllunio a chyfathrebu, yn enwedig mewn perthynas â Chwpan Rygbi'r Byd fis Medi diwethaf. Roeddwn i, fel hwythau, yn bryderus iawn o glywed am y problemau a wynebwyd gan gwsmeriaid a deithiodd i Gymru ar gyfer y gemau cynnar ym mis Medi diwethaf. Roedd gennyf ddi-ddordeb yn sylwadau Andrew R.T. Davies am bont Hafren. Yng ngoleuni'r rheini a'r drafodaeth rydym wedi'i chael heddiw mae'n siŵr, byddaf yn ysgrifennu heddiw at yr Adran Drafniadaeth i fynegi pryderon y pwyllgor, ac o bosibl yn cynnwys copi o'r Cofnod heddiw, gan fod y rhain yn faterion nad ydynt o dan ein rheolaeth ni. Ac fel y dywedodd Eluned Parrott, nid ydym am fwrw bai, ond mae'n bwysig fod pobl yn cydnabod yr anawsterau ynghylch yr hyn a ddigwyddodd ar y bont.

It is vitally important as well that customers receive accurate and timely travel information, so they can make well-informed decisions before, during and after events, and this is why my senior officials immediately attended a number of meetings with the Rugby World Cup organising committee, the rail industry and the local authority to ensure that improved plans were put in place, with improved information provided for customers following the delays experienced at those early events. This did lead, as I think the Chair said in his remarks to the committee, to significantly improved experiences for passengers, improvements put in place in terms of additional train and coach services and more effective queuing and passenger management arrangements at Cardiff Central station.

Mae'n hanfodol bwysig hefyd fod cwsmeriaid yn cael gwybodaeth deithio gywir ac amserol, er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau gwybodus cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiadau, a dyma pam y mynychodd fy uwch swyddogion nifer o gyfarfodydd ar unwaith gyda phwyllgor trefnu Cwpan Rygbi'r Byd, y diwydiant rheilffyrdd a'r awdurdod lleol i sicrhau bod cynlluniau gwell yn cael eu rhoi ar waith, a gwell gwybodaeth yn cael ei darparu i gwsmeriaid yn dilyn yr oedi a brofwyd yn y digwyddiadau cynnar hynny. Fe arweiniodd hyn, fel y credaf i'r Cadeirydd ddweud yn ei sylwadau i'r pwyllgor, at wella profiadau'n sylweddol i deithwyr, at roi gwelliannau ar waith o ran gwasanaethau trenau a bysiau ychwanegol, ac at drefniadau ciwio a rheoli teithwyr mwy effeithiol yng ngorsaf Caerdydd Canolog.

The other recommendation made by the committee, one which I accept in principle, related to structural matters surrounding Cardiff Central and the improvements required on the rail. I wish I could have just accepted the recommendation, but I don't have responsibility in this area, because in terms of rail infrastructure, it is not devolved to us. Nonetheless, I recognise that significant improvements are required to the railway station to ensure it's fit for purpose, because it is certainly not currently fit for purpose. It may be a grade II listed building, and a beautiful building, but we've got to recognise that travel, and centres like that, are very important to the whole of the network that we are responsible for. My officials are in discussion with both Network Rail and the Department for Transport regarding the necessary improvements that are required at both the railway station and on the network in relation to potential control period 6 investment. It's very important that we continue to press those points, and I very much hope that I will have support, when the chair of the committee replies to the debate, for us to continue as a Government to support these points.

During last year's rugby matches, the Cardiff Fanzone was the busiest of all the Fanzone sites across the UK, surpassing its target for 100,000 visitors. There were over 650,000 spectator admissions at the stadium, and more than 150,000 people visited the zone. We have therefore emphasised the need for an improvement project to both Network Rail and the Department for Transport, to address the capacity constraints on both the number of trains and the numbers of passengers that the station can manage. Cardiff will continue to attract and host major events and it is important that the railway station is able to handle the large number of customers who wish to travel by rail to these events. The station must also have the capacity to manage the large increases we expect to see in passengers making daily regular journeys to and from the railway station, which is a point that Eluned Parrott was making about commuters in her contribution, and that is also an important aspect for us.

It's also important that the improved Cardiff Central Station is integrated into, and supports, the development of the enterprise zone, and is integrated into the wider transport needs within the city. Linked to the need for improvements at Cardiff Central, Network Rail and the UK Government need to ensure that we have the main line projects. Jenny Rathbone referred to Cardiff electrification and, of course, in Swansea, we're concerned for that electrification to go even further. The Cardiff area signal renewal scheme should be successfully delivered. We need all that to be delivered promptly so that we have the appropriate connectivity for the city.

Roedd yr argymhelliad arall a wnaed gan y pwyllgor, un rwy'n ei dderbyn mewn egwyddor, yn ymwneud â materion strwythurol mewn perthynas â gorsaf Caerdydd Canolog a'r gwelliannau angenrheidiol ar y rheilffyrdd. Hoffwn pe bawn wedi gallu derbyn yr argymhelliad, ond nid oes gennyf gyfrifoldeb yn y maes hwn, oherwydd nid yw'r seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli i ni. Serch hynny, rwy'n cydnabod bod angen gwelliannau sylweddol i'r orsaf reilffordd er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben, oherwydd yn sicr nid yw'n addas at y diben ar hyn o bryd. Efallai ei fod yn adeilad rhestredig gradd II, ac yn adeilad hardd, ond mae'n rhaid i ni gydnabod bod teithio, a chanolfannau o'r fath, yn bwysig iawn i'r holl rwydwaith rydym yn gyfrifol amdanynt. Mae fy swyddogion yn trafod gyda Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth ynghylch y gwelliannau angenrheidiol sydd eu hangen yn yr orsaf reilffordd ac ar y rhwydwaith mewn perthynas â buddsoddiad posibl yng nghyfnod rheoli 6. Mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau i bwysleisio'r pwyntiau hynny, ac rwy'n gobeithio'n fawr y byddaf yn cael cefnogaeth, pan fydd cadeirydd y pwyllgor yn ymateb i'r ddatl, er mwyn i ni barhau i gefnogi'r pwyntiau hyn fel Llywodraeth.

Yn ystod y gemau rygbi y llynedd, parth cefnogwyr Caerdydd oedd y prysuraf o'r holl barthau cefnogwyr ar draws y DU, gan ragori ar ei darged o 100,000 o ymwelwyr. Ymwelodd 650,000 o wylwyr â'r stadiwm, ac ymwelodd mwy na 150,000 o bobl â'r parth. Felly, rydym wedi pwysleisio'r angen am brosiect gwella wrth Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth, i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau capasiti ar nifer y trenau a nifer y teithwyr y gall yr orsaf ymdopi â hwy. Bydd Caerdydd yn parhau i ddenu a chynnal digwyddiadau mawr ac mae'n bwysig fod yr orsaf reilffordd yn gallu ymdopi â'r nifer fawr o gwsmeriaid sy'n dymuno teithio ar y tren i'r digwyddiadau hyn. Hefyd, mae'n rhaid i'r orsaf gael y capasiti i reoli'r cynnydd mawr y disgwylwn ei weld yn nifer y teithwyr a fydd yn teithio'n ddyddiol i ac o'r orsaf reilffordd, sy'n bwynt a wnaeth Eluned Parrott am gymudwyr yn ei chyfraniad, ac mae honno hefyd yn agwedd bwysig i ni.

Mae hefyd yn bwysig fod gorsaf Caerdydd Canolog ar ei newydd wedd yn cael ei hintegreiddio i mewn i ddatblygiad yr ardal fenter, ac yn ei chefnogi, ac yn cael ei hintegreiddio i mewn i'r anghenion trafnidiaeth ehangach yn y ddinas. Yn gysylltiedig â'r angen am welliannau yng ngorsaf Caerdydd Canolog, mae angen i Network Rail a Llywodraeth y DU sicrhau ein bod yn cael prosiectau'r brif linell reilffordd. Cyfeiriodd Jenny Rathbone at drydaneiddio Caerdydd ac wrth gwrs, yn Abertawe, rydym yn awyddus iawn i weld y trydanu'n mynd hyd yn oed ymhellach. Dylai cynllun adnewyddu signalau ardal Caerdydd gael ei gyflwyno'n llwyddiannus. Mae pawb ohonom angen i'r cynllun gael ei ddarparu'n brydlon er mwyn i ni gael cysylltiedd priodol ar gyfer y ddinas.

Transport considerations aside, Wales has seen some very positive knock-ons, I have to say, for the whole city, during the Rugby World Cup. An event report, published by the organisers, England 2015, said that the economic impact of the fixtures was something like £82 million. Well, that's a lot of money to come into the city. I'm very much taken that, as we continue to do this, we promote Cardiff and Wales, and we've got to ensure that cities are cleaned and tidied up if there's been an event. We need to ensure that everything, when everybody's gone away at midnight or 1 o'clock in the morning, looks immaculate when people are back in the city at 6 o'clock in the morning. Otherwise, we cannot market it, and that's got to be done. We see it successfully done in other European cities, and in clean-ups elsewhere in the UK, and I think one of the lessons from that is that if you have multiple events going on, it's a good thing, but you've got to be prepared to do it. And, when you look at the economic benefit of £82 million that's coming into the economy, you can certainly afford to put your house in order to ensure that is the case.

My senior officials continue to work with all transport service providers, and other stakeholders such as Cardiff city council and the stadium management team, to learn the lessons from the Rugby World Cup and apply them to future events, in particular, of course, the Champions League final, which will also be a test of whether any of the recommendations of the report are taken forward.

Could I also say to Members that I've appreciated all of the contributions across the piece about the importance of Cardiff in dealing with these issues? Because our aim is to ensure that visitors to Wales, for all major events, continue to enjoy a fantastic experience. We do not want any negativity about our ability to put on things. We've got a proud track record of putting on things and let us ensure that the recommendations of the committee are taken forward positively.

I will certainly make the UK Government aware of the concerns of this Chamber and the report, because they also have a role to play. The important thing is to look forward to the future, market appropriately and make sure that it's a very welcoming experience for everyone who comes to Cardiff and Wales for major events.

Ar wahân i'r ystyriaethau trafnidiaeth, cafwyd rhai sgileffeithiau cadarnhaol iawn i Gymru, rhaid i mi ddweud, ar gyfer y ddinas gyfan, yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd. Roedd adroddiad ar y digwyddiad, a gyhoeddwyd gan y trefnwyr, England 2015, yn dweud bod effaith economaidd y gemau oddeutu £82 miliwn. Wel, mae hynny'n llawer o arian i ddod i mewn i'r ddinas. Rwy'n awyddus iawn, wrth i ni barhau i wneud hyn, i'n gweld yn hyrwyddo Caerdydd a Chymru, ac mae'n rhaid i ni sicrhau bod dinasoedd yn cael eu glanhau a'u tacluso ar ôl digwyddiad o'r fath. Mae angen i ni sicrhau bod popeth, pan fydd pawb wedi mynd am hanner nos neu 1 o'r gloch y bore, yn edrych yn berffaith pan fydd pobl yn ôl yn y ddinas am 6 o'r gloch yn y bore. Fel arall, ni allwn ei marchnata, ac mae'n rhaid gwneud hynny. Rydym yn ei weld yn cael ei wneud yn llwyddiannus mewn dinasoedd eraill yn Ewrop, ac mewn gwaith glanhau mewn mannau eraill yn y DU, ac rwy'n credu mai un o'r gwersi o hynny yw os oes gennych ddigwyddiadau lluosog yn digwydd, mae'n beth da, ond mae'n rhaid i chi fod yn barod i'w wneud. A phan edrychwch ar fudd economaidd o £82 miliwn yn dod i mewn i'r economi, yn sicr gallwch fforddio cadw eich tŷ'n ddaclus er mwyn sicrhau mai felly y bydd hi.

Mae fy uwch swyddogion yn parhau i weithio gyda'r holl ddarparwyr gwasanaethau trafnidiaeth, a rhanddeiliaid eraill fel cyngor dinas Caerdydd a thîm rheoli'r stadiwm, i ddysgu'r gwersi o Gwpan Rygbi'r Byd a'u cymhwyso i ddigwyddiadau yn y dyfodol, yn arbennig, wrth gwrs, rownd derfynol Cynghrair y Pencampwyr, a fydd hefyd yn brawf i weld a ddatblygir unrhyw rai o argymhellion yr adroddiad.

A gaf fi ddweud hefyd wrth yr Aelodau fy mod wedi gwerthfawrogi pob un o'r cyfraniadau am bwysigrwydd ymdrin â'r materion hyn i Gaerdydd? Oherwydd ein nod yw sicrhau bod ymwelwyr â Chymru, ar gyfer pob digwyddiad o bwys, yn parhau i fwynhau profiad gwyb. Nid ydym am weld unrhyw agweddau negyddol mewn perthynas â'n gallu i gynnal digwyddiadau. Mae gennym hanes balch o gynnal digwyddiadau a gadewch i ni sicrhau bod argymhellion y pwyllgor yn cael eu datblygu mewn modd cadarnhaol.

Byddaf yn sicr yn gwneud Llywodraeth y DU yn ymwybodol o bryderon y Siambr hon a'r adroddiad, gan fod ganddynt hwythau hefyd rôl i'w chwarae. Y peth pwysig yw edrych ymlaen at y dyfodol, marchnata'n briodol a gwneud yn siŵr ei fod yn brofiad croesawgar iawn i bawb sy'n dod i ddigwyddiadau mawr yng Nghaerdydd a Chymru.

15:41 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I call on William Graham to reply to the debate.

Galwaf ar William Graham i ymateb i'r ddaidl.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:41 **William Graham** [Bywgraffiad Biography](#)

I'm most grateful to those who have taken part in the debate. As one can tell, there is a true consensus across the Chamber in what was a true and accurate description of what actually happened on that particular occasion.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r rhai a gymerodd ran yn y ddaidl. Fel y gallwch ddweud, mae yna gonsensws gwirioneddol ar draws y Siambr yn yr hyn a oedd yn ddisgrifiad gwir a chywir o'r hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd ar yr achlysur penodol hwnnw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Keith Davies started off with a very good quotation, of course, on the importance of football—being more than life and death. But it was a very good point in terms of social media. That was something that the Clerk and I considered before bringing it to committee—the suggestion that we should hold this one-day inquiry because so many people were remarking on the experience that they had and, sadly, it was not the best that we could offer.

Your remarks upon Railfuture Wales, of course, are well taken and we heard from them this morning yet again. The opening of Ninian Park, I think, has been considered by the train operators and by Network Rail and could form part of another plan for other events in the city, when not just the main stadiums are used.

Rhun ap Iorwerth reminded us particularly of the necessity of improved infrastructure and commented on investment and communication being so terribly important, and how consideration should also be given to the use of the lines by the freight operators and the way in which we heard in committee that, in fact, they were not told until very late in the day that there would be such a major event happening on those occasions.

The use of buses was also commented upon and we heard, as he remarked, that one of the things, again, was that they didn't ask the bus operators until rather late in the event. They were all available and could have taken far more people if they'd been told in good time.

Andrew Davies very rightly remarked upon the conduct of the fans. It was probably fortunate that it was a fine occasion and not in the winter period, and the general conduct of rugby fans is exemplary. We also heard, as Andrew remarked, that everybody was aware where people were coming from for those matches—95 per cent of the tickets sold principally to people coming from the east. Therefore, they were well aware that that action was required.

The road congestion—yes, that's certainly a very definite point. We heard that the queues on the M4 were some 14 miles long coming in, and your description of the unfortunate experience of one family nobody would wish to repeat. Let's hope that, as time goes on, the M4 relief road will make sure that that doesn't happen.

Jenny Rathbone reminded us of the electrification and how very important it is. She raised a good question about Queen Street. We did ask that and the answer was that they felt that, in terms of public safety, only one station should be used within the city. Whether they were right or wrong, I don't know, but that certainly was their answer to us.

As you rightly pointed out, during the consideration of control period 6, there will be immense competition and it is up to the Welsh Government, which I'm sure will take forward those considerations, to make an impression on Network Rail to outline the necessity for this work to be carried out at the earliest opportunity.

Dechreuodd Keith Davies gyda dyfyniad da iawn, wrth gwrs, am bwysigrwydd pêl-droed—a'i fod yn fwy na bywyd a marwolaeth. Ond roedd yn bwynt da iawn o ran y cyfryngau cymdeithasol. Roedd hynny'n rhywbeth a ystyriwyd gan y Clerc a minnau cyn ei gyflwyno i'r pwyllgor—yr awgrym y dylem gynnal yr ymchwiliad undydd hwn gan fod cymaint o bobl yn gwneud sylwadau ar y profiad a gawsant ac yn anffodus, nid oedd y gorau y gallem ei gynnig.

Rydym yn derbyn eich sylwadau ar Railfuture Cymru, wrth gwrs, a chlywsom ganddynt eto y bore yma. Mae cwmnïau trenau a Network Rail wedi ystyried agor gorsaf Parc Ninian, rwy'n meddwl, a gallai fod yn rhan o gynllun arall ar gyfer digwyddiadau eraill yn y ddinas, pan ddefnyddir mwy o leoliadau na'r prif stadiwm yn unig.

Cawsom ein hatgoffa'n benodol gan Rhun ap Iorwerth o'r angen i wella seilwaith a rhoddodd sylwadau ar bwysigrwydd enfawr buddsoddi a chyfathrebu, a sut y dylid ystyried y defnydd o'r rheilffyrdd gan y cwmnïau cludo nwyddau hefyd a'r ffordd y clywodd y pwyllgor na chawsant wybod tan yn hwyr iawn yn y dydd mewn gwirionedd y byddai digwyddiad mor fawr yn digwydd ar yr achlysuron hynny.

Cafwyd sylwadau ar y defnydd o fysiau hefyd a chlywsom, fel y dywedodd, mai un o'r pethau, unwaith eto, oedd na ofynnwyd i'r cwmnïau bysiau nes yn hwyr yn y digwyddiad braidd. Roeddent i gyd ar gael a gallent fod wedi cludo llawer mwy o bobl pe baent wedi cael gwybod mewn da bryd.

Roedd Andrew Davies yn gywir i sôn am ymddygiad y cefnogwyr. Efallai ei bod hi'n ffodus, mae'n debyg, ei bod yn ddiwrnod braf ac nid yn ystod y gaeaf, a bod ymddygiad cyffredinol cefnogwyr rygbi yn ganmoladwy. Clywsom hefyd, fel y dywedodd Andrew, fod pawb yn ymwybodol o ble y deuai pobl ar gyfer y gemau hynny—gwerthwyd 95 y cant o'r tocynnau yn bennaf i bobl a ddeuai o'r dwyrain. Felly, roeddent yn ymwybodol iawn fod angen rhoi camau ar waith.

Y tagfeydd ar y ffyrdd—oedd, roedd hwnnw'n sicr yn bwynt pendant iawn. Clywsom fod y ciwiau ar yr M4 oddeutu 14 milltir o hyd yn dod i mewn, a byddai eich disgrifiad o brofiad anffodus un teulu yn rhywbeth nad oes neb yn dymuno ei ailadrodd. Gadewch i ni obeithio, wrth i amser fynd heibio, y bydd ffordd liniaru'r M4 yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

Cawsom ein hatgoffa gan Jenny Rathbone am y trydaneiddio a pha mor bwysig ydyw. Gofynnodd gwestiwn da am orsaf Heol y Frenhines. Fe wnaethom ofyn hynny a'r ateb oedd eu bod yn teimlo, o ran diogelwch y cyhoedd, na ddylid defnyddio mwy nag un orsaf yn y ddinas. Nid wyf yn gwybod a oeddent yn gywir ai peidio, ond yn sicr dyna oedd eu hateb i ni.

Fel y dywedoch yn gywir ddigon, wrth ystyried cyfnod rheoli 6, bydd yna gystadleuaeth enfawr a mater i Lywodraeth Cymru, a fydd yn datblygu'r ystyriaethau hyn rwy'n siŵr, fydd gwneud argraff ar Network Rail i amlinellu'r rheidrwydd i wneud y gwaith hwn ar y cyfle cyntaf.

Eluned Parrott brought a slightly different beginning to her remarks. She was quite right: we had no intention of apportioning blame; we wanted to gain the facts to make the appropriate recommendations to Government. Her considerations also of other users was, I think, felt by the committee very strongly—that although it was a very important event for the city, ordinary people coming in and out of Cardiff should not have been dramatically inconvenienced by the fact that the event actually took place on that day. The point about the co-ordination of planning and the availability of land in the centre of any city was very well made.

Dafydd Elis-Thomas gave us some idea of the experience of his use of the station, and pointed out that other stations have been remarkably well modernised within recent years, and that the nature and connectivity of Cardiff Central station remains a barrier to what we are trying to achieve. Others remarked on Reading station, of course. Well, I think the costs there were well in excess of £700 million to provide an excellent venue. Now, we hope that, in time to come, certain moneys can be available and that Cardiff Central station can become, without reservation, recommended by all in terms of use for various events to be held in the city.

We're grateful to the Minister for accepting the recommendations of the committee. She did stress, very rightly, that we must be ready for the next event. So, there are significant works that are needed, both in terms of planning and communication. The point was made that everybody wants to know what's going on. At the point at which you have a delay, the first thing you want to know is when is the delay going to end. So information, and the communication of that information, remains vital. As she remarked, Network Rail is not devolved, and we are still hopeful that could be negotiated, and that would seem to be the way forward to making sure that Cardiff Central is fit for purpose. She again remarked on what will happen in CPG 6.

The remarks on the Fanzone were certainly of interest, and the capacity restraints must be reduced so that, on every other occasion, Cardiff can really show that it is an excellent experience for all who partake. The fact that there was over £80 million in economic benefit to the city really shows that this must be taken seriously for the future, and let us hope, when the next major event takes place in Cardiff with a large number of people, that Cardiff can pass it with flying colours.

Dechreuodd Eluned Parrott ei sylwadau mewn ffordd ychydig yn wahanol. Roedd hi'n hollol iawn: nid oedd gennym unrhyw fwriad o fwrw bai; roeddem yn awyddus i gael y ffeithiau er mwyn gwneud argymhellion priodol i'r Llywodraeth. Roedd yr hyn a ddywedodd am ddefnyddwyr eraill hefyd, rwy'n meddwl, yn rhywbeth y teimlai'r pwyllgor yn gryf iawn yn ei gylch—hynny yw, er ei fod yn ddigwyddiad pwysig iawn i'r ddinas, ni ddylai pobl gyffredin yn dod i mewn ac allan o Gaerdydd fod wedi dioddef anghyfleustra mor sylweddol yn sgil y ffaith fod y digwyddiad wedi'i gynnal ar y diwrnod hwnnw mewn gwirionedd. Gwnaed pwynt da ynglŷn â chydgyssylltu cynlluniau ac argaeledd tir yng nghanol dinas.

Rhoddodd Dafydd Elis-Thomas ryw syniad i ni o'i brofiad o ddefnyddio'r orsaf, a nododd fod gorsafedd eraill wedi'u moderneiddio yn hynod o dda yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a bod natur a chysylltedd gorsaf Caerdydd Canolog yn parhau i fod yn rhwystr i'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni. Soniodd eraill am orsaf Reading wrth gwrs. Wel, rwy'n meddwl bod y costau yno ymhell dros £700 miliwn ar ddarparu lleoliad gwyh. Nawr, rydym yn gobeithio, maes o law, y gellir sicrhau bod arian ar gael ac y gall gorsaf Caerdydd Canolog ddod, heb amheuaeth, yn lle a argymhellir gan bawb o ran ei ddefnydd ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau sydd i'w cynnal yn y ddinas.

Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am dderbyn argymhellion y pwyllgor. Fe bwysleisiodd, yn gywir iawn, fod yn rhaid i ni fod yn barod ar gyfer y digwyddiad nesaf. Felly, mae yna waith sylweddol sydd ei angen, o ran cynllunio a chyfathrebu. Gwnaed y pwynt fod pawb eisiau gwybod beth sy'n digwydd. Ar y pwynt lle y mae yna oedi, y peth cyntaf rydych am ei wybod yw pryd fydd yr oedi dod i ben. Felly mae gwybodaeth, a chyfathrebu'r wybodaeth honno, yn parhau i fod yn hanfodol. Fel y dywedodd, nid yw Network Rail wedi'i ddatganoli, ac rydym yn dal i fod yn obeithiol y gellid trafod hynny, a byddai'n ymddangos yn ffordd ymlaen ar gyfer sicrhau bod Caerdydd Canolog yn addas i'r diben. Soniodd eto am yr hyn a fydd yn digwydd yng nghyfnod rheoli 6.

Roedd y sylwadau ar y parth cefnogwyr yn sicr o ddi-ddordeb, ac mae'n rhaid lleihau'r cyfyngiadau capasiti er mwyn sicrhau bod Caerdydd, ar bob achlysur arall, yn gallu rhoi profiad gwyh i bawb mewn gwirionedd. Mae'r ffaith fod dros £80 miliwn wedi'i ennill mewn budd economaidd i'r ddinas yn dangos go iawn fod yn rhaid bod o ddifrif ynglŷn â hyn ar gyfer y dyfodol, a gadewch i ni obeithio, pan fydd y digwyddiad mawr nesaf yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd gyda nifer fawr o bobl, y gall Caerdydd lwyddo'n orchestol.

15:47

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Chair. The proposal is to note the Enterprise and Business Committee's report. Does any Member object? There are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Diolch, Gadeirydd. Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau. Felly, derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

| | | |
|-------|---|---|
| 15:47 | Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video |
| | <p>Now, before we move to the Stage 3 proceedings for the Nurse Staffing Levels (Wales) Bill, I will suspend proceedings for 15 minutes. The bell will be rung five minutes before we reconvene. There will only be one bell, and I would encourage Members to return to the Chamber promptly. Thank you.</p> | <p>Nawr, cyn i ni symud at drafodion Cyfnod 3 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru), rwy'n gohirio'r trafodion am 15 munud. Bydd y gloch yn cael ei chanu bum munud cyn inni ailymgynnull. Ni fydd ond un gloch, ac rwy'n annog yr Aelodau i ddod yn ôl i'r Siambr yn brydlon. Diolch.</p> |
| | <p><i>Gohiriwyd y Cyfarfod Llawn am 15:47.</i></p> | <p><i>Plenary was suspended at 15:47.</i></p> |
| | <p><i>Ailymgynnullodd y Cynulliad am 16:02, gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.</i></p> | <p><i>The Assembly reconvened at 16:02, with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.</i></p> |
| 16:02 | 5. Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) | Y Senedd.tv Fideo Video |
| | Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography | |
| | <p>Order, order. Our next item is the Stage 3 debate on the Nurse Staffing Levels (Wales) Bill.</p> | 5. Stage 3 Debate on the Nurse Staffing Levels (Wales) Bill |
| | Grŵp 1: Y Disgrifiad o Lefelau Staff Nyrsio (Gwelliannau 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 21, 22, 26, 32) | <p>Trefn, trefn. Ein heitem nesaf yw'r ddadl Cyfnod 3 ar y Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru).</p> |
| | | Group 1: The Description of Nurse Staffing Levels (Amendments 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 21, 22, 26, 32) |
| 16:02 | Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video |
| | <p>The first group of amendments relates to the description of nurse staffing levels. The lead amendment in this group is amendment 3. I call on Darren Millar to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.</p> | <p>Mae'r grŵp cyntaf o welliannau yn ymwneud â'r disgrifiad o lefelau staff nyrsio. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 3. Galwaf ar Darren Millar i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.</p> |
| | <p><i>Cynigiwyd gwelliant 3 (Darren Millar).</i></p> | <p><i>Amendment 3 (Darren Millar) moved.</i></p> |
| 16:02 | Darren Millar Bywgraffiad Biography | Senedd.tv Fideo Video |
| | <p>Thank you, Deputy Presiding Officer. I speak to amendments 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 21, 22, 26 and 32 tabled in my name. This legislation has taken an unnecessarily long time in getting to this Chamber today, due to Welsh Government Ministers dragging their feet as they sought to extract as much as they could from the Member in charge in exchange for her support. Well, I want to pay tribute to the Member in charge for her perseverance and patience, and for that of the Royal College of Nursing whose Time to Care campaign was the genesis of the legislation before us today.</p> <p>It's worth reminding Members in this Chamber that this legislation started out as a safe nurse staffing Bill, and I emphasise that word 'safe'. The driving force of the Member in charge, the Royal College of Nursing and other supporters of this Bill has been that the purpose of the legislation is to ensure that there are sufficient numbers of nurses deployed, and other healthcare workers, by the health service to ensure that safe care can be delivered to patients at all times. But in spite of this, at Stage 2 of the legislative process, the Welsh Government tabled amendments that have had the effect of removing entirely the words 'safe' and 'safely' from the Bill, including in its title.</p> | <p>Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n siarad am welliannau 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 21, 22, 26 a 32 a gyflwynwyd yn fy enw i. Mae'r ddeddfwriaeth hon wedi cymryd amser rhy hir i gyrraedd y Siambr heddiw, o ganlyniad i Weinidogion Llywodraeth Cymru yn llusgo'u traed wrth iddynt geisio cael cymaint ag y gallent gan yr Aelod sy'n gyfrifol yn gyfnewid am ei chefnogaeth. Wel, rwyf am dalu teyrnged i'r Aelod sy'n gyfrifol am ei dyfalbarhad a'i hamynedd, ac am ddyfalbarhad ac amynedd y Coleg Nyrsio Brenhinol yr arweiniodd ei ymgyrch Amser i Ofalu at y ddeddfwriaeth sydd ger ein bron heddiw.</p> <p>Mae'n werth atgoffa'r Aelodau yn y Siambr fod y ddeddfwriaeth hon wedi dechrau ei hoes fel Bil lefelau diogel staff nyrsio, a phwysleisiaf y gair 'diogel'. Yr hyn a sbardunodd yr Aelod sy'n gyfrifol, y Coleg Nyrsio Brenhinol a chefnogwyr eraill y Bil oedd mai diben y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod nifer digonol o nyrsys a gweithwyr gofal iechyd eraill yn cael eu lleoli gan y gwasanaeth iechyd i sicrhau y gellir darparu gofal diogel i gleifion bob amser. Ond er gwaethaf hyn, yn ystod Cyfnod 2 y broses ddeddfwriaethol, cyflwynodd Llywodraeth Cymru welliannau sydd wedi arwain at ddileu yn gyfan gwbl y geiriau 'diogel' ac 'yn ddiogel' o'r Bil, gan gynnwys o'i deitl.</p> |

All of the amendments in this group that I have tabled seek to insert those words back on to the face of the Bill. And I believe that in doing so, it would send a very loud and clear message to Welsh patients, nurses and health boards about the primary purpose of this Bill. I tabled a similar series of amendments in response to Welsh Government amendments at Stage 2, and in response to those amendments the health Minister claimed that the inclusion of the words 'safe' or 'safely' in law would give rise to inherent difficulties, as defining such words was difficult. He argued that trying to establish a legally secure definition of 'safe' or 'safely' would be impossible, and that it's a term that is not frequently used in legislation. But the facts fly in the face of his position. Indeed, the chief nursing officer's non-statutory guidance to health boards in Wales, the all-Wales nurse staffing principles, implemented in April 2013, is littered with the words 'safe' and 'safely' to describe the staffing levels that she recommends. Third party organisations also clearly understand the concept of 'safe', with the Royal College of Nursing, the British Medical Association, Unison and Professor Dame June Clark of Swansea University all seemingly being able to understand what 'safe' and 'safely' mean. In terms of the word 'safe' not being widely used in legislation, this was a surprising argument for the Minister because, of course, 'safe' is a word that appears 408 times in a search of legislation that was undertaken by the Members' Research Service, including, of course, in the much maligned health and safety legislation that we often hear about, the Airports Act 1986 and the Children Act 1989.

But, of course, it's not just in UK Parliament Acts; it also appears in the Welsh Government's own legislation too. Section 4 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 refers to a goal of 'a Wales of cohesive communities', and it then goes on to describe them as, and I quote,

'Attractive, viable, safe and well-connected communities'.

So, it's a word that the Welsh Government has used in legislation in the past. It's a word and concept that many people working in the health service are already very familiar with. Safety is a concept that the public readily understands, and I think that the failure to use these terms by the Welsh Government in their amendments at Stage 2 undermines the principal aim of this legislation. So, my amendments seek to put this word back on to the face of the Bill, and I very much hope that Members will support them.

Mae pob un o'r gwelliannau yn y grŵp hwn a gyflwynais yn ceisio mewnosod y geiriau hynny'n ôl ar wyneb y Bil. Ac rwy'n credu y byddai gwneud hynny'n cyfleu neges glir iawn i gleifion, nyrsys a byrddau iechyd Cymru ynglŷn â phrif bwrpas y Bil hwn. Cyflwynais gyfres debyg o welliannau mewn ymateb i newidiadau Llywodraeth Cymru yng Nghyfnod 2, ac mewn ymateb i'r gwelliannau hynny honnodd y Gweinidog Iechyd fod cynnwys y geiriau 'diogel' neu 'yn ddiogel' yn y gyfraith yn peri anawsterau cynhenid, gan fod diffinio geiriau o'r fath yn anodd. Dadleuodd fod ceisio sefydlu diffiniad cadarn yn gyfreithiol o 'diogel' neu 'yn ddiogel' yn amhosibl, a'i fod yn derm na chaiff ei ddefnyddio'n aml mewn deddfwriaeth. Ond mae'r ffeithiau'n gwrth-ddweud ei safbwynt. Yn wir, mae canllawiau anstatudol y prif swyddog nyrsio i fyrdau iechyd yng Nghymru, egwyddorion staffio nyrsys Cymru gyfan, a roddwyd mewn grym ym mis Ebrill 2013, yn frith o'r geiriau 'diogel' ac 'yn ddiogel' i ddisgrifio'r lefelau staffio a argymhellid ganddi. Mae sefydliadau trydydd parti hefyd yn deall yn glir y cysyniad o 'diogel', gyda'r Coleg Nyrsio Brenhinol, Cymdeithas Feddygol Prydain, Unsain a'r Athro Fonesig June Clark o Brifysgol Abertawe i gyd yn ôl pob golwg yn gallu deall beth y mae 'diogel' ac 'yn ddiogel' yn ei olygu. O ran y ffaith nad yw'r gair 'diogel' yn cael ei ddefnyddio'n eang mewn deddfwriaeth, roedd hon yn ddadl ryfedd gan y Gweinidog oherwydd, wrth gwrs, mae 'diogel' yn air sy'n ymddangos 408 o weithiau mewn chwiliad o ddeddfwriaeth a wnaed gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, gan gynnwys, wrth gwrs, yn y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a ddiffriwyd yn fawr y clywn amdani'n aml, Deddf Meysydd Awyr 1986 a Deddf Plant 1989.

Ond wrth gwrs, nid yn Neddffau Senedd y DU yn unig y mae'n digwydd; mae'n ymddangos hefyd yn neddfwriaeth Llywodraeth Cymru ei hun. Mae adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cyfeirio at y nod o 'Gymru o gymunedau cydlynus', ac yna mae'n mynd rhagddi i'w disgrifio fel, a dyfynnaf,

'Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da'.

Felly, mae'n air y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddefnyddio mewn deddfwriaeth yn y gorffennol. Mae'n air ac yn gysyniad y mae llawer o bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd eisoes yn gyfarwydd iawn ag ef. Mae diogelwch yn gysyniad y mae'r cyhoedd yn ei ddeall yn rhwydd, ac rwy'n meddwl bod methiant Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r termau hyn yn eu gwelliannau yng Nghyfnod 2 yn tansellio prif nod y ddeddfwriaeth hon. Felly, mae fy ngwelliannau yn ceisio rhoi'r gair hwn yn ôl ar wyneb y Bil, ac rwy'n gobeithio'n fawr y bydd yr Aelodau yn eu cefnogi.

16:06

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Lywydd. Byddaf i'n siarad o blaid y gwelliannau yn enw Darren Millar yn y grŵp yma. Fe fydd fy sylwadau i yn weddol debyg i'r rhai sydd wedi cael eu gwneud gan Darren Millar eisoes, ond bydd fy nhôn i damaid bach yn wahanol o bosib.

Thank you, Presiding Officer. I will be speaking in favour of the amendments in the name of Darren Millar in this group. My comments will be relatively similar to the ones that have just been made by Darren Millar, but my tone will perhaps be slightly different.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

A gaf i, yn gyntaf, longyfarch yr Aelod a oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r ddeddfwriaeth yma am ddewis y pwnc pwysig yma yn y lle cyntaf, a llongyfarch yr RCN hefyd, sydd wedi bod yn weithgar yn hyrwyddo'r ddeddfwriaeth yma, a'r holl dystion a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor? Wrth i fi feddwl yn ôl at y dystiolaeth hynny, y thema fwyaf trawiadol i fi oedd y dystiolaeth gan June Andrews, a gafodd ei hadleisio gan eraill yn y cyfnod tystiolaeth, pan ddywedwyd fod y nyrs ar ward yn aml yn ddi-rym—heb rym ar ward—a phan fod nyrs yn meddwl bod lefel nyrsio ar unrhyw ward yn annogel ac yn annigonol, yna roedd hi'n rhy hawdd i lais y nyrs gael ei anwybyddu gan reolwyr. Dyna oedd y thema, y neges, a oedd yn dod atom ni'n gyson fel rhan o'r dystiolaeth.

Roedd y ddeddfwriaeth wreiddiol a osodwyd gan yr Aelod yn ei gwneud hi'n ofyniad statudol i fwrdd iechyd sicrhau lefel saff o nyrsio ar ward, ac felly yn rhoi y grym, am y tro cyntaf, i lais y nyrs—y grym, a chefnogaeth cyfraith gwlad i nyrsys ein wardiau ni. Ers hynny, wrth gwrs, fel y mae Darren Millar wedi ei amlinellu, mae gwelliannau'r Gweinidog wedi ailysgrifennu'r Mesur yn helaeth a'i lastwreiddio yn sylweddol hefyd. Mae pob cyfeiriad at lefelau diogel o staffio wedi'u tynnu allan, gan gynnwys yn nheitl y Mesur, ac mae'r Mesur heddiw sydd o'n blaenau ni yn wahanol iawn i'r un gwreiddiol a gyflwynwyd.

Yn wir, mae'n teimlo braidd fy mod i wedi bod yn gwyllo gêm tennis wrth fynd drwy gyfnodau sgrwtineiddio'r ddeddfwriaeth yma. Yng Nghyfnod 1, roedd pob cyfeiriad at lefelau staffio diogel yn y ddeddfwriaeth o'n blaenau ni; yng Nghyfnod 2, roedd pob cyfeiriad at lefelau nyrsio diogel yn cael eu tynnu allan drwy welliannau; ac yng Nghyfnod 3, sef heddiw, mae'r gwelliannau yna i gyd yn ôl eto i ailgyflwyno pob cyfeiriad at lefelau staffio diogel.

Fe fyddaf i heddiw yn cefnogi'r gwelliannau hynny. Fe ges i fy mherswadio yn ystod Cyfnod 1 fod y systemau ymarferol mewn lle i bennu 'ratio' diogel ar unrhyw ward ar unrhyw gyfnod, ac felly bod y ddeddfwriaeth wreiddiol, gyda chyfeiriad penodol at lefelau saff o staffio, yn ymarferol i'w chyflwyno. Felly, brynhawn yma, fe fyddaf i'n cefnogi'r gwelliannau yn y grŵp yma.

If I may first of all congratulate the Member in charge of this legislation for selecting this important topic in the first place, and also congratulate the RCN, which has also been very active in promoting this legislation, and all of the witnesses who provided evidence to the committee. As I think back to that evidence, the most prominent theme, and what struck me most, was the evidence from June Andrews, which was echoed by others, during our evidence-gathering stage, when we were told that a nurse on a ward is often powerless, and when a nurse believes that the nursing level on any ward is unsafe or inadequate, then it is all too easy for the voice of the nurse to be ignored by managers. That was the theme, the message, that emerged consistently as we gathered evidence.

The original legislation tabled by the Member made it a statutory requirement for a health board to ensure a safe nurse staffing level on wards, and therefore did, for the first time, give some force to the voice of the nurse—force and support in statute to nurses on our wards. Since then, of course, as Darren Millar has outlined, the Minister's amendments have largely rewritten the Bill and have diluted it to a great extent. All references to safe nurse staffing levels have been removed, including in the title of the Bill, and the Bill before us today is very different to the original Bill tabled.

Indeed, I felt on occasion that I had been watching some sort of tennis match when going through the scrutiny periods of this legislation. In Stage 1, all references to safe staffing levels were included; in Stage 2 all references to safe staffing levels were removed through amendments; and in Stage 3, today, all of those amendments have been resubmitted to reintroduce all references to safe nurse staffing levels.

Today, I will be supporting those amendments. I was persuaded during Stage 1 that the practical systems are in place to set a safe staffing ratio on any ward at any time, and therefore that the original legislation, with specific reference to safe nurse staffing levels, was practically implementable. Therefore, this afternoon, I will be supporting the amendments in this group.

16:09 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Altaf Hussain.

Altaf Hussain.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:09 **Altaf Hussain** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer, for the opportunity to discuss this important piece of legislation. I would also like to thank the Member in charge, Kirsty Williams, for bringing forward this Bill.

Diolch am y cyfle, Ddirprwy Lywydd, i drafod y ddeddfwriaeth bwysig hon. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Aelod sy'n gyfrifol, Kirsty Williams, am gyflwyno'r Bil hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There have been many changes to the Bill since it was first introduced, but the most worrying change was the removal of the word 'safe' from the legislation. The patient should be the most important consideration in all of this. When nursing staff are overstretched and overworked, it is the patient who suffers. Mistakes happen and there is a lack of care when there is an insufficient number of nurses. It is vital that those planning nursing levels ensure that there are sufficient nursing staff to cover the number of patients, thus allowing them time to care.

Bu llawer o newidiadau i'r Bil ers iddo gael ei gyflwyno gyntaf, ond y newid a achosodd fwyaf o bryder oedd cael gwared ar y gair 'diogel' o'r ddeddfwriaeth. Y claf ddylai fod yn ystyriaeth bwysig yn hyn oll. Pan fydd staff nyrsio dan bwysau ac yn gorweithio, y claf sy'n dioddef. Mae camgymeriadau'n digwydd a cheir diffyg gofal pan na cheir digon o nyrsys. Mae'n hanfodol fod y rhai sy'n cynllunio lefelau nyrsio yn sicrhau bod digon o staff nyrsio ar gyfer nifer y cleifion, gan ganiatáu amser iddynt allu gofalu.

I was concerned that the Welsh Government sought to undermine the purpose of this legislation by removing any reference to the term 'safe' or 'safely' from the face of this Bill. I will, therefore, be supporting the amendments put forward by Darren Millar. The safety of the patient should be integral to the national health service in Wales, and, given the likelihood that the Government will reject this group of amendments, I would like to appeal directly to nurses working in our NHS. Nurses have an obligation to safeguard, respect and actively promote a patient's health rights at all times.

We all have obligations under the Human Rights Act 1998 and nurses are accountable for their action in protecting patients' human rights. When a nurse faces a conflict between their professional duties and fulfilling their obligation to their employer, their primary responsibility is to those in their care—that is, their patients.

We also have to consider the human rights of the nurse. The Royal College of Nursing makes it clear that nurses should be able to carry out their professional duties in a safe working environment without violence and intimidation. A nurse should be able to refuse to work in a situation that puts patient care at risk. They should be free to do so without fear of reprisal and not bullied into working in a situation that they feel will undermine patient safety. Ministers must put in place a process that allows a member of nursing staff to escalate their concerns and not be penalised for refusing to participate in unsafe practices. Our nurses are the backbone of the NHS, but if we, the decision makers, fail to listen to their concerns and continue to allow the understaffing of wards, we will have a demoralised profession and we will jeopardise patient safety.

I disagree with the Minister's view that we can't use the term 'safe' on the face of this Bill. If the Welsh Government can't ensure patient safety, I urge our dedicated, hardworking nurses to stand up for patient rights and safety. Thank you.

Roeddwn yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn ceisio tanseilio diben y ddeddfwriaeth hon drwy ddileu unrhyw gyfeiriad at y term 'diogel' neu 'yn ddiogel' oddi ar wyneb y Bil hwn. Byddaf, felly, yn cefnogi'r gwelliannau a gyflwynodd Darren Millar. Dylai diogelwch y claf fod yn rhan annatod o'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, ac o ystyried y tebygolrwydd y bydd y Llywodraeth yn gwrthod y grŵp hwn o welliannau, hoffwn apelio'n uniongyrchol at y nyrsys sy'n gweithio yn ein GIG. Mae gan nyrsys rwymedigaeth i ddiogelu, parchu a mynd ati i hyrwyddo hawliau iechyd claf bob amser.

Mae gennym i gyd rwymedigaethau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ac mae nyrsys yn atebol am eu gweithredu wrth ddiogelu hawliau dynol cleifion. Pan fydd nyrs yn wynebu gwrthdaro rhwng dyletswyddau proffesiynol a chyflawni eu rhwymedigaethau i'w cyflogwr, eu prif gyfrifoldeb yw'r rhai yn eu gofal—hynny yw, eu cleifion.

Rhaid i ni hefyd ystyried hawliau dynol y nyrs. Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol yn ei gwneud yn glir y dylai nyrsys allu cyflawni eu dyletswyddau proffesiynol mewn amgylchedd gwaith diogel heb drais a bygythiadau. Dylai nyrs allu gwrthod gweithio mewn sefyllfa sy'n rhoi gofal cleifion mewn perygl. Dylent fod yn rhydd i wneud hynny heb ofni dial a pheidio â chael eu bwlio i weithio mewn sefyllfa y teimlant y bydd yn tanseilio diogelwch cleifion. Rhaid i Weinidogion sefydlu proses sy'n caniatáu i aelod o'r staff nyrsio uwchgyfeirio'u pryderon ac nid eu cosbi am wrthod cymryd rhan mewn arferion annigol. Ein nyrsys yw asgwrn cefn y GIG, ond os ydym ni, y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, yn methu â gwrando ar eu pryderon ac yn parhau i ganiatáu lefelau staffio annigonol ar wardiau, bydd gennym broffesiwn wedi'i wanaloni a byddwn yn peryglu diogelwch cleifion.

Rwy'n anghytuno â barn y Gweinidog na allwn ddefnyddio'r term 'diogel' ar wyneb y Bil hwn. Os na all Llywodraeth Cymru sicrhau diogelwch cleifion, rwy'n annog ein nyrsys ymroddedig, gweithgar i sefyll dros hawliau a diogelwch cleifion. Diolch.

16:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister.

Galwaf ar y Gweinidog.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:13 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Can I, as well, begin by thanking the Member in charge and all the members of the Health and Social Care Committee for their work on this Bill to date? We had a very complex, but interesting and engaged Stage 2 set of debates, and I look forward to completion of the work began there during the rest of this afternoon.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi hefyd ddechrau drwy ddiolch i'r Aelod sy'n gyfrifol a holl aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am eu gwaith ar y Bil hwn hyd yn hyn? Cawsom gyfres o ddadleuon Cyfnod 2 hynod o gymhleth, ond diddorol a buddiol, ac edrychaf ymlaen at gwblhau'r gwaith a ddechreuwyd yno yn ystod gweddill y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

As Members have heard, all the amendments in this group are, essentially, aimed at putting the term 'safe' or 'safely' back into the Bill. I explained at Stage 2 that the advice that I had received from those whose expertise is in drafting the law, was that the word 'safe' in the text of a Bill before this Assembly was fraught with difficulty and ought to be resisted. In the light of the debate that was held in the Health and Social Care Committee, I asked my officials to ensure that the advice was revisited and it was. And the advice provided to me has not changed.

We've heard again today the idea that the word 'safe' is used in a widespread way in primary legislation. The distinguishing feature here, however, is that, where the word 'safe' is to be found in primary legislation, then it is always where the word carries its natural meaning and where it is clear from the context what is meant by the term. It has not required further definition. The way in which this Bill is constructed would mean that if we had the word 'safe' in it, it would imply a hard and fast, legally enforceable boundary existing between nurse staffing levels that are 'safe' and those that, if they're not exactly that, become by definition 'unsafe'. And that simply cannot be the case. No clinical setting can ever be completely free from danger; the nature of the services and interventions provided will always carry a certain degree of risk.

In a health context, therefore, 'safe' or 'safely' would have to be defined as a reduction in harm rather than a complete absence of harm. Take, for example, a patient with acute pancreatitis who is at serious risk of multi-organ failure. No matter how many staff are on duty in a ward, no-one can give a cast-iron guarantee that the patient will be safe at all times. It's inherent in the nature of their illness that such a guarantee could not be given. If we were to use the word 'safe', then in this Bill it would be necessary to identify not only who was made safe by the nurse staffing level, but in what sense and from what. Not only would this be difficult to demarcate, the extent to which the nursing care a patient receives contributes to the 'safety' of the patient will vary greatly depending on their condition and other circumstances of their care. Acute medical and surgical wards are staffed by real people trying to make the best decisions in the situations with which they are presented. The significance of this Bill is that the use of a triangulated approach to set staffing, in the prescribed settings, is embodied within the law. This method is what makes the difference, not the words 'safe' or 'safely'.

During the Stage 2 debate, the Member in charge said that she believed that practical benefits would be realised from the Bill as amended, and that a word in itself would not make the difference to staff and patients. She also said that healthcare professionals had told her that they thought that the Bill would make

'a real concrete difference to patients and nurses on the front line.'

And I agree with that sentiment.

Fel y clywodd yr Aelodau, nod yr holl welliannau yn y grŵp hwn, yn y bôn, yw rhoi'r term 'diogel' neu 'yn ddiogel' yn ôl i mewn yn y Bil. Esboniais yng Nghyfnod 2 mai'r cyngor a gefais gan y rhai sy'n arbenigo ar ddrafftio'r gyfraith, oedd bod anawsterau lu yn codi o'r gair 'diogel' yn nhestun y Bil sydd gerbron y Cynulliad ac y dylid ei wrthwynebu. Yng ngoleuni'r ddadl a gafwyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gofynnais i fy swyddogion sicrhau ein bod yn ailystyried y cyngor a gwnaed hynny. Ac nid yw'r cyngor a roddwyd i mi wedi newid.

Clywsom heddiw eto y syniad fod y gair 'diogel' yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gyffredinol mewn deddfwriaeth sylfaenol. Y nodwedd arbennig yma, fodd bynnag, yw bod y gair 'diogel', pan y'i gwelir mewn deddfwriaeth sylfaenol, bob amser yn digwydd lle y mae i'r gair ei ystyr naturiol a lle y bo'n glir o'r cyd-destun beth y mae'r term yn ei olygu. Nid yw wedi galw am ddiffiniad pellach. Byddai'r modd y lluniwyd y Bil hwn yn golygu, pe bai gennym y gair 'diogel' ynddo, y byddai'n awgrymu bod ffin gadarn a phendant, y gellid ei gorfodi'n gyfreithiol yn bresennol rhwng lefelau staff nyrsio sy'n 'ddiogel' a'r rhai sydd, os nad ydynt yn union hynny, yn dod drwy ddiffiniad yn 'anniogel'. Ac yn syml iawn, ni all hynny ddigwydd. Ni all yr un lleoliad clinigol byth fod yn gwbl rydd o berygl; bydd natur y gwasanaethau a'r ymyriadau a ddarperir bob amser â rhywfaint o risg ymhlyg ynddynt.

Mewn cyd-destun iechyd, felly, byddai'n rhaid diffinio 'diogel' ac 'yn ddiogel' fel gostyngiad yn y niwed yn hytrach nag absenoldeb niwed yn llwyr. Er enghraifft, claf sy'n dioddef o bancreatitis aciwt sydd mewn perygl difrifol o ddioddef methiant organau lluosog. Ni waeth faint o staff sydd ar ddyletswydd mewn ward, ni all neb rhoi gwarant bendant y bydd y claf yn ddiogel bob amser. Mae'n rhan o natur eu salwch na ellid rhoi gwarant o'r fath. Pe baem yn defnyddio'r gair 'diogel', yna yn y Bil hwn byddai angen nodi nid yn unig pwy fyddai'n cael eu gwneud yn ddiogel gan lefelau staff nyrsio, ond ym mha ystyr a rhag beth. Byddai hyn nid yn unig yn anodd ei ddiffinio, byddai i ba raddau y mae'r gofal nyrsio y bydd claf yn ei gael yn cyfrannu at 'ddiogelwch' y claf yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar eu cyflwr ac amgylchiadau eraill yn ymwneud â'u gofal. Pobl go iawn yn ceisio gwneud y penderfyniadau gorau yn y sefyllfaoedd y maent yn eu hwynebu sy'n staffio wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt. Arwyddocâd y Bil hwn yw bod y defnydd o ddull trionglog i osod lefelau staffio yn y lleoliadau rhagnodedig yn cael ei ymgorffori yn y gyfraith. Y dull hwn sy'n gwneud y gwahaniaeth, nid y geiriau 'diogel' ac 'yn ddiogel'.

Yn ystod y ddadl Cyfnod 2, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol ei bod yn credu y byddai manteision ymarferol yn cael eu gwireddu o'r Bil fel y'i diwygiwyd, ac na fyddai gair ynddo'i hun yn gwneud gwahaniaeth i staff a chleifion. Dywedodd hefyd fod gweithwyr proffesiynol gofal iechyd wedi dweud wrthi eu bod yn meddwl y byddai'r Bil yn gwneud

'a real concrete difference to patients and nurses on the front line.'

Ac rwy'n cytuno â hynny.

Let me say this to the Member who moved these amendments: this afternoon in this Chamber, we are making the law. We are not debating an issue, we are not passing a resolution, and we're not writing a policy paper or even a set of advice. The unequivocal advice that I have received from those with the expertise to give it is that the inclusion of the word 'safe' as proposed by these amendments would not make good law and I ask Members to reject them.

Gadewch i mi ddweud hyn wrth yr Aelod a gynigiodd y gwelliannau hyn: y prynhawn yma yn y Siambr, rydym yn gwneud cyfraith. Nid ydym yn trafod problem, nid ydym yn gwneud penderfyniad, ac nid ydym yn ysgrifennu papur polisi na chyfres o gynghorion hyd yn oed. Y cyngor diamwys a gefais gan y rhai sydd â'r arbenigedd i'w roi yw na fyddai cynnwys y gair 'diogel' fel y mae'r gwelliannau hyn yn ei gynnig yn gwneud cyfraith dda a gofynnaf i'r Aelodau eu gwrthod.

16:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Member in charge, Kirsty Williams.

Galwaf ar yr Aelod sy'n gyfrifol, Kirsty Williams.

16:18 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, Deputy Presiding Officer. As we begin this afternoon's proceedings, could I put on record my thanks to the Bill team who has supported me superbly through this long and involved process? Their expertise, tenacity and patience with me are much appreciated, as is the work of my colleagues on the Health and Social Care Committee, who spent a considerable amount of time in their agendas devoted to this issue. But, most of all, I would like to thank nurses, past and present, who have been instrumental in getting the Bill to this stage. I am grateful for their witness and their testimony about how important the legislation is before us today.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Wrth i ni ddechrau trafodion y prynhawn yma, a gaf fi gofnodi fy niolch i dîm y Bil sydd wedi fy nghefnogi'n wych drwy'r broses hir ac ymglymedig hon? Mae eu harbenigedd, eu dycnwch a'u hamynedd gyda mi yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, fel y mae gwaith fy nghyd-Aelodau ar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a neilltuodd gryn dipyn o'u hamser i'r mater hwn. Ond yn bennaf oll, hoffwn ddiolch i niysys, y gorffennol a'r presennol, a fu'n allweddol yn y broses o sicrhau bod y Bil yn cyrraedd y cam hwn. Rwy'n ddiolchgar am eu tystiolaeth ynglŷn â pha mor bwysig yw'r ddeddfwriaeth ger ein bron heddiw.

I welcome amendments 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 21, 22, 26 and 32, which would reinsert the term 'safe' into the Bill. I welcome them, if not the tone of the Member who has proposed them. What has signified the debates in the health committee over this issue has been the very sober nature and the very careful and considered nature of the consideration that we have given to the contents of the Bill, and I hope that we can do that again this afternoon.

Rwy'n croesawu gwelliannau 3, 4, 6, 7, 8, 9, 10, 12, 13, 14, 15, 16, 21, 22, 26 a 32, a fyddai'n ailgynnwys y term 'diogel' yn y Bil. Rwy'n eu croesawu hwy, er nad wyf yn croesawu goslef yr Aelod a'u cynigodd. Yr hyn a fu'n amlwg yn y dadleuon yn y pwyllgor iechyd ynglŷn â'r mater hwn oedd natur ddifrifol iawn a natur ofalus ac ystyriol iawn yr ystyriaeth a roesom i gynnwys y Bil, ac rwy'n gobeithio y gallwn wneud hynny eto y prynhawn yma.

For clarity, I do not believe that these amendments are critical to the success of the Bill, because regardless of whether the text of the Bill includes the term 'safe', this legislation will fundamentally still be about the delivery of safe levels of nurse staffing in Wales. The Member who proposed the amendments was not accurate when he said that this was the initial title of the Bill. The initial title of the Bill was Minimum Nurse Staffing Levels (Wales) Bill, and it was changed in response to the consultation exercise that was carried out.

Er eglurder, nid wyf yn credu bod y gwelliannau hyn yn hanfodol i lwyddiant y Bil, oherwydd pa un a yw testun y Bil yn cynnwys y term 'diogel' ai peidio, bydd y ddeddfwriaeth hon yn ei hanfod yn dal i ymwneud â chyflwyno lefelau diogel o staff nyrsio yng Nghymru. Nid yw'r Aelod a gynigiodd y gwelliannau yn gywir pan ddywedodd mai dyma oedd teitl gwreiddiol y Bil. Teitl cychwynnol y Bil oedd Bil Isafswm Lefelau Staffio Nyrsys (Cymru), ac fe'i newidiwyd mewn ymateb i'r ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd.

In consideration of the legislation before us today, I do not believe that it is the word 'safe' alone that will make the difference to the experience of Welsh patients and Welsh nurses. It will be the triangulated approach that is outlined in the Bill of ratios, acuity tools and the professional judgment of the nurse in charge of the ward who will, indeed, Altaf Hussain, have the opportunity to escalate matters if they do not believe that they have been able to meet the adequate staffing levels on their wards.

Wrth ystyried y ddeddfwriaeth ger ein bron heddiw, nid wyf yn credu mai'r gair 'diogel' ar ei ben ei hun a fydd yn gwneud y gwahaniaeth i brofiad cleifion o Gymru a niysys yng Nghymru. Yr hyn a fydd yn gwneud hynny fydd y dull gweithredu trionglog a amlinellir yn y Bil o gymarebau, offer aciwtedd a chrebwyll proffesiynol y nyrs â gofal am y ward a fydd, yn wir, Altaf Hussain, yn cael cyfle i uwchraddio materion os na chredant eu bod wedi gallu sicrhau lefelau staff digonol ar eu wardiau.

Let me be absolutely clear to Members in this Chamber and to those outside, watching the debate: it is those mechanisms that will ensure that we have the safe number of staff on our hospital wards. I must say, Deputy Presiding Officer, on this occasion, if I may quote Voltaire, I refuse to let perfect be the enemy of the good. However, I do believe that using the term 'safe' would provide greater transparency and public understanding of the Bill's intention. The term 'safe' was strongly supported in the evidence that both I and the Health and Social Care Committee received in the course of the three consultations that I have been through in this process.

Now, one of the Ministers stated concerns during Stage 2 proceedings—and we have heard again today from him—that no clinical setting can ever be completely free from danger and, consequently, trying to establish a legally secure definition of 'safe' or 'safely' in such terms would be impossible. Of course, the Minister is absolutely right: no clinical setting can ever be completely free of danger. The Minister has also expressed concerns that if a patient had a particular serious illness—today, he has used the example of pancreatitis—no matter how many nursing staff were on duty on a ward, that patient could not be regarded as being safe from potential ravages of the illness that afflicts them. As such, he has expressed concerns about the unintended consequences of using the term 'safe'.

Now, in my opinion—and I'm sure the Minister will be critical—this is a question of trust. I trust that no court, no reasonably minded person, would think that a safe level of nurse staffing meant that a patient was perfectly safe from whatever illness caused them to go into hospital in the first place. For the same reason, the Health Act 2006 refers to the safe, appropriate and effective management and use of controlled drugs, because no reasonably minded person would think that the careful management of controlled drugs automatically meant that a patient was safe from the effects of illness or of injury. That's why numerous pieces of legislation, passed both here in the Assembly and in other legislatures, use the term 'safe'.

A safe level of nurse staffing isn't absolutely about protecting a patient from all possible risk of harm. Rather, what I am attempting to do is about meeting required care needs and protecting people from missed care and avoidable harm. Achieving those aims is the most important thing, and despite what I have just said, I do believe that the Bill will achieve them regardless of whether it is amended to explicitly use the term 'safe'. I was pleased that, during the Stage 2 proceedings, the Minister and I were of the same mind in relation to the impact of the Bill. The Minister has re-stated those principles here this afternoon. But laws should be accessible to the people who live by them and, as such, I believe it would be a missed opportunity not to clearly and transparently tell the people of Wales that safe levels of nurse staffing are at the heart of this piece of legislation.

Gadewch i mi fod yn gwbl glir wrth yr Aelodau yn y Siambur hon ac i'r rheini y tu allan sy'n gwyllo'r ddadl: y mecanweithiau hynny a fydd yn sicrhau bod gennym nifer ddiogel o staff ar wardiau ein hysbytai. Rhaid i mi ddweud, Ddirprwy Lywydd, ar yr achlysur hwn, os caf ddyfynnu Voltaire, rwy'n gwrthod gadael i berffeithrwydd fod yn elyn i'r da. Fodd bynnag, rwy'n credu y byddai defnyddio'r term 'diogel' yn darparu mwy o dryloywder a dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd o fwriad y Bil. Cefnogwyd y term 'diogel' yn gryf yn y dystiolaeth a gefais i a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y tri ymgynghoriad y bŵm drwyddyt yn ystod y broses hon.

Nawr, soniodd un o'r Gweinidogion am bryderon yn ystod trafodion Cyfnod 2—ac rydym wedi clywed ganddo eto heddiw—na all unrhyw leoliad clinigol byth fod yn gwbl rydd rhag perygl ac o ganlyniad, byddai ceisio sefydlu diffiniad cadarn yn gyfreithiol o 'diogel' neu 'yn ddiogel' mewn termau o'r fath yn amhosibl. Wrth gwrs, mae'r Gweinidog yn hollol gywir: ni all unrhyw leoliad clinigol byth fod yn gwbl rydd o berygl. Mae'r Gweinidog wedi mynegi pryderon hefyd pe bai claf yn dioddef o salwch arbennig o ddifrifol—heddiw, defnyddiodd bancreatitis fel enghraifft—ni waeth faint o staff nyrsio a fyddai ar ddyletswydd ar ward, ni ellid ystyried bod y claf yn ddiogel rhag niwed posibl y salwch y maent yn dioddef ohono. Fel y cyfryw, mae wedi mynegi pryderon am ganlyniadau anfwriadol defnyddio'r term 'diogel'.

Nawr, yn fy marn i—ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn feirniadol—mater o ymddiriedaeth yw hyn. Rwy'n ymddiried na fyddai unrhyw lys, na pherson rhesymol, yn meddwl bod lefel ddiogel o staff nyrsio yn golygu bod claf yn gwbl ddiogel o ba salwch bynnag a achosodd iddynt fynd i'r ysbyty yn y lle cyntaf. Am yr un rheswm, mae Deddf Iechyd 2006 yn cyfeirio at reolaeth a defnydd diogel, priodol ac effeithiol o gyffuriau a reolir, gan na fyddai unrhyw berson rhesymol yn meddwl bod rheoli cyffuriau a reolir yn ofalus yn golygu'n awtomatig fod claf yn ddiogel rhag effeithiau salwch neu anaf. Dyna pam y mae nifer o ddeddfau, a basiwyd yma yn y Cynulliad ac mewn deddfwrfeydd eraill, yn defnyddio'r term 'diogel'.

Nid yw lefel ddiogel o staff nyrsio yn ymwneud yn llwyr â diogelu claf rhag pob risg posibl o niwed. Yn hytrach, mae'r hyn rwy'n ceisio'i wneud yn ymwneud â diwallu anghenion gofal gofynnol a diogelu pobl rhag methu â chael gofal a niwed y gellir ei osgoi. Cyflawni'r nodau hynny yw'r peth mwyaf pwysig, ac er gwaethaf yr hyn rwyf newydd ei ddweud, rwy'n credu y bydd y Bil yn eu cyflawni pa un a gaiff ei ddiwygio i ddefnyddio'r term 'diogel' yn benodol ai peidio. Yn ystod trafodion Cyfnod 2, roeddwn yn falch fod y Gweinidog a minnau yn cytuno ynglŷn ag effaith y Bil. Mae'r Gweinidog wedi ailddatgan yr egwyddorion hynny yma'r prynhawn yma. Ond dylai deddfau fod yn hygyrch i'r bobl sy'n ddarostyngedig iddynt ac fel y cyfryw, rwy'n credu y byddem yn colli cyfle os na ddywedwn yn glir ac yn dryloyw wrth bobl Cymru mai lefelau diogel o staff nyrsio sydd wrth wraidd y darn hwn o ddeddfwriaeth.

16:24

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Darren Millar to reply.

Darren Millar i ateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm still very disappointed by the Minister's response in this respect. It seems to suggest that anybody else who drafts any amendments to a piece of legislation, or drafts a piece of legislation, is unable and less of an expert than the Minister's own advisers. Of course, we know that that is not the case. There are people who advise Assembly Members of all parties, when we table amendments, who are experts in their field and able to give us appropriate advice as well, and I can tell you that the unequivocal advice that I have received is that the insertion of the word 'safe' is entirely appropriate in terms of the amendments that have been tabled.

I cannot understand why it would be appropriate for the Minister to allow for guidance to be issued from the chief nursing officer's office that uses liberally the word 'safe' and yet it is not appropriate to include it here. Because the reason the chief nursing officer uses that word is that its natural meaning is fully understood by those individuals who then implement that guidance that she issues, in exactly the same way that the natural meaning of the words 'safe' and 'safely' would be interpreted by those who would be referring to this legislation. You've already heard it from Kirsty and others that this is a term that is used in Welsh legislation already that has been passed by this Assembly. It's used in other health legislation as well. We do all accept that you can never completely eliminate the risk of somebody coming to harm, but this is a term that is widely understood. Health professionals understand it; they abide by codes of practice and regulations that require them to understand the term. Academics understand it. Those who responded to the consultation understand it. I'm disappointed, Minister, that you can't seem to understand that this term is appropriate either. I want to move the amendments that have been tabled, and I encourage Members to support them.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n dal yn siomedig iawn ynghylch ymateb y Gweinidog yn hyn o beth. Mae'n ymddangos fel pe bai'n awgrymu bod unrhyw un arall sy'n drafftio unrhyw welliannau i ddeddfwriaeth, neu'n drafftio deddf, yn analluog ac yn llai o arbenigwr na chynghorwyr y Gweinidog ei hun. Wrth gwrs, gwyddom nad yw hynny'n wir. Mae yna bobl sy'n cynghori Aelodau Cynulliad o bob plaid, pan fyddwn yn cyflwyno gwelliannau, sy'n arbenigo yn eu maes ac yn gallu rhoi cyngor priodol i ni hefyd, a gallaf ddweud wrthynt mai'r cyngor diamwys a gefais oedd bod mewnosod y gair 'diogel' yn gwbl briodol o ran y gwelliannau a gyflwynwyd.

Ni allaf ddeall pam y byddai'n briodol i'r Gweinidog ganiatáu i ganllawiau gael eu rhyddhau o swyddfa'r prif swyddog nyrsio sy'n defnyddio'r gair 'diogel' yn helaeth ond nad yw'n briodol ei gynnwys yma. Oherwydd y rheswm pam y mae'r prif swyddog nyrsio yn defnyddio'r gair hwnnw yw bod ei ystyr naturiol yn gwbl ddealladwy i'r unigolion sydd wedyn yn gweithredu'r canllawiau a ddaw ganddi, yn yr un ffordd yn union ag y dehonglid ystyr naturiol y geiriau 'diogel' ac 'yn ddiogel' gan y rhai a fyddai'n cyfeirio at y ddeddfwriaeth hon. Rydych eisoes wedi clywed gan Kirsty ac eraill ei fod yn derm sy'n cael ei ddefnyddio mewn deddfwriaeth a basiwyd eisoes gan y Cynulliad hwn. Mae'n cael ei ddefnyddio mewn deddfwriaeth iechyd arall hefyd. Mae pawb ohonom yn derbyn na allwch byth ddileu'r risg o niwed i rywun, ond mae hwn yn derm a ddeallir yn eang. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn ei ddeall; maent yn cydymffurfio â chodau ymarfer a rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddeall y term. Mae academyddion yn ei ddeall. Mae'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn ei ddeall. Rwy'n siomedig, Weinidog, nad yw'n ymddangos eich bod chi'n deall bod y term yn briodol. Cynigiau y gwelliannau a gyflwynwyd, ac rwy'n annog yr Aelodau i'w cefnogi.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 3 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 22, voted against 23. Therefore the amendment is lost.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 3 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 22 o blaid, pleidleisiodd 23 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

Gwrthodwyd gwelliant 3: O blaid 22, Yn erbyn 23, Ymatal 0.

Amendment 3 not agreed: For 22, Against 23, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3.](#)

[Result of the vote on amendment 3.](#)

Grŵp 2: Lleoliadau y Byddai'r Ddyletswydd yn Gymwys Iddynt (Gwelliannau 45, 45A, 46, 47A, 47, 5, 11, 40, 41, 42, 43, 44, 33, 34)**Group 2: Settings to Which the Duty Would Apply (Amendments 45, 45A, 46, 47A, 47, 5, 11, 40, 41, 42, 43, 44, 33, 34)****Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The second group of amendments relates to settings to which the duty would apply. The lead amendment in this group is amendment 45. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r ail grŵp o welliannau yn ymwneud â lleoliadau y byddai'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 45. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:27

Mark Drakeford [Bywgraffiad Biography](#)Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. This is a relatively extensive and complex group of amendments. There are three Government amendments in the group—amendments 45, 46 and 47—which relate to the overarching duty in the Bill.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Mae hwn yn grŵp cymharol helaeth a chymhleth o welliannau. Mae tri gwelliant gan y Llywodraeth yn y grŵp—gwelliannau 45, 46 a 47—yn ymwneud â'r ddyletswydd gyffredinol yn y Bil.

Now, it's already my view that the overarching duty in section 25A has applied to health boards and NHS trusts when they provide nursing services themselves, and when they secure the provision of other services from others. However, having considered the debate that took place at the Health and Social Care Committee at Stage 2—and that focused on the wording of section 25A—I'm happy to bring amendments to state explicitly on the face of the Bill that health boards and trusts must have regard to the importance of ensuring that there are sufficient nurses to allow nurses time to care for patients sensitively when they are securing the provision of nursing services, as well as when they are providing nursing services themselves. I hope the Members will agree that this strengthens and clarifies the intention of the duty and that it is consistent with what has always been the stated policy intention.

Nawr, fy marn i eisoes yw bod y ddyletswydd gyffredinol yn adran 25A wedi bod yn berthnasol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG pan fyddant yn darparu gwasanaethau nyrsio eu hunain, a phan fyddant yn sicrhau darpariaeth o wasanaethau eraill gan eraill. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y ddadl a gynhaliwyd yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghyfnod 2—a oedd yn canolbwyntio ar eiriad adran 25A—rwy'n hapus i gyflwyno gwelliannau i ddatgan yn glir ar wyneb y Bil fod yn rhaid i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau roi sylw i bwysigrwydd darparu digon o nyrsys fel bod amser gan y nyrsys hynny i ofalu am gleifion yn sensitif pan fyddant yn sicrhau darpariaeth o wasanaethau nyrsio, yn ogystal â phan fyddant yn darparu gwasanaethau nyrsio eu hunain. Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n cytuno bod hyn yn cryfhau ac yn egluro bwriad y ddyletswydd a'i fod yn gyson â'r hyn a fu'n fwriad polisi datganedig bob amser.

Darren Millar's amendment 5 operates in broadly the same territory and seeks to extend the duty to calculate, and take steps to maintain, nurse staffing levels in section 25B to services commissioned or funded by a health board or trust. I believe that his objective is better served by Government amendments 45, 46 and 47, because, as far as NHS Wales is concerned, we are able to set requirements that it is obliged to meet. When we seek services outside Wales in this manner, no such obligation can be made. We are, in essence, buying a service from a seller of that service, and, if we place conditions on the provider, then the provider of the service can decide not to offer it for sale.

Mae gwelliant 5 Darren Millar yn gweithredu'n fras yn yr un diriogaeth ac yn ceisio ymestyn y ddyletswydd i gyfrifo, a chymryd camau i gynnal, lefelau staff nyrsio yn adran 25B mewn gwasanaethau a gomisiynir neu a ariennir gan fwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth. Credaf y byddai gwelliannau 45, 46 a 47 y Llywodraeth yn gwasanaethu ei amcan yn well, oherwydd, o ran GIG Cymru, rydym yn gallu pennu gofynion y mae dan rwymedigaeth i'w cyflawni. Pan geisiwn wasanaethau y tu allan i Gymru yn y modd hwn, ni ellir gwneud unrhyw rwymedigaeth o'r fath. Yn y bôn, rydym yn prynu gwasanaeth gan werthwr y gwasanaeth hwnnw ac os ydym yn gosod amodau ar y darparwr, yna gall darparwr y gwasanaeth benderfynu peidio â'i gynnis i'w werthu.

The effect of amendment 5 is to say that LHBs and NHS trusts could only obtain the services set out in section 25B from providers willing to comply with the duty to calculate nurse staffing levels using the triangulated approach. Given that providers outside Wales would not be under any obligation to do so—and English Ministers are clear that they will not be following our example in passing a piece of legislation parallel to the one before the Assembly this afternoon—the amendment can only increase the risk that non-Welsh providers will choose not to undertake work for Welsh patients because of the nurse staffing obligations that would be imposed upon them if they were to do so. News that Monitor and the NHS Trust Development Authority are requiring NHS trusts in England to reduce nurse staffing numbers makes the likelihood that they would voluntarily submit themselves to the enhanced Welsh requirements even more unlikely. Amendment 5, therefore, is impracticable and undesirable and could have far-reaching consequences for the provision of care, particularly in border areas.

Effaith gwelliant 5 yw dweud na allai byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG gael y gwasanaethau a nodir yn adran 25B gan ddarparwyr oni fo'r darparwyr hynny'n barod i gydymffurfio â'r ddyletswydd i gyfrifo lefelau staff nyrsio gan ddefnyddio'r dull trionglog. O ystyried na fyddai darparwyr y tu allan i Gymru o dan unrhyw rwymedigaeth i wneud hynny—ac mae Gweinidogion Lloegr wedi dweud yn glir na fyddant yn dilyn ein hesiampl drwy basio deddfwriaeth yn gyfochrog â'r un sydd gerbron y Cynulliad y prynhawn yma—ni all y gwelliant ond cynyddu'r perygl y bydd darparwyr o'r tu allan i Gymru yn dewis peidio â gwneud gwaith i gleifion o Gymru oherwydd y rhwymedigaethau'n ymwneud â lefelau staff nyrsio a fyddai'n cael eu gosod arnynt pe baent yn gwneud hynny. Mae newyddion fod Monitor ac Awdurdod Datblygu Ymddiriedolaethau GIG Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr leihau niferoedd staff nyrsio yn gwneud y tebygolrwydd y byddent yn cydymffurfio'n wirfoddol â'r gofynion ychwanegol yng Nghymru hyd yn oed yn fwy annhebygol. Mae gwelliant 5, felly, yn anymarferol ac yn ddieisiau a gallai arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol o ran darparu gofal, yn enwedig mewn ardaloedd ar y ffin.

Dirprwy Lywydd, I turn to amendment 11 in the name of Darren Millar and amendments 40 to 44, put forward by Elin Jones. I'll deal with them together because the argument is the same, and the argument made by the Government, and, I believe, by the Member in charge, is that there is a good reason for limiting the Bill to the specific clinical settings that are set out in section 25B(3), and that is the need to base policy on evidence. We have such evidence in relation to acute adult inpatient settings. We do not yet have evidence of the same quality or reliability for other settings.

The fact that there is a robust evidence base for the triangulated approach in adult acute in-patient settings was confirmed by all the witnesses who gave evidence during the passage of the Bill, including the RCN and NICE. It is because there is an evidence base in relation to those settings that the Bill meets the necessary equality tests in focusing the provisions of the Bill on those settings in the first instance.

I also want to be clear that there is a great deal of work under way to validate evidenced-based tools in other Welsh clinical settings but that that work is not yet sufficiently concluded to support these amendments. The tool for adult mental health in-patient wards is now being tested in two thirds of Welsh wards. The tool for health visitors was tested last year in Wales, with 30 health visitors in four different LHBs. Work is ongoing to develop an acuity tool for in-patient paediatric wards, drawing on work carried out in the Great Ormond Street Hospital, and development of the community nursing acuity tool has now got to a working prototype to take forward work in that area, too.

So, I assure Members today, as I did at Stage 2, that I do intend to use the potential to extend the scope of the Bill under the regulation powers that it provides, but that this will have to be done at the point where there is clear evidence and a professional consensus that the triangulated approach will work successfully in additional settings. No robust new evidence has emerged since we rehearsed these arguments at Stage 2 in November, so my position is unchanged, and I would ask Members this afternoon to reject amendments 5 and 11 and amendments 40, 41, 42, 43 and 44.

Briefly, Dirprwy Lywydd, to attend to amendments 33 and 34, both in the name of Darren Millar, the effect of these amendments is to require the registered person of an independent care home or of an independent healthcare establishment to have regard to the duties in sections 25A to 25D of the Bill as amended. It was never the intention that the scope of this Bill would extend to these settings, and the cost of extending the scope of the Bill in this way has never been ascertained, and the proposition was never tested at Stage 1 scrutiny. At Stage 2, the Member in charge reiterated that it had never been her intention to include the private sector in this legislation, and I've always supported the Bill on this basis. On that basis, I ask the Assembly to reject amendments 33 and 34 in this group.

Ddirprwy Lywydd, trof at welliant 11 yn enw Darren Millar a gwelliannau 40 i 44, a gyflwynwyd gan Elin Jones. Rwy'n ymdrin â hwy gyda'i gilydd oherwydd bod y ddatl yr un fath, a'r ddatl a wnaed gan y Llywodraeth, ac rwy'n credu, gan yr Aelod sy'n gyfrifol, yw bod yna reswm da dros gyfyngu'r Bil i'r lleoliadau clinigol penodol a nodwyd yn adran 25B(3), sef yr angen i seilio polisi ar dystiolaeth. Mae gennym dystiolaeth o'r fath mewn perthynas â lleoliadau cleifion mewnol aciwt i oedolion. Nid oes gennym dystiolaeth o'r un ansawdd a dibynadwyedd ar gyfer lleoliadau eraill ar hyn o bryd.

Cafodd y ffaith fod yna sylfaen dystiolaeth gadarn o blaid y dull trionglog mewn lleoliadau cleifion mewnol aciwt i oedolion ei chadarnhau gan yr holl dystion a roddodd dystiolaeth yn ystod taith y Bil, gan gynnwys y Coleg Nyrso Brenhinol a NICE. Oherwydd bod yna sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â'r lleoliadau hynny y mae'r Bil yn bodloni'r profion cydraddoldeb angenrheidiol o ran canolbwyntio darpariaethau'r Bil ar y lleoliadau hynny yn y lle cyntaf.

Rwyf hefyd am fod yn glir fod llawer iawn o waith ar y gweill i ddilysu offer sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn lleoliadau clinigol eraill yng Nghymru ond nad oes digon o waith wedi'i gwblhau eto i gefnogi'r gwelliannau hyn. Mae'r offeryn ar gyfer wardiau cleifion mewnol iechyd meddwl i oedolion bellach yn cael ei brofi mewn dwy ran o dair o wardiau Cymru. Profwyd yr offeryn ar gyfer ymwelwyr iechyd y llynedd yng Nghymru, gyda 30 o ymwelwyr iechyd mewn pedwar bwrdd iechyd lleol gwahanol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar ddatblygu offeryn aciwtedd ar gyfer wardiau cleifion mewnol pediatrig, gan bwyso ar waith a wnaed yn Ysbyty Great Ormond Street, ac mae'r gwaith ar ddatblygu'r offeryn aciwtedd nyrsio cymunedol erbyn hyn wedi arwain at brototeip gweithredol i ddatblygu gwaith yn y maes hwnnw hefyd.

Felly, rwy'n sicrhau'r Aelodau heddiw, fel y gwneuthum yng Nghyfnod 2, fy mod yn bwriadu defnyddio'r potensial i ymestyn cwmpas y Bil o dan y pwerau rheoleiddio y mae'n eu darparu, ond y bydd yn rhaid gwneud hyn ar y pwynt lle y ceir tystiolaeth glir a chonsensws proffesiynol y bydd y dull trionglog yn gweithio'n llwyddiannus mewn lleoliadau ychwanegol. Nid oes unrhyw dystiolaeth newydd gadarn wedi dod i'r amlwg ers i ni ailadrodd y dadleuon hyn yng Nghyfnod 2 ym mis Tachwedd, felly nid yw fy safbwynt wedi newid, a byddwn yn gofyn i'r Aelodau y prynhawn yma i wrthod gwelliannau 5 a 11 a gwelliannau 40, 41, 42, 43 a 44.

Yn fyr, Ddirprwy Lywydd, i droi at welliannau 33 a 34, yn enw Darren Millar, effaith y gwelliannau hyn yw ei gwneud yn ofynnol i berson cofrestredig cartref gofal annibynnol neu sefydliad gofal iechyd annibynnol roi sylw i'r dyletswyddau yn adrannau 25A i 25D y Bil fel y'i diwygiwyd. Nid oedd erioed yn fwriad i gwmpas y Bil ymestyn i gynnwys y lleoliadau hyn, ac ni chanfuwyd y gost o ymestyn cwmpas y Bil yn y modd hwn erioed, ac ni phrofwyd y cynnig yn ystod proses graffu Cyfnod 1. Yng Nghyfnod 2, ailadroddodd yr Aelod sy'n gyfrifol na fu erioed yn fwriad ganddi gynnwys y sector preifat yn y ddeddfwriaeth hon, ac rwyf bob amser wedi cefnogi'r Bil ar y sail honno. Gofynnaf i'r Cynulliad ar y sail honno i wrthod gwelliannau 33 a 34 yn y grŵp hwn.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I rise to speak to all of the amendments that have been tabled in my name in this group. Amendments 45A and 47A simply seek to insert the words 'and safely' into the Minister's amendments 45 and 47 for exactly the same reasons that I outlined in group 1.

My amendment 5 seeks to ensure that the duty to maintain nurse staffing levels applies to NHS-funded or commissioned care, which is what the Minister referred to earlier, even if they are provided in non-NHS facilities. Of course, this is a principle that was supported by Care Forum Wales, which expressed concern that its members would be adversely affected if the Bill's provisions did not apply to nursing and care homes. It also argued that the Bill could restrict their ability to recruit and retain nurses—and I quote—'aggravating an existing situation'. The principle behind the amendment was also supported by the Welsh Independent Healthcare Association, so I'm surprised that the Minister said that this evidence wasn't tested at Stage 1, because this was evidence that we received at Stage 1, and it relates, of course, to those later amendments 33 and 34, as well.

The Welsh Independent Healthcare Association said that the Bill's provisions should also be extended to include the independent sector. They argued that the inclusion of private care in the Bill would allow the independent sector to reflect its support for safe staffing for all the patients that it treats. Those amendments 33 and 34 reflect those wishes, as well, to ensure that those duties also apply equally to the independent sector and all providers of care, whether to NHS patients or not.

I do recognise that nurse staffing levels are often higher in the independent sector than they are in NHS settings, and both Care Forum Wales and the Welsh Independent Healthcare Association felt that these duties should apply to them regardless, and therefore I see no reason to exclude them from the scope of the Bill.

I was a little bit concerned to hear some of the Minister's argument for seeking to reject amendment 5 in relation to NHS-funded or commissioned care, because he seemed to suggest that it was going to be okay, as far as he is concerned, for Welsh patients who receive their treatment at hospitals across the border in England to have less of a nurse staffing ratio than if they're treated at hospitals here in Wales. I find that very concerning, being an Assembly Member for a part of north Wales where lots of people are treated at hospitals across the border. So, perhaps the Minister, when he's responding to this group of amendments could outline— Is that his intention? Is he going to be satisfied for Welsh patients to be receiving care in hospitals that may not meet the minimum staffing levels that his own guidance may begin to set out? That seems to be what he's saying. I don't believe that that is his intention, but that was the premise of his argument against my amendment No. 5.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Codaf i siarad am bob un o'r gwelliannau a gyflwynwyd yn fy enw yn y grŵp hwn. Yn syml iawn, mae gwelliannau 45A a 47A yn ceisio mewnosod y geiriau 'ac yn ddiogel' i mewn i welliannau 45 a 47 y Gweinidog am yr un rhesymau'n union ag y crybwyllais yng ngrŵp 1.

Mae fy ngwelliant 5 yn ceisio sicrhau bod y ddyletswydd i gynnal lefelau staff nyrsio yn berthnasol i ofal a ariennir gan y GIG neu ofal a gomisiynwyd, sef yr hyn cyfeiriodd y Gweinidog ato'n gynharach, hyd yn oed os cânt eu darparu mewn cyfleusterau y tu allan i'r GIG. Wrth gwrs, mae hon yn egwyddor a gefnogwyd gan Fforwm Gofal Cymru, a oedd yn mynegi pryder y byddai ei aelodau'n cael eu niweidio os nad oedd darpariaethau'r Bil yn berthnasol i gartrefi nyrsio a chartrefi gofal. Roedd hefyd yn dadlau y gallai'r Bil gyfyngu ar eu gallu i recriwtio a chadw nyrsys—a dyfynnaf—'aggravating an existing situation'. Cefnogwyd yr egwyddor sy'n sail i'r gwelliant hefyd gan Gymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru, felly rwy'n synnu bod y Gweinidog wedi dweud nad oedd y dystiolaeth hon wedi'i phrofi yn ystod Cyfnod 1, gan mai dyma'r dystiolaeth a gawsom yng Nghyfnod 1, ac mae'n ymwneud, wrth gwrs, â gwelliannau diweddarach 33 a 34, yn ogystal.

Dyweddod Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru y dylid ymestyn darpariaethau'r Bil i gynnwys y sector annibynnol hefyd. Roeddent yn dadlau y byddai cynnwys gofal preifat yn y Bil yn caniatáu i'r sector annibynnol adlewyrchu ei gefnogaeth i lefelau staffio diogel ar gyfer y holl gleifion y mae'n eu trin. Mae gwelliannau 33 a 34 yn adlewyrchu'r dymuniadau hynny hefyd er mwyn sicrhau bod y dyletswyddau yr un mor berthnasol i'r sector annibynnol a'r holl ddarparwyr gofal, boed i gleifion y GIG ai peidio.

Rwy'n cydnabod bod lefelau staff nyrsio'n aml yn uwch yn y sector annibynnol nag y maent mewn lleoliadau GIG, ac roedd Fforwm Gofal Cymru a Chymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru yn teimlo y dylai'r dyletswyddau hyn fod yn gymwys iddynt hwy beth bynnag, ac felly ni welafr unrhyw reswm i'w heithrio o gwmpas y Bil.

Roeddwn ychydig yn bryderus i glywed peth o ddadl y Gweinidog dros geisio gwrthod gwelliant 5 mewn perthynas â gofal a ariennir gan y GIG neu ofal a gomisiynwyd, oherwydd ei fod i'w weld yn awgrymu ei bod yn mynd i fod yn iawn, o'i ran ef, fod y gymhareb staff nyrsio yn is i gleifion o Gymru sy'n cael triniaeth mewn ysbytai dros y ffin yn Lloegr na phe baent yn cael eu trin mewn ysbytai yma yng Nghymru. Mae hynny'n peri pryder mawr i mi, fel Aelod Cynulliad dros ran o ogledd Cymru lle y mae llawer o bobl yn cael eu trin mewn ysbytai dros y ffin. Felly, efallai y gallai'r Gweinidog amlinellu, wrth ymateb i'r grŵp hwn o welliannau—. Ai dyna ei fwriad? A yw'n mynd i fod yn fodlon i gleifion yng Nghymru gael gofal mewn ysbytai nad ydynt efallai yn bodloni'r lefelau staffio gofynnol y gallai ei ganllawiau ei hun ddechrau eu pennu? Mae'n ymddangos mai dyna i mae'n ei ddweud. Nid wyf yn credu mai dyna'i fwriad, ond dyna oedd cynsail ei ddadl yn erbyn fy ngwelliant Rhif 5.

I simply believe that it is entirely possible and entirely appropriate for the NHS in Wales, when it commissions care, whether that's in a hospital over the border, or whether that's in the private or independent sector here in Wales, to ensure that, as part of that commissioning process, the staffing levels that are going to be required as a result of guidance issued by the Minister are going to be met. I don't think it's rocket science. I think it's fairly straightforward, and I can't understand, therefore, why the Minister rejects those amendments.

My amendment 11 seeks to widen the settings, of course, to which the nurse staffing guidance will apply, so that all hospital wards are covered by it. At present, as we've heard from the Minister, the Bill will only apply to acute medical in-patient wards and acute surgical in-patient wards, but we did hear many concerns at Stage 1 in committee from lots of different witnesses that this could have adverse consequences on wards to which these new staffing levels may not apply—those children's wards, mental health wards, out-patient wards and, indeed, community hospital wards where nurses are working. What we don't want is nurses being taken away from those care settings in order to supplement the staffing requirements on the wards that will be within the scope of the Bill, in terms of them being listed on the face of the Bill.

I've heard the Minister suggest that there may not be an equality issue, but, of course, if you're on a mental health ward, or if you've got children on a children's ward, you will want to have confidence that the same rigour is being applied in terms of nurse staffing levels in those care settings as is being applied elsewhere. I'm a little bit concerned to hear the Minister's response. I accept that there's a growing base of evidence on this, and I accept also that the Minister's doing some work in the background on this with his officials and taking advice on it, but I do think that if we put them onto the face of the Bill, at least there can be some security that there will be some guidance issued at some point in relation to those areas. Of course, the Minister can introduce these regulations for different parts of the NHS as and when he pleases, when the Act, if it moves forward to being an Act, is introduced.

The RCN, of course, support many of the amendments that I've actually tabled, particularly those in terms of elderly and mental health wards. These may not, of course, be acute inpatient wards, but they are settings where we know we've had problems in Wales at different hospitals. We've seen and read the appalling reports—the 'Trusted to Care' report and the Ockenden report—about care in some of these settings in the past, and we know that one of the features in both of those reports was that there were poor staffing levels on them and that that added to some of the pressures. So, I think it's very, very important, Minister, that you listen carefully to those who are supporting these amendments, and I do hope that you'll just think again about making sure that these provisions are extended to those other care settings, because it's absolutely critical for people to be able to have confidence in the new arrangements as and when they kick in.

Yn syml iawn rwy'n credu ei bod yn gwbl bosibl ac yn gwbl briodol i'r GIG yng Nghymru, pan fo'n comisiynu gofal, boed mewn ysbyty dros y ffin, neu yn y sector preifat neu annibynnol yma yng Nghymru, sicrhau, fel rhan o'r broses gomisiynu honno, fod y lefelau staffio sy'n mynd i fod yn ofynnol o ganlyniad i ganllawiau a ddaw gan y Gweinidog yn mynd i gael eu bodloni. Nid wyf yn credu bod hynny'n eithriadol o anodd. Rwy'n credu ei fod eithaf syml, ac ni allaf ddeall, felly, pam y mae'r Gweinidog yn gwrthod y gwelliannau hynny.

Mae fy ngwelliant 11 yn ceisio ehangu'r lleoliadau, wrth gwrs, y bydd y canllawiau staff nyrsio yn gymwys ar eu cyfer, fel eu bod yn cwmpasu'r holl wardiau ysbyty. Ar hyn o bryd, fel y clywsom gan y Gweinidog, ni fydd y Bil ond yn berthnasol i wardiau cleifion mewnol meddygol aciwt a wardiau cleifion mewnol llawfeddygol aciwt, ond clywsom lawer o bryderon yn ystod Cyfnod 1 yn y pwyllgor gan lawer o wahanol dystion y gallai hyn arwain at ganlyniadau niweidiol ar wardiau lle na fydd y lefelau staffio newydd hyn yn berthnasol—y wardiau plant, wardiau iechyd meddwl, wardiau cleifion allanol ac yn wir, wardiau ysbytai cymunedol lle y mae nyrsys yn gweithio. Yr hyn nad ydym ei eisiau yw nyrsys yn cael eu symud o leoliadau gofal o'r fath er mwyn ateb y gofynion staffio ar y wardiau a fydd o fewn cwmpas y Bil, am eu bod wedi'u rhestru ar wyneb y Bil.

Rwyf wedi clywed y Gweinidog yn awgrymu efallai nad oes problem o ran cydraddoldeb, ond wrth gwrs, os ydych ar ward iechyd meddwl, neu os oes gennych blant ar ward plant, bydd angen i chi fod yn hyderus fod yr un trylwyredd ar waith o ran lefelau staff nyrsio yn y lleoliadau gofal hynny ag sydd ar waith mewn mannau eraill. Rwy'n bryderus braid i glywed ymateb y Gweinidog. Rwy'n derbyn bod yna sylfaen gynyddol o dystiolaeth ar hyn, ac rwy'n derbyn hefyd fod y Gweinidog yn gwneud rhywfaint o waith yn y cefndir ar hyn gyda'i swyddogion ac yn cymryd cyngor ar y mater, ond rwy'n credu, os ydym yn ei roi ar wyneb y Bil, o leiaf gall fod rhywfaint o sicrwydd y bydd canllawiau'n cael eu dosbarthu ar ryw adeg mewn perthynas â'r meysydd hynny. Wrth gwrs, gall y Gweinidog gyflwyno'r rheoliadau hyn ar gyfer gwahanol rannau o'r GIG fel y mynn, pan gyflwynir y Ddeddf, os yw'n symud ymlaen i fod yn Ddeddf.

Mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol, wrth gwrs, yn cefnogi llawer o'r gwelliannau rwyf wedi'u cyflwyno mewn gwirionedd, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â wardiau'r henoed a wardiau iechyd meddwl. Efallai na fydd y rhain, wrth gwrs, yn wardiau cleifion mewnol aciwt, ond maent yn lleoliadau y gwyddom ein bod wedi cael problemau yn eu cylch yng Nghymru mewn gwahanol ysbytai. Rydym wedi gweld ac wedi darllen yr adroddiadau erchyll—yr adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal' ac adroddiad Ockenden—am ofal mewn rhai o'r lleoliadau hyn yn y gorffennol, a gwyddom mai un peth a oedd yn gyffredin rhwng y ddau adroddiad oedd y lefelau staffio gwael ar y wardiau a bod hynny wedi ychwanegu at beth o'r pwysau. Felly, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn, iawn, Weinidog, eich bod yn gwrandao'n ofalus ar y rhai sy'n cefnogi'r gwelliannau hyn, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn meddwl eto ynglŷn â gwneud yn siŵr fod y darpariaethau hyn yn cael eu hymestyn i gynnwys y lleoliadau gofal eraill hynny, oherwydd mae'n hollol hanfodol i bobl allu cael hyder yn y trefniadau newydd wrth iddynt gychwyn.

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n cyflwyno'n ffurfiol y gwelliannau yn fy enw i: 40, 41, 42, 43 a 44. Mae'r pum gwelliant yma'n ychwanegu at y rhestr o wardiau a lleoliadau lle mae gofynion y ddeddfwriaeth yma'n weithredol. Fel y mae'n sefyll, fel rydym wedi'i glywed eisoes, mae'r ddeddfwriaeth yma o'n blaenau ni heddiw ond yn berthnasol i wardiau oedolion aciwt a wardiau llawdriniaethol i oedolion. Y pryder a godwyd yn ystod Cynnod 1 a chymryd tystiolaeth oedd y gallai unrhyw fwrdd iechyd symud nyrsys o wardiau sydd wedi eu heithrio o'r ddeddfwriaeth i'r wardiau sydd o dan ofynion y ddeddfwriaeth. Fe fyddai hynny'n ganlyniad anffodus iawn o gyflwyno'r ddeddfwriaeth yma. Dyma pam fod y gwelliannau yma yn fy enw i yn ychwanegu wardiau pediatriig, mamolaeth ac iechyd meddwl oedolion.

I formally move the amendments in my name: 40, 41, 42, 43 and 44. These five amendments add to the list of wards and settings where the requirements of this legislation apply. As it stands, as we've already heard, this legislation in front of us today is only relevant to acute adult wards and adult surgical wards. The concern that was raised during Stage 1 and evidence gathering was that any health board could move nurses from wards that are exempt from the legislation to wards that fall under the legislation. That would be an unfortunate result of introducing this legislation. That is why these amendments tabled in my name add paediatric, maternity and adult mental health wards.

Yn achos yr olaf o'r rheini, wardiau iechyd meddwl oedolion, dyna'r union wardiau yma yng Nghymru lle mae diffyg niferoedd nyrsys wedi arwain at ofal annigonol, ac wedi cael ei brofi i arwain at ofal annigonol o gleifion. Mae'n drist o beth i feddwl, os byddwn ni'n pasio'r ddeddfwriaeth yma heddiw, na fydd wardiau o'r math yna yn cael eu cynnwys o dan y ddeddfwriaeth. Yn ogystal, mae yna beryg cyffelyb hefyd y gallai byrddau iechyd gynyddu staffio nyrsio mewn ysbytai cyffredinol ar draul nyrsio yn y gymuned ac mewn ysbytai cymunedol, a dyna, felly, bwrpas cyflwyno gwelliannau 40 a 43, er mwyn osgoi'r sefyllfa yna a'r sgil-ffeithiau annisgwyl o basio'r ddeddfwriaeth yma. Felly, rwy'n gofyn i'r Cynulliad i gefnogi'r gwelliannau yma yn fy enw i.

With regard to the latter of those, the adult mental health wards, those are exactly the wards in Wales where a lack of nursing numbers has led to inadequate care, and have been proven to lead to inadequate care of patients. It's sad to think that, if we were to pass this legislation today, those kinds of wards will not be included in this legislation. As well as this, there is a risk also that the health boards could increase staffing levels in general hospitals at the expense of community nursing and community hospitals, and that is the purpose of introducing amendments 40 and 43, in order to avoid those situations and the unexpected consequences of passing this legislation. Therefore, I ask the Assembly to support these amendments in my name.

O ran y gwelliannau eraill yn y grŵp yma, yn achos rhai ohonyn nhw, rwyf heb fy mherswadio y gellir cynnwys gwasanaethau wedi eu comisiynu y tu allan i Gymru o dan sgôp y ddeddfwriaeth yma, nac ychwaith y gellir cynnwys, ar hyn o bryd, y sector annibynnol o dan sgôp y ddeddfwriaeth benodol yma. Felly, ni fyddaf yn pleidleisio o blaid y gwelliannau sy'n hyrwyddo hynny heddiw.

In terms of some of the other amendments in this group, I haven't been persuaded that services that have been commissioned outside Wales can be included under the scope of this legislation, nor that the independent sector could, at the moment, be included under the scope of this legislation. Therefore, I will not be voting in favour of the amendments that promote that today.

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I just wanted to make a brief contribution in this group today, and I wanted to just start by thanking Kirsty Williams for bringing this legislation forward and for the perseverance and commitment she's shown as she's taken it through the various stages, and also to thank the RCN for the work that they have done. I do think that this is a piece of legislation that will make a real difference to people's lives. It will make a real difference to front-line nursing staff, but above all, will make a real difference, I believe, to the standards of nursing care that patients in the Welsh NHS receive. I too was very struck by the evidence we received about how powerless nurses can be in situations where they are short-staffed, and that is something that I have seen on a personal level myself. And above all, I think that this legislation will empower nurses to actually do something about that, so it is vitally important.

Roeddwn i eisiau gwneud cyfraniad byr yn y grŵp hwn heddiw, ac roeddwn eisiau dechrau drwy ddiolch i Kirsty Williams am gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon ac am y dyfalbarhad a'r ymrwymiad y mae wedi'i ddangos wrth iddi fynd â hi drwy'r gwahanol gyfnodau, a diolch hefyd i'r Coleg Nyrsio Brenhinol am y gwaith y maent wedi'i wneud. Rwy'n meddwl bod hon yn ddeddfwriaeth a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl. Bydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i staff nyrsio rheng flaen, ond yn anad dim, rwy'n credu y bydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i safon y gofal nyrsio y mae cleifion y GIG yng Nghymru yn ei gael. Cefais fy nharo'n fawr iawn gan y dystiolaeth a gawsom am ba mor ddi-rym y gall nyrsys fod mewn sefyllfaoedd lle y maent yn brin o staff, ac mae hynny'n rhywbeth rwyf wedi'i weld ar lefel bersonol fy hun. Ac yn bennaf oll, credaf y bydd y ddeddfwriaeth hon yn grymuso nyrsys i wneud rhywbeth am hynny mewn gwirionedd, felly mae'n hanfodol bwysig.

Just turning to the amendments, amendments 41 to 44 seek to extend the list of settings that the legislation applies to. We did take a lot of evidence in the committee about likely unintended consequences, and there was a concern amongst members of the committee that we could see situations where staff were pulled from one area of the NHS to cover the settings included in the legislation. But I was reassured by the discussion that we had at Stage 2 and the assurances that the Minister was able to give about that, and about how the specialisms involved would mean that that wouldn't happen.

But I did just want to particularly refer to amendment 41 that deals with adult mental health wards. Although I won't be supporting the amendment today, I would like to reiterate the views I expressed in committee, which is to urge the Minister to move as quickly as he possibly can to include adult mental health wards within the scope of this legislation. We know that we've got issues on some of these wards in Wales, and I know from my personal experience of my own family that some of the patients who are on these wards are among the most voiceless you will ever see in the Welsh NHS; some of them don't have any visitors, and I think they are precisely the patients who need the protection of this legislation. I'm reassured by what the Minister has said—I know that there is a pilot going on—but I would just like to take this opportunity to restate my belief that we should ensure that these patients are covered as soon as we possibly can. Thank you.

I droi at y gwelliannau, mae gwelliannau 41 i 44 yn ceisio ymestyn y rhestr o leoliadau y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol iddynt. Fe gymerasom lawer o dystiolaeth yn y pwyllgor ynglŷn â chanlyniadau anfwriadol tebygol, ac roedd pryder ymysg aelodau'r pwyllgor y gallem weld sefyllfaoedd lle y caiff staff eu symud o un rhan o'r GIG i gyflenwi yn y lleoliadau sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth. Ond cefais fy nghalonogi gan y drafodaeth a gawsom yng Nghyfnod 2 a'r sicrwydd y galla'r Gweinidog ei roi ynglŷn â hynny, ac ynglŷn â'r modd y byddai'r arbenigeddau dan sylw yn golygu na fyddai hynny'n digwydd.

Ond roeddwn eisiau cyfeirio'n arbennig at welliant 41 sy'n ymdrin â wardiau iechyd meddwl i oedolion. Er na fyddaf yn cefnogi'r gwelliant heddiw, hoffwn ailadrodd y farn a fynegais yn y pwyllgor, sef y dylid annog y Gweinidog i symud cyn gynted ag y gall i gynnwys wardiau iechyd meddwl i oedolion o fewn cwrpas y ddeddfwriaeth hon. Gwyddom fod gennym broblemau ar rai o'r wardiau hyn yng Nghymru, ac rwy'n gwybod o fy mhrofiad personol yn fy nheulu fy hun fod rhai o'r cleifion sydd ar y wardiau hyn ymhlith y rhai sydd â'r lleiaf o lais yn y GIG yng Nghymru; nid yw rhai ohonynt yn cael unrhyw ymwelwyr, ac rwy'n meddwl mai dyma'r union gleifion sydd angen eu gwarchod gan y ddeddfwriaeth hon. Cefais fy nghalonogi gan yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud—rwy'n gwybod bod cynllun peilot yn cael ei gynnal—ond hoffwn fantaisio ar y cyfle i ailddatgan fy nghred y dylem sicrhau bod y cleifion hyn yn cael eu cynnwys cyn gynted ag y bo modd. Diolch.

16:47 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member in charge, Kirsty Williams.

Yr Aelod sy'n gyfrifol, Kirsty Williams.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:47 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I, in the first instance, respond to the point raised by Lynne Neagle around the purpose of the Bill—to empower nurses? I think this will be one of the most important outcomes of the legislation should it pass—in strengthening the arms of nurses and the profession, right through to nurses on the ward. What we know from our experience in reading the reports into the scandal of Mid Staffs is that chief nursing officers were put under tremendous pressure by directors of finance at board levels to make cuts to their staffing establishment. And there was nothing—nothing—that nurses could turn to in that situation to strengthen their arm. This legislation will allow chief nursing officers at board meetings to resist those attempts to make savings by reducing staff numbers, and I think that's a really important principle that comes out of this, namely empowering the profession at all its different levels.

A gaf fi, yn y lle cyntaf, ymateb i'r pwynt a gododd Lynne Neagle ynghylch diben y Bil—i rymuso nyrsys? Rwy'n credu mai dyma fydd un o ganlyniadau pwysicaf y ddeddfwriaeth os caiff ei phasio—o ran cryfhau breichiau nyrsys a'r proffesiwn, drwodd at y nyrsys ar y ward. Yr hyn a wyddom o'n profiad wrth ddarllen yr adroddiadau ar sgandal Canolbarth Swydd Stafford yw bod prif swyddogion nyrsio wedi'u rhoi o dan bwysau aruthrol gan gyfarwyddwyr cyllid ar lefel byrddau i wneud toriadau i'w sefydliad staffio. Ac nid oedd unrhyw beth—dim o gwbl—y gallai nyrsys droi ato yn y sefyllfa honno i gryfhau eu breichiau. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn caniatáu i brif swyddogion nyrsio mewn cyfarfodydd bwrdd i wrthsefyll ymdrechion i arbed arian drwy leihau nifer y staff, ac rwy'n credu bod honno'n egwyddor bwysig iawn sy'n dod allan o hyn, sef grymuso'r proffesiwn ar ei holl wahanol lefelau.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Can I turn to the issue of the settings to which this duty would apply, that are outlined in amendments 11 and 40 through to 44, which would seek to extend the specific duty of the Bill to a wider range of settings? I'm not unsympathetic to Members' concerns, but quite simply I fundamentally remain of the belief, and am convinced, that at this point in time, a specific duty for adult acute medical in-patient and surgical in-patient wards is the most sensible and appropriate approach to legislation. I say that because that's where the existing evidence base is. We know that this legislation will make a difference to outcomes in the ward; all the international and academic evidence tells us this. Those wards are where we have the tools to deliver. Of course, that does not mean for a second that other settings don't matter—far from it. I have always been very careful to try and mitigate against the unintended consequences that Members have referred to. That's why from the very outset the Bill has included an overarching duty that staffing levels empower nurses with sufficient time to provide sensitive care, and that includes all settings in the provision of care. This Bill includes powers also to expand the specific duty to a wider a range of settings, once the evidence base is available for such. So, there is an overarching duty placed on boards and there is the potential for future regulations.

I was really pleased that, at Stage 2, the Minister made a point of saying that work is going on to validate evidence-based tools in other settings, and the Minister has repeated those this afternoon, outlining a pilot scheme for adult mental health patients. Again, I would agree wholeheartedly with Lynne Neagle that these are some of the most vulnerable patients that we have in Welsh wards, and I agree with Darren Millar that it has been in those wards that we have seen some of the worst failings in care.

I'm pleased that he has assured the committee and assured the Chamber here today that he has an active intention to extend the scope of the Bill under the regulation powers it provides. This is vital, because the settings Members have proposed expanding the specific duty to cover include, as I said, some of our most vulnerable patients.

Indeed, I would recommend that the fifth Assembly conducts post-legislative scrutiny upon the implementation of this legislation. This would enable it to hold the next Welsh Government to account on whether it is making use of the regulation powers this Bill provides on the basis of evidence that comes forward.

But, at this moment in time, the acuity tool used for medical and surgical wards cannot simply be applied to, for instance, a children's ward; it cannot be applied to a mental health ward. Therefore, I cannot support amendments 11 and 40 through to 44. We would be, in law, stating that those wards had to use acuity tools that simply do not exist at this present moment.

A gaf fi droi at fater y lleoliadau y byddai'r ddyletswydd hon yn berthnasol iddynt, a amlinellir yng ngwelliannau 11 a 40 i 44, a fyddai'n ceisio ymestyn dyletswydd benodol y Bil i ystod ehangach o leoliadau? Nid wyf yn ddigydymdeimlad tuag at bryderon yr Aelodau, ond yn syml iawn rwy'n parhau i gredu'n sylfaenol, ac rwy'n argyhoeddedig, ar hyn o bryd, mai dyletswydd benodol ar gyfer wardiau cleifion mewdol meddygol aciwt i oedolion a wardiau cleifion mewdol llawfeddygol yw'r agwedd fwyaf synhwyrol a phriodol i ddeddfwriaeth. Dywedaf hynny am mai dyna ble y mae'r sylfaen dystiolaeth bresennol. Gwyddom y bydd y ddeddfwriaeth hon yn gwneud gwahaniaeth i ganlyniadau ar y ward; mae'r holl dystiolaeth ryngwladol ac academiaidd yn dweud hynny wrthym. Dyna'r wardiau lle y mae gennym yr offer i'w gyflawni. Wrth gwrs, nid yw hynny'n golygu am eiliad nad yw lleoliadau eraill yn bwysig—dim o gwbl. Rwyf bob amser wedi bod yn ofalus iawn i geisio lliniaru yn erbyn y canlyniadau anfwriadol y cyfeiriodd yr Aelodau atynt. Dyna pam y mae'r Bil o'r cychwyn cyntaf wedi cynnwys dyletswydd gyffredinol i lefelau staffio rymuso nyrsys â digon o amser i ddarparu gofal sensitif, ac mae hynny'n cynnwys pob lleoliad wrth ddarparu gofal. Mae'r Bil hwn yn cynnwys pwerau hefyd i ymestyn y ddyletswydd benodol i gynnwys ystod ehangach o leoliadau, pan fydd sylfaen dystiolaeth ar gael ar eu cyfer. Felly, rhoddir dyletswydd gyffredinol ar fyrdau ac mae potensial ar gyfer rheoliadau yn y dyfodol.

Roeddwn yn falch iawn, yng Nghyfnod 2, fod y Gweinidog wedi gwneud y pwynt fod gwaith yn digwydd ar ddilysu offer sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewdol lleoliadau eraill, ac mae'r Gweinidog wedi ailadrodd hynny y prynhawn yma, gan amlinellu cynllun peilot ar gyfer cleifion iechyd meddwl sy'n oedolion. Unwaith eto, byddwn yn cytuno'n llwyr â Lynne Neagle fod y rhain ymhlith y cleifion mwyaf bregus sydd gennym ar wardiau yng Nghymru, ac rwy'n cytuno â Darren Millar mai ar y wardiau hynny y gwelsof rai o'r methiannau gwaethaf mewdol gofal.

Rwy'n falch ei fod wedi sicrhau'r pwyllgor a'r Siambr yma heddiw fod ganddo fwriad gweithredol i ymestyn cwmpas y Bil o dan y pwerau rheoleiddio y mae'n eu darparu. Mae hyn yn hanfodol, oherwydd bod y lleoliadau y mae'r Aelodau wedi argymhell ymestyn y ddyletswydd benodol i'w cwmpasu yn cynnwys, fel y dywedais, rhai o'n cleifion mwyaf bregus.

Yn wir, byddwn yn argymhell bod y pumed Cynulliad yn cynnal ymarfer craffu ar ôl deddfu ar weithrediad y ddeddfwriaeth hon. Byddai hyn yn ei galluogi i ddwyn Llywodraeth nesaf Cymru i gyfrif o ran y defnydd a wna o'r pwerau rheoleiddio y mae'r Bil yn eu darparu ar sail y dystiolaeth a gyflwynir.

Ond ar hyn o bryd, nid yw'n fater syml o gymhwyso'r offeryn aciwtedd a ddefnyddir ar wardiau meddygol a llawfeddygol ar gyfer ward plant, er enghraifft; ni ellir ei gymhwyso i wardiau iechyd meddwl. Felly, ni allaf gefnogi gwelliannau 11 a 40 i 44. Byddem yn datgan yn y gyfraith fod yn rhaid i'r wardiau hynny ddefnyddio offer aciwtedd nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd.

I also do not support amendment 5, which would expand the specific duty to nursing services commissioned or funded by health boards, including from hospital trusts over the border or from the independent sector. That was never my intention at the outset of this legislative process. As a result of this amendment, the duty would require local health boards and trusts in Wales to designate a person in a hospital ward in another part of the UK, for example, over which the Assembly has no legislative competence or practical responsibilities, to calculate the requisite nurse staffing levels.

Now, of course, Darren, you're right to say that Welsh patients being treated in English hospitals should not be disadvantaged, and they are entitled to exactly the kind of safe care that we are seeking to deliver here in Wales. But unfortunately, we have no competence over the English health service system. So, I would urge Darren to use whatever influence he has with his colleagues in Westminster to persuade the Department of Health to call off Monitor when they're asking people to cut staff nursing levels, to reinstate the work of NICE, which Jeremy Hunt has stopped—their work into looking at safe staffing levels in England—and to restart that work.

Nid wyf ychwaith yn cefnogi gwelliant 5, a fyddai'n ymestyn y ddyletswydd benodol i gynnwys gwasanaethau nyrsio a gomisiynir neu a ariannir gan fyrddau iechyd, gan gynnwys gan ymddiriedolaethau ysbyty dros y ffin neu o'r sector annibynnol. Nid oedd hynny erioed yn fwrriad gennyf ar ddechrau'r broses ddeddfwriaethol hon. O ganlyniad i'r gwelliant hwn, byddai'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau yng Nghymru ddynodi person mewn ward ysbyty mewn rhan arall o'r DU, er enghraifft, lle nad oes gan y Cynulliad unrhyw gymhwysedd deddfwriaethol neu gyfrifoldebau ymarferol i gyfrifo lefelau angenrheidiol o staff nyrsio.

Nawr, wrth gwrs, Darren, rydych yn iawn i ddweud na ddylai cleifion o Gymru sy'n cael eu trin mewn ysbytai yn Lloegr fod dan anfantaes, ac mae ganddynt hawl i'r un math o ofal diogel yn union â'r hyn rydym yn ceisio'i ddarparu yma yng Nghymru. Ond yn anffodus, nid oes gennym gymhwysedd dros system y gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Felly, byddwn yn annog Darren i ddefnyddio'r dylanwad sydd ganddo dros ei gymheiriaid yn San Steffan i berswadio'r Adran Iechyd i roi diwedd ar Monitor sy'n gofyn i bobl dorri lefelau staff nyrsio, i adfer gwaith NICE y rhoddodd Jeremy Hunt ddiwedd arno—eu gwaith yn ystyried lefelau staffio diogel yn Lloegr—ac i ailgychwyn y gwaith hwnnw.

16:53 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:53 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course.

Wrth gwrs.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:53 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One thing that we know from the evidence that was taken is that staffing ratios in England are much higher than staffing ratios here in Wales, for all the talk around this Chamber. But do you not also accept that, whilst we may not have jurisdiction over what goes on in England, we do have the ability—through our commissioning and contractual processes—to ensure that the same staffing ratios are going to be met that this guidance will require of the NHS in Wales?

Un peth y gwyddom o'r dystiolaeth a gymerwyd yw bod cymarebau staffio yn Lloegr yn llawer uwch na chymarebau staffio yma yng Nghymru, er gwaethaf yr holl siarad o amgylch y Siambr hon. Ond onid ydych hefyd yn derbyn, er nad oes gennym awdurdodaeth dros yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr o bosibl, fod gennym y gallu—drwy ein prosesau comisiynu a chytundebol—i sicrhau bod yr un cymarebau staffio yn cael eu bodloni ag y bydd y canllawiau hyn yn eu gwneud yn ofynnol ar gyfer y GIG yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:53 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I said, Darren, I would hope that, in time to secure great services for Welsh patients in hospitals across the border, health boards and WHSSC would be very mindful of nurse staffing levels in those hospitals, but unfortunately we cannot legislate for that here. I would appeal to you again to use what influence you have to call off Monitor and reinstate the work NICE was doing into safe staffing levels, which has been stopped by the Department of Health. And of course, Darren, our ability to influence what happens in the English NHS on behalf of Welsh patients has been severely limited by the passing of EVEL legislation in Westminster, which actually helps prevent Welsh MPs from having the kind of say over English NHS matters that I would like them to see.

Fel y dywedais, Darren, buaswn yn gobeithio, mewn pryd ar gyfer sicrhau gwasanaethau gwych i gleifion o Gymru mewn ysbytai dros y ffin, y byddai byrddau iechyd a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn ystyriol iawn o lefelau staff nyrsio yn yr ysbytai hynny, ond yn anffodus ni allwn ddeddfu ar gyfer hynny yma. Byddwn yn apelio arnoch eto i ddefnyddio'r dylanwad sydd gennych i roi diwedd ar Monitor ac adfer y gwaith roedd NICE yn ei wneud ar lefelau staffio diogel, a ataliwyd gan yr Adran Iechyd. Ac wrth gwrs, Darren, mae ein gallu i ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn y GIG Lloegr ar ran cleifion o Gymru wedi'i gyfyngu'n ddifrifol yn sgil pasio deddfwriaeth pleidleisiau Seisnig ar gyfer deddfau Seisnig yn San Steffan, sydd mewn gwirionedd yn helpu i atal ASau Cymru rhag cael y math o lais dros faterion y GIG yn Lloegr y buaswn yn hoffi iddynt ei gael.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Likewise, I do not support amendments 33 and 34, which would amend the care home and independent healthcare regulations so that a registered person had to have regard for the specific duty in this Bill. This Bill is currently a predicator in the application of public law principles, such as the availability of judicial review. It relies on the Welsh Minister's existing powers of intervention under the National Health Service (Wales) Act 2006. As such, I cannot support these amendments, because I do not see how, in practice, they would be workable.

I will, however, be supporting amendments 45, 46 and 47, which are intended to explicitly provide that the overarching duty on local health boards and NHS trusts also applies when they are commissioning nursing services. It was always my intention that this overarching duty would apply when health service bodies in Wales were deciding whether and how to use, for instance, hospitals in England. As such, I would welcome the amendments in providing additional clarity in that regard.

Without repeating the arguments already made, I will also be supporting amendments 45A and 47A in order for the Bill to explicitly use the term 'safely'.

Yn yr un modd, nid wyf yn cefnogi gwelliannau 33 a 34, a fyddai'n diwygio'r rheoliadau cartrefi gofal a gofal iechyd annibynnol fel bod person cofrestredig yn gorfod ystyried y ddyletswydd benodol yn y Bil hwn. Mae'r Bil ar hyn o bryd yn pennu'r modd y cymhwysir egwyddorion cyfraith gyhoeddus, megis argaeledd adolygiad barnwrol. Mae'n dibynnu ar bwerau presennol Gweinidogion Cymru i ymyrryd o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Fel y cyfryw, ni allaf gefnogi'r gwelliannau hyn, gan nad wyf yn gweld sut y byddent yn gweithio'n ymarferol.

Byddaf, fodd bynnag, yn cefnogi gwelliannau 45, 46 a 47, sydd â'r nod o ddarparu'n benodol fod y ddyletswydd gyffredinol ar fyrdau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG hefyd yn berthnasol pan fyddant yn comisiynu gwasanaethau nyrsio. Fy mwriad bob amser oedd y byddai'r ddyletswydd gyffredinol hon yn berthnasol pan fyddai cyrff yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru yn penderfynu ynglŷn â defnyddio, a sut i ddefnyddio ysbytai yn Lloegr, er enghraifft. Fel y cyfryw, byddwn yn croesawu'r gwelliannau yn yr ystyr eu bod yn darparu eglurder ychwanegol yn hynny o beth.

Heb ailadrodd y dadleuon a wnaed eisoes, byddaf hefyd yn cefnogi gwelliannau 45A a 47A er mwyn i'r Bil ddefnyddio'r term 'yn ddiogel' yn benodol.

16:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:56 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Well, as far as care homes and the independent sector are concerned, to receive evidence is not the same as to test it, and evidence has never been tested on those matters during the progress of this Bill.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Wel, o ran cartrefi gofal a'r sector annibynnol, nid yw cael tystiolaeth yr un fath â'i brofi, ac ni phrofwyd tystiolaeth ar y materion hynny erioed yn ystod taith y Bil hwn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

To seek to place duties on organisations beyond Wales entirely misunderstands the relationship between the Welsh NHS as a direct provider and its role as a commissioner of care for others. It also misunderstands the relationship between this legislature and places where our ability to legislate does not lie. The fact that the mover of those amendments cannot understand these distinctions does not invalidate them.

| 17:14 | Kirsty Williams Bywgraffiad Biography | Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm pleased to support amendments 18, 19 and 20, which build on the amendment of the Bill at Stage 2 to incorporate a specific requirement for consultation with providers of care homes and independent hospitals in Wales. I believe that the amendment of the Bill in this fashion is appropriate given that there have been previously expressed concerns around the legislation having unintended consequences for such organisations. I urge the Chamber's support. | Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n falch o gefnogi gwelliannau 18, 19 a 20, sy'n adeiladu ar ddiwygio'r Bil yng Nghyfnod 2 i gynnwys gofyniad penodol ar gyfer ymgynghori â darparwyr cartrefi gofal ac ysbytai annibynnol yng Nghymru. Credaf fod diwygio'r Bil yn y modd hwn yn briodol o ystyried bod pryderon wedi'u mynegi'n flaenorol fod y ddeddfwriaeth yn creu canlyniadau anfwriadol i sefydliadau o'r fath. Rwy'n annog y Siambwr i gefnogi'r gwelliannau. | Senedd.tv Fideo Video |
| 17:15 | Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography | Darren Millar to reply. | Darren Millar i ateb. | Senedd.tv Fideo Video |
| 17:15 | Darren Millar Bywgraffiad Biography | Nothing to add. | Dim i'w ychwanegu. | Senedd.tv Fideo Video |
| 17:15 | Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography | The question is that amendment 18 be agreed. Does any Member object? Then amendment 18 is agreed. | Y cwestiwn yw bod gwellant 18 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, derbyniwyd gwellant 18. | Senedd.tv Fideo Video |
| | | <i>Derbyniwyd gwellant 18 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i> | <i>Amendment 18 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i> | |
| 17:15 | Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography | Darren Millar, amendment 19. | Darren Millar, gwellant 19. | Senedd.tv Fideo Video |
| | | <i>Cynigiwyd gwellant 19 (Darren Millar, gyda chefnogaeth Mark Drakeford).</i> | <i>Amendment 19 (Darren Millar, supported by Mark Drakeford) moved.</i> | |
| 17:15 | Darren Millar Bywgraffiad Biography | Move. | Cynnig. | Senedd.tv Fideo Video |
| 17:15 | Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography | The question is that amendment 19 be agreed. Does any Member object? Then amendment 19 is agreed. | Y cwestiwn yw bod gwellant 19 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, derbyniwyd gwellant 19. | Senedd.tv Fideo Video |
| | | <i>Derbyniwyd gwellant 19 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i> | <i>Amendment 19 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i> | |

- 17:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Darren Millar, amendment 20. Darren Millar, gwelliant 20.
- Cynigiwyd gwelliant 20 (Darren Millar, gyda chefnogaeth Mark Drakeford).* *Amendment 20 (Darren Millar, supported by Mark Drakeford) moved.*
- 17:15 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Move. Cynnig.
- 17:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 20 be agreed. Does any Member object? Then amendment 20 is agreed. Y cwestiwn yw bod gwelliant 20 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, derbyniwyd gwelliant 20.
- Derbyniwyd gwelliant 20 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 20 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- Grŵp 5: Trefniadau Adrodd (Gwelliannau 36, 37, 23, 24, 25, 38, 1, 2, 39A, 39B, 39)** **Group 5: Reporting Arrangements (Amendments 36, 37, 23, 24, 25, 38, 1, 2, 39A, 39B, 39)**
- 17:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The next group of amendments relates to reporting arrangements. The lead amendment in this group is amendment 36. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group. Mae'r grŵp nesaf o welliannau yn ymwneud â threfniadau adrodd. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 36. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.
- Cynigiwyd gwelliant 36 (Mark Drakeford).* *Amendment 36 (Mark Drakeford) moved.*
- 17:15 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Diolch, Ddirprwy Lywydd. This is a more wide-ranging set of amendments in group 5. A number of amendments—1, 2, 39A and 39B—seek to amend the reporting arrangements under the Bill from every three years to an annual cycle. I've always been clear that the reporting arrangements for this Bill would have to be aligned to those more generally in force in the Welsh NHS. It will simply be more coherent, cost-effective and efficient to follow the three-year planning cycle that health boards already use, so that the frequency of reporting responds to emerging patterns in data. The three-year cycle also supports the development of the integrated medium-term plans that local health boards and NHS trusts are required to develop. Diolch, Ddirprwy Lywydd. Mae hon yn set ehangach o welliannau yng ngrŵp 5. Mae nifer o welliannau—1, 2, 39A a 39B—yn ceisio newid y trefniadau adrodd o dan y Bil o bob tair blynedd i gylch blyneddol. Rwyf wedi bod yn glir bob amser y byddai'n rhaid alinio'r trefniadau adrodd ar gyfer y Bil hwn gyda'r rhai sydd mewn grym yn fwy cyffredinol yn y GIG yng Nghymru. Yn syml iawn, bydd yn fwy cydlynol, costeffeithiol ac effeithlon i ddilyn y cylch cynllunio tair blynedd y mae byrddau iechyd eisoes yn ei ddefnyddio, fel bod amllder yr adroddiadau yn ymateb i batrymau sy'n dod i'r amlwg yn y data. Mae'r cylch tair blynedd hefyd yn cefnogi datblygiad y cynlluniau tymor canolig integredig sy'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG eu datblygu.
- I agreed with the committee's recommendation from Stage 1, that the reporting requirement be revised so as to not create additional bureaucracy, and be aligned to existing reporting requirements. At Stage 2 the Bill was amended to that effect. I ask Members to reject those amendments that would undo the good work that was done at that stage. Rwy'n cytuno gydag argymhelliad y pwyllgor o Gyfnod 1, y dylid adolygu'r gofyniad adrodd er mwyn peidio â chreu biwrocratiaeth ychwanegol, a'i alinio gyda'r gofynion adrodd presennol. Yn ystod Cyfnod 2 diwygiwyd y Bil i'r perwyl hwnnw. Gofynnaf i'r Aelodau wrthod y gwelliannau hynny a fyddai'n dadwneud y gwaith da a wnaethpwyd bryd hynny.

Amendments 23 to 25 add to the list of issues that a local health board may cover when discussing the impact that it considers that not maintaining nurse staffing levels has had on care provided to patients by nurses. The problem here is, once again, the lack of a strong evidence connection between some of the additional measures that are encompassed in amendments 23 to 25 and those that are already on the face of the Bill. NICE has not found a direct link between staffing levels and issues with nutrition, hydration or hospital-acquired infections. Indeed, NICE commented that there was a lack of good-quality research on the effect of different patient factors and patients' nursing care needs on the nurse staffing requirements. They concluded that the evidence points to three areas, which are now on the face of the Bill: pressure ulcers, medication errors and patient falls. Adding additional items, I believe, would be incongruous, would divert attention from what the Bill is trying to achieve, and would increase the bureaucracy without adding value to the reports that the Bill will give rise to, because there is no evidence to show that these issues bear a direct correlation to staffing levels.

Amendments 36 to 39 are Government amendments. They respond to points made earlier in the scrutiny process and they aim to strengthen and clarify the reporting requirements for Welsh health boards and NHS trusts. Amendment 36 describes the report that local health boards and NHS trusts must submit to Welsh Ministers, in accordance with section 25E, as a 'nurse staffing level report'. This report must cover a reporting period. The meaning of a reporting period is set out in amendment 39. A reporting period is three years and the start date for the first or initial reporting period is the date that section 25E is commenced. Subsequent reporting periods will then follow in three-year cycles.

Amendment 37 adds complaints to the type of information the health board or trust might consider in their nurse staffing level report, when reviewing the impact of the Bill. I've added this amendment because complaints provide a rich source of personal commentaries and stories from patients in respect of personal experience of services and improvements they would like to see. By adding complaints to the areas organisations might include in their reports, I seek to put the patient's voice in the ear of the health board and encourage the use of complaints as a gift when they're making their reports. This information is already collected, so it does not add a new onerous requirement; what it does is to place on the face of the Bill consideration of the patients' experience with regard to nurse staffing levels.

The meaning of 'complaints' in this context is:

'complaints about care provided to patients by nurses made in accordance with the Complaints Regulations.'

Amendment 39 defines 'complaints regulations' in a way that encompasses regulations that are set out in the NHS complaints procedure.

Mae gwelliannau 23 i 25 yn ychwanegu at y rhestr o faterion y gall bwrdd iechyd lleol eu cwmpasu wrth drafod yr effaith yr ystyria fod methiant i gynnal lefelau staff nyrsio wedi'i chael ar y gofal y mae nyrsys yn ei ddarparu i gleifion. Y broblem yma, unwaith eto, yw diffyg tystiolaeth gref o gysylltiad rhwng rhai o'r mesurau ychwanegol a gwmpesir yng ngwelliannau 23 i 25 a'r rhai sydd eisoes ar wyneb y Bil. Nid yw NICE wedi canfod cysylltiad uniongyrchol rhwng lefelau staffio a materion yn ymwneud â maeth, hydradu neu heintiau a geir mewn ysbytai. Yn wir, dywedodd NICE fod diffyg ymchwil o ansawdd da ar effaith ffactorau gwahanol yn ymwneud â chleifion ac anghenion cleifion am ofal nyrsio ar y gofynion staff nyrsio. Daethant i'r casgliad fod y dystiolaeth yn tynnu sylw at dri maes, sydd bellach ar wyneb y Bil: wlserau pwysu, camgymeriadau gyda meddyginiaethau a chleifion yn cwmpo. Byddai ychwanegu eitemau ychwanegol, rwy'n credu, yn anghymharus, byddai'n tynnu sylw oddi ar yr hyn y mae'r Bil yn ceisio'i gyflawni, a byddai'n cynyddu biwrocratiaeth heb ychwanegu gwerth at yr adroddiadau y bydd y Bil yn esgor arnynt, gan nad oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod cydberthynas uniongyrchol rhwng y materion hyn a lefelau staffio.

Gwelliannau'r Llywodraeth yw gwelliannau 36 i 39. Maent yn ymateb i bwyntiau a wnaed yn gynharach yn y broses graffu a'u nod yw cryfhau ac egluro'r gofynion adrodd ar gyfer byrddau iechyd Cymru ac ymddiriedolaethau'r GIG. Mae gwelliant 36 yn disgrifio'r adroddiad sy'n rhaid i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG ei gyflwyno i Weinidogion Cymru, yn unol ag adran 25E, fel 'adroddiad ar lefelau staff nyrsio'. Rhaid i'r adroddiad gwmpasu cyfnod adrodd. Pennir ystyr cyfnod adrodd yng ngwelliant 39. Mae cyfnod adrodd yn dair blynedd a'r dyddiad cychwyn ar gyfer y cyfnod adrodd cyntaf neu gychwynnol yw dyddiad cychwyn adran 25E. Bydd cyfnodau adrodd dilynol yn dilyn wedyn mewn cylchoedd o dair blynedd.

Mae gwelliant 37 yn ychwanegu cwynion at y math o wybodaeth y gallai bwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth ei hystyried yn eu hadroddiad ar lefelau staff nyrsio, wrth adolygu effaith y Bil. Rwyf wedi ychwanegu'r gwelliant hwn am fod cwynion yn darparu ffynhonnell gyfoethog o sylwebaethau personol a straeon gan gleifion mewn perthynas â phrofiad personol o wasanaethau a gwelliannau yr hoffent eu gweld. Trwy ychwanegu cwynion at y meysydd y gallai sefydliadau eu cynnwys yn eu hadroddiadau, rwy'n ceisio rhoi llais y claf wrth glust y bwrdd iechyd ac annog y defnydd o gwynion fel rhodd pan fyddant yn llunio'u hadroddiadau. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu eisoes, felly nid yw'n ychwanegu gofyniad beichus newydd; yr hyn y mae'n ei wneud yw gosod ar wyneb y Bil ystyriaeth o brofiad y cleifion lefelau staff nyrsio.

Ystyr 'cwynion' yn y cyd-destun hwn yw:

cwynion am ofal a ddarperir i gleifion gan nyrsys a wnaed yn unol â'r Rheoliadau Cwynion.

Mae gwelliant 39 yn diffinio 'rheoliadau cwynion' mewn ffordd sy'n cwmpasu rheoliadau a nodir yng ngweithdrefn gwynion y GIG.

Amendment 38 provides that local health boards and NHS trusts must submit a nurse staffing level report within 30 days of the reporting period, thus providing local health boards and NHS trusts with a clear deadline.

Finally, as well as defining complaints regulations and the reporting period, amendment 39 requires Welsh Ministers, after each reporting period, to prepare and publish a document that summarises all the nurse staffing level reports submitted for a given reporting period. This considerably strengthens the existing reporting duties by placing an additional requirement upon Welsh Ministers. The duty for Welsh Ministers to lay all nurse staffing level reports submitted by local health boards and NHS trusts before the Assembly remains.

My amendments aim to enhance the reporting requirements and provide the opportunity for Welsh health organisations to make their nurse staffing level reports more meaningful to patients and their families. I ask Members to accept amendments 36 to 39, tabled in my name in this group.

17:22

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I want to rise to speak to amendments 23, 24, 25, 39A and 39B, all tabled in my name. I'll put on record that we will be supporting the Welsh Government's amendments also in this group, which are about improving the reporting requirements around safe nurse staffing in our hospitals.

My amendments 23, 24 and 25 seek to add additional indicators of the impact of any new guidance on nurse staffing levels that may be issued by Ministers in the future to ensure that these are incorporated into the reporting arrangements. At present, the Bill lists just three things that may be issues for inclusion into nurse staffing level reports prepared by NHS organisations in Wales, and the Minister has outlined these as being medication administration errors, falls and hospital-acquired pressure ulcers. My amendments simply seek to add 'problems arising from inadequate hydration', 'problems arising from inadequate nutrition' and 'patients developing hospital-acquired infections' to that list.

Just now, we've heard the Minister, whilst noting the importance of adequate hydration and nutrition, suggesting that there was no evidence to support a relationship between these two things and the number of nurses on a ward. This view, of course, is contrary to some of the evidence that we received from key stakeholders at Stage 1 and other people that I've engaged with. I've also noted that the 'Trusted to Care' report in May 2014 cited examples of medical and nursing staff at the Princess of Wales Hospital in Bridgend failing to ensure that frail elderly patients in their care received adequate nutrition and hydration, partly as a result of understaffing on those wards.

Mae gwelliant 38 yn darparu bod yn rhaid i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG gyflwyno adroddiad ar lefelau staff nyrsio o fewn 30 diwrnod i'r cyfnod adrodd, gan ddarparu terfyn amser clir i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG.

Yn olaf, yn ogystal â diffinio rheoliadau cwynion a'r cyfnod adrodd, mae gwelliant 39 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi dogfen ar ôl pob cyfnod adrodd sy'n crynhoi'r holl adroddiadau ar lefelau staff nyrsio a gyflwynwyd ar gyfer cyfnod adrodd penodol. Mae hyn yn cryfhau'n sylweddol y dyletswyddau adrodd presennol drwy osod gofyniad ychwanegol ar Weinidogion Cymru. Bydd y ddyletswydd i Weinidogion Cymru osod yr holl adroddiadau ar lefelau staff nyrsio a gyflwynir gan fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG gerbron y Cynulliad yn parhau.

Nod fy ngwelliannau yw gwella'r gofynion adrodd a rhoi cyfle i sefydliadau iechyd Cymru wneud eu hadroddiadau ar lefelau staff nyrsio yn fwy ystyrlon i gleifion a'u teuluoedd. Gofynnaf i'r Aelodau dderbyn gwelliannau 36 i 39, a gyflwynwyd yn fy enw i yn y grŵp hwn.

Rwyf am godi i siarad o blaid gwelliannau 23, 24, 25, 39A a 39B, y cyflwynwyd pob un ohonynt yn fy enw i. Rwy'n cofnodi y byddwn yn cefnogi gwelliannau Llywodraeth Cymru hefyd yn y grŵp hwn, gwelliannau sy'n ymwneud â gwella'r gofynion adrodd sy'n ymwneud â lefelau diogel o staff nyrsio yn ein hysbytai.

Mae fy ngwelliannau 23, 24 a 25 yn ceisio ychwanegu dangosyddion ychwanegol o effaith unrhyw ganllawiau newydd ar lefelau staff nyrsio a allai ddod gan Weinidogion yn y dyfodol i sicrhau bod y rhain yn cael eu hymgorffori yn y trefniadau adrodd. Ar hyn o bryd, nid yw'r Bil ond yn rhestru tri pheth a allai fod yn faterion i'w cynnwys mewn adroddiadau ar lefelau staff nyrsio a baratowyd gan sefydliadau'r GIG yng Nghymru, ac mae'r Gweinidog wedi amlinellu'r rhain fel camgymeriadau wrth weinyddu meddyginiaeth, cwmpiaadau ac wserau pwyso a geir mewn ysbytai. Yn syml, mae fy ngwelliannau yn ceisio ychwanegu 'problemau'n codi o hydradu annigonol', 'problemau'n codi o faeth annigonol' a 'cleifion yn datblygu heintiau a geir yn yr ysbyty' at y rhestr honno.

Clywsom y Gweinidog yn awgrymu yn awr, wrth nodi pwysigrwydd hydradu a maeth digonol, nad oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi perthynas rhwng y ddau beth a nifer y nyrsys ar ward. Mae'r farn hon, wrth gwrs, yn groes i beth o'r dystiolaeth a gawsom gan randdeiliaid allweddol yng Nghyfnod 1 a phobl eraill rwyf wedi ymgysylltu â hwy. Rwyf hefyd wedi nodi bod adroddiad 'Ymddiried mewn Gofal' ym mis Mai 2014 yn dyfynnu enghreifftiau o staff meddygol a staff nyrsio yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogrwr yn methu â sicrhau bod cleifion oedranus bregus yn eu gofal yn cael maeth a hydradu digonol, yn rhannol o ganlyniad i brinder staff ar y wardiau hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ruth Marks, the former older people's commissioner for Wales, also said to the National Assembly for Wales's Public Accounts Committee, on hospital catering and patient nutrition, very clearly that:

'Having nutritional and appealing food is an essential part of getting better. Older people in hospitals may require occasional assistance'.

That includes from staff—care staff and nursing staff. So, there is very clear evidence of a link between hydration and nutrition and patient care and the number of nurses that are available to provide it.

But, there's also evidence to support the idea that tired overworked nurses inadvertently contribute to an increase in the rate of hospital-acquired infections. The Health and Social Care Committee Stage 1 report noted that a number of costs could be reduced considerably by having safe nurse staffing levels, such as those incurred as a consequence of treating healthcare-acquired infections, based on benefits for England in a resource impact commentary for NICE's safe staffing guidelines. I also note that, in terms of hospital-acquired infections, this again was a feature of the Betsi Cadwaladr governance report, which was published jointly by Healthcare Inspectorate Wales and the Wales Audit Office, both of which referred to hospital-acquired infections, an increase in those, being a result of reductions in staff. So, listing problems arising from inadequate hydration, inadequate nutrition and the level of hospital-acquired infections is entirely appropriate and these should be key indicators, I believe, listed on the face of the legislation.

My amendments 39A and 39B simply seek to amend the Welsh Government's amendment 39, which sets out the ministerial obligations to report periodically to the National Assembly for Wales. The Welsh Government amendment, of course, seeks to impose an initial report after three years and then report at a frequency of three years, and the Minister has outlined that this ties in nicely with some of the other reporting requirements of the national health service and has suggested that a more frequent reporting period might be too onerous for local health boards. But, of course, that is not the case. We know that local health boards are regularly reporting back to the Welsh Government on a whole range of different indicators. They have to prepare annual reports as well, on all sorts of different matters. We know that their quality and safety committees should be looking at data in relation to compliance with any guidance that emerges on a very regular basis. Indeed, if they're only looking at it once every three years, I would question how valuable this guidance will actually be. So, I think it is important that there's a reduced frequency of those reporting requirements, and that's why my amendments seek to change that reporting requirement from three years to every 12 months instead. I do hope that the Member in charge and all other Members here will be supporting the amendments that I've tabled in this group.

Hefyd, dywedodd Ruth Marks, cyn-gomisiynydd pobl hŷn Cymru, wrth Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar arlwyio mewn ysbytai a maeth cleifion, yn eglur iawn:

'Mae bwyd maethlon a blasus yn rhan hanfodol o wella. Efallai bod pobl hŷn mewn ysbytai angen cymorth ar adegau'.

Mae hynny'n cynnwys cymorth gan staff gofal a staff nyrsio. Felly, ceir tystiolaeth glir iawn o gyswllt rhwng hydradu a maeth a gofal cleifion a nifer y nyrsys sydd ar gael i ddarparu'r rhain.

Ond ceir tystiolaeth hefyd i gefnogi'r syniad fod nyrsys blinedig sy'n gorweithio yn cyfrannu'n anfwriadol at y cynnydd yng nghyfraiddau heintiau a geir mewn ysbytai. Nododd adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y gellid lleihau nifer o gostau'n sylweddol drwy gael lefelau diogel o staff nyrsio, fel y costau a geir o ganlyniad i drin heintiau a geir mewn gofal iechyd, yn seiliedig ar fuddiannau i Loegr mewn sylwebaeth ar effaith adnoddau ar gyfer canllawiau staffio diogel NICE. Nodaf hefyd, o ran heintiau a geir mewn ysbytai, fod hyn eto yn nodwedd o adroddiad llywodraethu Betsi Cadwaladr a gyhoeddwyd ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn cyfeirio at heintiau a gafwyd yn yr ysbyty, y cynnydd yn y rheini o ganlyniad i ostyngiadau yn y lefelau staffio. Felly, mae rhestru'r problemau sy'n codi o hydradu annigonol, maeth annigonol a lefel yr heintiau a geir mewn ysbytai yn gwbl briodol a dylai'r rhain fod yn ddangosyddion allweddol, rwy'n credu, ac wedi'u rhestru ar wyneb y ddeddfwriaeth.

Mae fy ngwelliannau 39A a 39B yn ceisio diwygio gwelliant 39 Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r rhwymedigaethau gweinidogol i lunio adroddiadau cyfnodol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae gwelliant Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, yn ceisio mynnu adroddiad cychwynnol ar ôl tair blynedd ac yna adroddiad bob tair blynedd. Mae'r Gweinidog wedi egluro bod hyn yn cyd-fynd yn ddaclus â rhai o ofynion adrodd eraill y gwasanaeth iechyd gwladol ac mae wedi awgrymu y gallai cyfnod adrodd amlach fod yn rhy feichus ar fyrddau iechyd lleol. Ond nid yw hynny'n wir, wrth gwrs. Gwyddom fod byrddau iechyd lleol yn adrodd yn ôl yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru ar ystod eang o wahanol ddangosyddion. Mae'n rhaid iddynt baratoi adroddiadau blynyddol hefyd ar bob math o faterion gwahanol. Gwyddom y dylai eu pwyllgorau ansawdd a diogelwch ystyried data mewn perthynas â chydymffurfio ag unrhyw ganllawiau sy'n ymdangos ar sail reolaidd iawn. Yn wir, os mai unwaith bob tair blynedd yn unig y maent yn edrych arnynt, buaswn yn cwestiynu pa mor werthfawr fydd y canllawiau hyn mewn gwirionedd. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig fod y gofynion adrodd yn llai aml, a dyna pam y mae fy ngwelliannau yn ceisio newid y gofyniad adrodd o dair blynedd i bob 12 mis yn lle hynny. Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol a'r holl Aelodau eraill yma yn cefnogi'r gwelliannau a gyflwynais yn y grŵp hwn.

17:27

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And the Member in charge, Kirsty Williams.

A'r Aelod sy'n gyfrifol, Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Presiding Officer. As we have heard, the effect of amendments 1, 2, 39A and 39B is to require local health boards and relevant NHS trusts in Wales to increase the frequency with which they are required to submit a report to Welsh Ministers from every three years to every 12 months. Now, clearly, there is a balance to be struck between placing a bureaucratic burden on local health boards and relevant NHS trusts in Wales and enabling transparency and accountability. In my opinion, it is reasonable and not unduly onerous for local health boards and NHS trusts in Wales to be required to submit an annual report, rather than on a three-yearly basis. Annual reporting, in my mind, would be more transparent, enabling greater public insight and confidence that staffing levels are sufficient to allow nurses time to care sensitively, and it would enable greater accountability. If a report is required every three years, there is a greater risk that staff turnover may result in no one person being accountable for staffing issues arising over a sustained term. Therefore, I would encourage other Members to support amendments 1, 2, 39A and 39B.

I will also be supporting amendment 38, even though it would pre-empt amendments 1 and 2. There is clearly merit in amendment 38, which prescribes a timetable for the submission of reports to Welsh Ministers. I hope that that will be irrelevant and that amendments 39A and 39B, which will require reports to be submitted every 12 months, will be passed. However, in the event that those amendments are not passed, I will also support amendment 39. This is because, in such circumstances, the will of this Assembly will clearly be that reports should be submitted every three years. I consider there to be merit in the other effects of amendment 39, particularly that Welsh Ministers must prepare and publish a document summarising all nurse staffing reports submitted to them. This proposal, which will entail the Welsh Government taking clear ownership of identifying emerging themes from the disparate reports, is a very, very welcome one. It also aligns closely with the original intention of the Bill as introduced, that the Welsh Government would assess the overarching impact of the legislation, and I'm grateful that the Welsh Government have brought this amendment forward.

I also support amendments 23, 24, 25 and 37, which are focused on the content of nurse staffing reports. I'm pleased that the Minister has proposed amendment 37, which specifically lists information about complaints made under the complaints regulations relating to care provided to patients by nurses as an example of information to be included in the nurse staffing level reports. I was disappointed that the Bill was amended at Stage 2 to remove the requirement that Welsh Ministers assess the impact of the Act against patient and public satisfaction with services, and I believe that the Minister's amendment 37 goes a great way to addressing that particular issue.

Diolch i chi, Lywydd. Fel y clywsom, effaith gwelliannau 1, 2, 39A a 39B yw ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG perthnasol yng Nghymru gyflwyno'r adroddiadau sy'n ofynnol iddynt eu cyflwyno i Weinidogion Cymru yn fwy aml, o bob tair blynedd i bob 12 mis. Nawr, mae'n amlwg fod cydbwysedd i'w daro rhwng rhoi baich biwrocraidaidd ar fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau GIG perthnasol yng Nghymru a hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd. Yn fy marn i, mae'n rhesymol, ac nid yw'n rhy feichus ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru gyflwyno adroddiad blynyddol, yn hytrach nag ar sail tair blynedd. Yn fy marn i, byddai adrodd yn flynyddol yn fwy tryloyw, ac yn galluogi'r cyhoedd i weld yn well a bod yn hyderus fod y lefelau staffio yn ddigonol i ganiatáu amser i nyrsys ofalu mewn modd sensitif, a byddai'n sicrhau mwy o atebolrwydd. Os oes angen adroddiad bob tair blynedd, mae mwy o berygl y gallai trosiant staff arwain at sefyllfa lle na fyddai un person yn atebol am faterion staffio sy'n codi dros gyfnod estynedig. Felly, byddwn yn annog yr Aelodau eraill i gefnogi gwelliannau 1, 2, 39A a 39B.

Byddaf hefyd yn cefnogi gwelliant 38, er y byddai'n achub y blaen ar welliannau 1 a 2. Mae'n amlwg fod teilyngdod yng ngwelliant 38, sy'n rhagnodi amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd hynny'n amherthnasol ac y bydd gwelliannau 39A a 39B, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyflwyno adroddiadau bob 12 mis, yn cael eu derbyn. Fodd bynnag, os na dderbynnir y gwelliannau hynny, byddaf hefyd yn cefnogi gwelliant 39 oherwydd mewn amgylchiadau o'r fath, ewyllys y Cynulliad hwn yn amlwg fydd y dylid cyflwyno adroddiadau bob tair blynedd. Rwy'n ystyried bod rhinwedd yn rhai o effeithiau eraill gwelliant 39, yn benodol y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi dogfen sy'n crynhoi'r holl adroddiadau ar lefelau staff nyrsio a gyflwynir iddynt. Mae'r argymhellad hwn, a fydd yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cymryd perchenogaeth glir ar y broses o nodi themâu sy'n deillio o'r adroddiadau gwahanol, yn un sydd i'w groesawu'n fawr iawn. Mae hefyd yn cyd-fynd yn agos â bwriad gwreiddiol y Bil fel y'i cyflwynwyd, y byddai Llywodraeth Cymru yn asesu effaith gyffredinol y ddeddfwriaeth, ac rwy'n ddiolchgar fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r gwelliant hwn.

Rwyf hefyd yn cefnogi gwelliannau 23, 24, 25 a 37, sy'n canolbwyntio ar gynnwys adroddiadau ar lefelau staff nyrsio. Rwy'n falch fod y Gweinidog wedi cynnig gwelliant 37, sy'n rhestru gwybodaeth benodol am gwynion a wnaed o dan y rheoliadau cwynion yn ymwneud â gofal a ddarperir i gleifion gan nyrsys fel enghraifft o wybodaeth i'w chynnwys yn yr adroddiadau ar lefelau staff nyrsio. Roeddwn yn siomedig fod y Bil wedi'i ddiwygio ar ôl Cyfnod 2 i gael gwared ar y gofyniad fod Gweinidogion Cymru yn asesu effaith y Ddeddf yn ôl boddhad cleifion a'r cyhoedd â gwasanaethau, a chredaf fod gwelliant 37 y Gweinidog yn mynd yn bell iawn i fynd i'r afael â'r mater penodol hwnnw.

At Stage 2, I considered that it would be inconsistent for the Assembly to add additional indicators for health boards and NHS trusts to report against at a time when the effect of the Minister's wider amendments was to significantly reduce the original range of indicators in the text of the Bill. At the time, the Minister argued that indicators should be limited solely to those that had a causal relationship. However, the Minister has subsequently proposed an amendment to increase the number of indicators that health boards and NHS trusts report against, which, as I said, I welcome. And, as a result, I believe it would be reasonable for the Assembly also to introduce other indicators at this stage. Consequently, I welcome Darren's amendment 25, which specifically lists occurrences of patients developing hospital-acquired infections as an example of the information included in nurse staffing level reports. This was an indicator in the original text of my Bill as introduced, and I was disappointed that it was lost during the amendments at Stage 2. I believe it would be wholly appropriate for this amendment to be supported this afternoon.

I also support amendments 23 and 24, which would denote hydration and nutrition as additional elements that may be reported on by the health boards and NHS trusts. I believe it would be wholly reasonable for these matters to be reported on, particularly in light of the Minister's comments at Stage 2 that hydration and nutrition, I quote,

'are central to the role of the nurse'.

I'm also happy to support amendment 36, which will enable greater public understanding by defining in plain language that the reports that health boards and NHS trusts are to submit are to be described as 'nurse staffing level reports'. Thank you.

Yng Nghyfnod 2, roeddwn o'r farn y byddai'n anghyson i'r Cynulliad ychwanegu dangosyddion ychwanegol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG adrodd yn eu herbyn ar adeg pan oedd effaith gwelliannau ehangach y Gweinidog yn mynd i leihau'n sylweddol yr ystod wreiddiol o ddangosyddion yn nhestun y Bil. Ar y pryd, dadleuodd y Gweinidog y dylai dangosyddion fod yn gyfyngedig i'r rhai a oedd â pherthynas achosol yn unig. Fodd bynnag, wedi hynny mae'r Gweinidog wedi cynnig gwelliant i gynyddu nifer y dangosyddion y mae byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG yn adrodd yn eu herbyn, ac rwy'n croesawu hynny, fel y dywedais. Ac o ganlyniad, rwy'n credu y byddai'n rhesymol i'r Cynulliad hefyd gyflwyno dangosyddion eraill ar y cam hwn. O ganlyniad, rwy'n croesawu gwelliant 25 Darren, sy'n rhestru'n benodol achosion o gleifion sy'n datblygu heintiau a geir mewn ysbytai fel enghraifft o'r wybodaeth a gynhwysir mewn adroddiadau ar lefelau staff nyrsio. Roedd hwn yn ddangosydd yn nhestun gwreiddiol fy Mil fel y'i cyflwynwyd, ac roeddwn yn siomedig ei fod wedi'i gollu yn ystod y gwelliannau yng Nghyfnod 2. Rwy'n credu y byddai'n hollol briodol i'r gwelliant hwn gael ei gefnogi y prynhawn yma.

Rwyf hefyd yn cefnogi gwelliannau 23 a 24, a fyddai'n dynodi hydradu a maeth fel elfennau ychwanegol y gallai'r byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG adrodd arnynt. Rwy'n credu y byddai'n gwbl resymol i adrodd ar y materion hyn, yn enwedig yng ngoleuni sylwadau'r Gweinidog yng Nghyfnod 2 fod hydradu a maeth, a dyfynnaf,

'are central to the role of the nurse'.

Rwyf hefyd yn hapus i gefnogi gwelliant 36, a fydd yn ymestyn dealltwriaeth y cyhoedd drwy ddiffinio mewn iaith glir fod yr adroddiadau y mae'r byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG i'w cyflwyno i gael eu disgrifio fel 'adroddiadau ar lefelau staff nyrsio'. Diolch.

17:31 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ateb.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:32 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Can I thank Members for indicating their support for Government amendments in this group? They were brought forward in order to strengthen reporting arrangements while ensuring that the reporting regime set up in this Bill remains proportionate, relevant and supported by evidence.

The case for the importance of hydration, nutrition and healthcare-acquired infections has been very well made, and nobody could possibly dispute it. What hasn't been established here this afternoon is the causal connection between those clinical conditions and the number of nurses on the ward. Unless it's possible to do that, then those indicators don't belong in this Bill. And that is not in any way to undermine their importance per se. I ask Members to support the Government amendments and to reject all others in this group.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. A gaf fi ddiolch i'r Aelodau am ddynodi eu cefnogaeth i welliannau'r Llywodraeth yn y grŵp hwn? Cawsant eu cyflwyno er mwyn cryfhau trefniadau adrodd gan sicrhau bod y weithdrefn adrodd yn y Bil hwn yn parhau i fod yn gymesur, yn berthnasol ac wedi'i chefnogi gan dystiolaeth.

Mae'r achos dros bwysigrwydd hydradu, maeth a heintiau a geir mewn gofal iechyd wedi'i gyflwyno'n dda iawn, ac ni allai neb ddadlau yn ei gylch. Yr hyn na chafodd ei sefydlu y prynhawn yma yw'r cysylltiad achosol rhwng cyflyrau clinigol o'r fath a nifer y nyrsys ar y ward. Oni bai ei bod yn bosibl gwneud hynny, nid oes lle yn y Bil hwn i'r dangosyddion hynny. Ac nid yw hynny'n tansellio eu pwysigrwydd fel y cyfryw mewn unrhyw ffordd. Gofynnaf i'r Aelodau gefnogi gwelliannau'r Llywodraeth ac i wrthod y gweddill yn y grŵp hwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

| | | | |
|-------|--|---|--|
| 17:33 | <p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 36 be agreed. Does any Member object? Then amendment 36 is agreed.</p> | <p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 36 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbyniwyd gwelliant 36.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| | <i>Derbyniwyd gwelliant 36 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i> | <i>Amendment 36 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i> | |
| 17:33 | <p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Darren Millar, amendment 21.</p> | <p>Darren Millar, gwelliant 21.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| | <i>Cynigiwyd gwelliant 21 (Darren Millar).</i> | <i>Amendment 21 (Darren Millar) moved.</i> | |
| 17:33 | <p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>Move.</p> | <p>Cynnig.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 17:33 | <p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 21 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23, voted against 23. In accordance with the relevant Standing Order, I cast my vote against the amendment, which consequently falls.</p> | <p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 21 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 23 o blaid, pleidleisiodd 23 yn erbyn. Yn unol â'r Rheol Sefydlog berthnasol, rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sydd o ganlyniad yn methu.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| | <i>Gwrthodwyd gwelliant 21: O blaid 23, Yn erbyn 23, Ymatal 0.</i> | <i>Amendment 21 not agreed: For 23, Against 23, Abstain 0.</i> | |
| | <i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i> | <i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i> | |
| | Canlyniad y bleidlais ar welliant 21. | Result of the vote on amendment 21. | |
| 17:33 | <p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We've had a late arrival at the ball, as it were.</p> | <p>Mae rhywun wedi cyrraedd y ddawns yn hwyr, fel petai.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| | Darren Millar, amendment 22. | Darren Millar, gwelliant 22. | |
| | <i>Cynigiwyd gwelliant 22 (Darren Millar).</i> | <i>Amendment 22 (Darren Millar) moved.</i> | |
| 17:34 | <p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>Move.</p> | <p>Cynnig.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 17:34 | <p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 22 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 22, voted against 23. Therefore, the amendment is lost.</p> | <p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 22 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 22 o blaid, pleidleisiodd 23 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| | <i>Gwrthodwyd gwelliant 22: O blaid 22, Yn erbyn 23, Ymatal 0.</i> | <i>Amendment 22 not agreed: For 22, Against 23, Abstain 0.</i> | |
| | Canlyniad y bleidlais ar welliant 22. | Result of the vote on amendment 22. | |

| | | | |
|-------|---|--|--|
| 17:34 | <p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, amendment 37.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 37 (Mark Drakeford).</i></p> | <p>Weinidog, gwelliant 37.</p> <p><i>Amendment 37 (Mark Drakeford) moved.</i></p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 17:34 | <p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>Move.</p> | <p>Cynnig.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 17:34 | <p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 37 be agreed. Does any Member object? Then amendment 37 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 37 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p> | <p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 37 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly derbyniwyd gwelliant 37.</p> <p><i>Amendment 37 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 17:34 | <p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Darren Millar, amendment 23.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 23 (Darren Millar).</i></p> | <p>Darren Millar, gwelliant 23.</p> <p><i>Amendment 23 (Darren Millar) moved.</i></p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 17:34 | <p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>Move.</p> | <p>Cynnig.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 17:34 | <p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 23 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 22, voted against 23. Therefore, the amendment is lost.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 23: O blaid 22, Yn erbyn 23, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 23.</p> | <p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 23 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 22 o blaid, pleidleisiodd 23 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.</p> <p><i>Amendment 23 not agreed: For 22, Against 23, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 23.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 17:35 | <p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Darren Millar, amendment 24.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 24 (Darren Millar).</i></p> | <p>Darren Millar, gwelliant 24.</p> <p><i>Amendment 24 (Darren Millar) moved.</i></p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 17:35 | <p>Darren Millar Bywgraffiad Biography</p> <p>Move.</p> | <p>Cynnig.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 17:35 | <p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 24 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23, voted against 23. I cast my vote against the amendment, which falls.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 24: O blaid 23, Yn erbyn 23, Ymatal 0.</i></p> | <p>Y cwestiwn yw bod gwelliant 24 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 23 o blaid, pleidleisiodd 23 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.</p> <p><i>Amendment 24 not agreed: For 23, Against 23, Abstain 0.</i></p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 24.](#)

[Result of the vote on amendment 24.](#)

17:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Darren Millar, amendment 25. Darren Millar, gwelliant 25.

Cynigiwyd gwelliant 25 (Darren Millar).

Amendment 25 (Darren Millar) moved.

17:35 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Move. Cynnig.

17:35 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 25 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 22, voted against 23. Therefore, the amendment is lost. Y cwestiwn yw bod gwelliant 25 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 22 o blaid, pleidleisiodd 23 yn erbyn. Felly, mae'r gwelliant yn methu.

Gwrthodwyd gwelliant 25: O blaid 22, Yn erbyn 23, Ymatal 0.

Amendment 25 not agreed: For 22, Against 23, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 25.](#)

[Result of the vote on amendment 25.](#)

17:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Darren Millar, amendment 26. Darren Millar, gwelliant 26.

Cynigiwyd gwelliant 26 (Darren Millar).

Amendment 26 (Darren Millar) moved.

17:36 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Move. Cynnig.

17:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 26 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23, voted against 23. I cast my vote against the amendment, which falls. Y cwestiwn yw bod gwelliant 26 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 23 o blaid, pleidleisiodd 23 yn erbyn. Rwy'n bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu.

Gwrthodwyd gwelliant 26: O blaid 23, Yn erbyn 23, Ymatal 0.

Amendment 26 not agreed: For 23, Against 23, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 26.](#)

[Result of the vote on amendment 26.](#)

17:36 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, amendment 38. Weinidog, gwelliant 38.

Cynigiwyd gwelliant 38 (Mark Drakeford).

Amendment 38 (Mark Drakeford) moved.

| | | | |
|-------|--|---|--|
| 17:36 | <p>Mark Drakeford Bywgraffiad Biography</p> <p>Moved.</p> | Cynigiwyd. | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |
| 17:57 | <p>Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bleser gen i gyflwyno'r ddadl fer yma y prynhawn yma. Rwy'n hapus iawn i gynnig amser hefyd, i gyfrannu i'r ddadl, i Mark Isherwood ac i Aled Roberts.</p> | <p>Thank you very much, Deputy Presiding Officer. It is my pleasure to introduce this short debate this afternoon, and I'm very happy to give some of my time for contributions from Mark Isherwood and Aled Roberts.</p> | <p>Senedd.tv Fideo Video</p> |

Rŷm ni'n gwybod, wrth gwrs, fod Cymru yn wlad sy'n doreithiog o ddiwylliant, a beth bynnag fo ein tlodi economaidd cymharol honedig ni, nid oes amheuaeth ein bod yn gyfoethog, fel rwy'n dweud, yn ddiwylliannol. Y diwylliant yma, a'n treftadaeth ni, wrth gwrs, yw'r glud sydd yn ein huno ni ac yn ein creu ni'n genedl, sy'n rhoi'r hunaniaeth i ni. Ac rŷm ni'n dathlu ac yn hyrwyddo ein diwylliant mewn amryw ffyrdd: mae gennym ni nifer o wyliau cerddorol; mae gennym ni ddiwylliant a diwydiant argraffu a llenorion ffyniannus; mae'r theatr Gymreig gennym—dwy theatr genedlaethol a nifer o gwmnïau theatrig annibynnol llai—oll yn adrodd fersiynau gwahanol ar stori ein cymdeithas ni yng Nghymru, ac yn cronico yn eu ffordd eu hunain y newid cymdeithasol sy'n digwydd o ddydd i ddydd ac o flwyddyn i flwyddyn. Ac mae hyn oll yn sicrhau bod ein diwylliant ni'n parhau, wrth gwrs, a hefyd, yn bwysig iawn, yn esblygu.

Ond mae'r cyfan hefyd yn cael ei gronico yn ein hamgueddfeydd. Mae ein hamgueddfeydd yn dathlu ac yn cadw ar gof ein gorffennol ni, o'r pethau tywyllaf, efallai, i'r pethau mwyaf goleuedig, gan sicrhau nad ym ni'n anghofio, a'n bod ni'n dysgu wrth inni ddatblygu ac aeddfedu fel gwlad. Mae Llywodraeth Cymru, wrth gwrs, wedi cymryd arni gyfrifoldeb i gyfrannu ac i gynnal a chadw rhannau dethol o'r dreftadaeth honno drwy'r amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol sydd gennym ni. Mae hefyd yn ariannu cyngor y celfyddydau, sy'n sicrhau parhad elfennau creiddiol o'n diwylliant drwy ffynonellau ariannu a chefnogaeth amhrisiadwy mewn ffyrdd eraill. Fel y dywedais i, mae pob un o'r rhain yn adrodd hanes Cymru wrthym—yn ei adrodd yn ôl wrthym ni ein hunain, ond hefyd, yr un mor bwysig, yn ei adrodd wrth weddill y byd. Dyma gofnod diriaethol o'r marc yr ym ni wedi ei osod ar y cilcyn hwn o'r byd o leiaf.

Rhaid cofio mai adrodd hanes pobl y mae amgueddfeydd yn ei wneud, wrth gwrs, beth bynnag fo'r cyfnod a beth bynnag y creiriau—adrodd hanes pobl, cymdeithas a gwlad yw eu pwrpas nhw. Wrth ein bod ni'n ymweld ag amgueddfa wla'n ragorol Dre-fach Felindre, rŷm ni'n cael hanes y diwydiant hwnnw, a rôl gwla'n ac amaethyddiaeth yng nghymdeithasau a bywydau pobl Cymru dros y canrifoedd, gan weld sut mae cymdeithas ac agweddau wedi newid dros y canrifoedd hefyd. Ar yr un pryd, mae'r amgueddfa yn dathlu rôl y rhanbarth arbennig hwnnw yn hanes ein gwlad.

Yr un modd, wrth gwrs, wrth inni ymweld â Big Pit rŷm ni'n gweld y newid cymdeithasol aruthrol a ddigwyddodd o ganlyniad i gyflwyno'r diwydiannau mawr, trymion, a'r bobl a ddaeth yma gan gyfrannu at ein gwlad a'n diwylliant, y dioddef, yr anghyfiawnder, a'r newid cymdeithasol a ddaeth wrth i syniadau am hawliau gweithwyr, a chyfiawnder i blant ac yn y blaen ledw. Hefyd, cawn ddatliad neu gydnabyddiaeth o rôl y cornel hwnnw o'r byd yn nhwfa datblygiad Cymru. Mae'r un yn wir, wrth gwrs, ym mhob un o'n hamgueddfeydd ac orielau cenedlaethol, ac mae'n rhaid eu llongyfarch nhw ar y gwaith rhagorol y maen nhw'n ei wneud.

We know, of course, that Wales abounds with culture, and, whatever our claimed comparative economic poverty, there is no doubt that we are culturally rich, as I have said. This culture, and our heritage, is the glue that binds us as a nation and also sets us apart, giving us our identity. And we celebrate and promote our culture in many ways: we have a number of music festivals; we have a vibrant and flourishing publishing and literary scene; the Welsh theatre is vibrant—we have two national theatre companies and a number of smaller independent companies—all providing different interpretations of the story of our society in Wales, and chronicling in their own way the social changes that happen from day to day and year on year. And all of this ensures that our culture survives, of course, and, very importantly, evolves.

But it is all also chronicled in our museums. Our museums celebrate and commemorate our past, from the darkest hours to the most enlightened achievements, ensuring that we do not forget and that we learn as we develop and mature as a nation. The Welsh Government, of course, has taken on the responsibility of contributing and maintaining selected parts of that heritage through the national museums and galleries that we have. It also funds the arts council, which ensures that core elements of our culture are sustained through funding sources and which provides invaluable support in other ways. As I have said, all of these tell the story of Wales—telling us our own story, but also, just as importantly, telling our story to the rest of the world. This is a tangible record of our influence on this small corner of the world.

We must bear in mind that museums tell people stories, of course, whatever the period they cover or whatever the artefacts they hold—their purpose is to tell the story of people, society and nations. As we visit the excellent wool museum in Dre-fach Felindre, we learn the story of that industry and the role that wool and agriculture played in the communities and lives of the people of Wales over centuries, seeing how society and attitudes have evolved and changed over centuries. Simultaneously, the museum celebrates the role of that particular region in our nation's history.

Likewise, of course, as we visit Big Pit we see the huge social changes that happened as a result of the introduction of heavy industry, the people who came here, contributing to our nation and our culture, the suffering, the injustices, and the social changes that emerged as ideas relating to workers' rights and justice for children gained sway. Also, there is a celebration or recognition of the role of that corner of the world in the growth and development of Wales. The same is true of all of our national museums and galleries, and we must congratulate them on the excellent work that they do.

Ond er gwaethaf y doreth o ddiwylliant nodedig sydd gennym, ac sy'n cael ei dathlu, ei chydabod, a'i chadw yn ein hamgueddfeydd ac orielau cenedlaethol, mae yna un rhan ganolog o'n diwylliant ar goll. Nid oes yna ddim i ddathlu ein campau ni fel Cymry. Os oes rhywbeth a ellir adrodd hanes ein pobl a chymdeithas dros y 150 o flynyddoedd diwethaf, yna, yn fy marn i, hanes a thwff pêl-droed yw hynny. Mae gan Gymru hanes hir a balch ym mhêl-droed, ac mae'r gêm wedi chwarae rhan ganolog yn hanes diwylliannol Cymru ers yr oes Fictorianaid. O dwf yr undebau llafur a chyflwyniad y penwythnos o wyliau, i rôl y teledu yn fwy diweddar yn nhwf y gêm, a heddiw, wrth gwrs, y bobl, y cefnogwyr, yn dechrau ailgydio ym mherchnogaeth eu clybiau pêl-droed, a thwff cynyddol y gêm ymhlith menywod hefyd ym mhêl-droed a'r frwydr am gydraddoldeb yn y cyd-destun hwnnw, mae hanes pobl Cymru yn cael ei adlewyrchu yn hanes y gêm sy'n cael ei hadnabod fel y gêm brydferth, 'the beautiful game'.

Yn wir, mae'r ffaith bod gennym ni gymdeithas bêl-droed genedlaethol yn ei hun yn ddatganiad, ac yn rhyfeddol, a dweud y gwir. Dyma symbolaeth berffaith o fodolaeth ein cenedl ni cyn bod gan Gymru bron unrhyw sefydliad cenedlaethol arall—cyn bod gennym brifddinas, cyn sefydlu Prifysgol Cymru, cyn inni hyd yn oed gael anthem genedlaethol neu faner gydnabyddedig, a chyn i Alfred Thomas, Aelod Seneddol Dwyrain Morgannwg gynt, gyflwyno deddfwriaeth sefydliadau cenedlaethol Cymru yn ôl ym 1891, mi roedd Cymdeithas Bêl-droed Cymru eisoes yn bodoli. Mi gafodd ei sefydlu ym 1876, fel rŷm ni i gyd yn gwybod, rwy'n siŵr. Yn wir, mi ddathlodd ei phen-blwydd yn 140 ddoe yn unig. Felly, mae amseriad y ddadl hon yn addas iawn. Dyna ichi symbolaeth amlwg a datganiad clir o fodolaeth Cymru fel cenedl.

Yn ogystal â hynny, mae pêl-droed yn croesi ffiniau cenedlaethol ac mae ganddi apêl ryngwladol. Meddyliwch chi am y troeon hynny yr ydym wedi bod ar ein gwyliau, nifer ohonom ni, i wlad dramor ac mae rhywun yn gofyn i chi o ble yr ych chi'n dod. Yr ateb, wrth gwrs yw 'Cymru', ac wedyn mae'r 10 munud nesaf yn mynd yn trio esbonio lle yn union mae Cymru, ac nad yw Cymru yn rhan o Loegr ac yn y blaen. Ond dywedwch chi wrthynt 'Ryan Giggs', 'Gareth Bale' neu 'John Charles', ac yn sydyn iawn, mae eu hwynebau nhw yn goleuo, ac maen nhw'n gwybod yn union am Gymru yn syth.

But despite the preponderance of notable culture that we have, which is celebrated, acknowledged and maintained in our national museums and galleries, there is one central part of our culture that is missing. We have nothing to celebrate our sporting prowess as a nation. If there is anything that can tell the story of our people and society over the past 150 years, then in my view, that is the history and the growth of football. Wales has a long and proud history in football, and the game has played a central role in the cultural history of Wales since Victorian times. From the growth of the trade unions and the introduction of the weekend as a time of rest, to the role of television more recently in the growth of the game, and today, of course, the supporters starting to reclaim ownership of their football clubs, and the increasing growth of women's football also and the battle for equality in that context, the story of the people of Wales is reflected in the story of the game that is known as 'the beautiful game'.

Indeed, the fact that we have a national football association in itself is a statement, and is quite astonishing, if truth be told. This perfectly symbolises the existence of our nation, before Wales had virtually any other national institutions—before we had a capital city, before the establishment of the University of Wales, before we even had a national anthem or a recognised flag, and before Alfred Thomas, the former Member of Parliament for East Glamorgan, introduced the Welsh institutions Act back in 1891, the Welsh football association was already in existence. It was established in 1876, as I'm sure we all know. Indeed, it celebrated its one-hundred-and-fortieth anniversary just yesterday. So, the timing of this debate is very appropriate. That is a clear declaration of the existence of Wales as a nation.

In addition to that, football crosses national boundaries and has an international appeal. If you think of those times when we've been on holiday in a foreign country and someone asks you where you're from. The answer of course is 'Wales', and then the next 10 minutes is spent trying to explain exactly where Wales is, and that Wales isn't part of England, and so on and so forth. But if you say 'Ryan Giggs', 'Gareth Bale' or 'John Charles', all of a sudden their faces light up and they know exactly of Wales and where you are from.

O gael amgueddfa bêl-droed genedlaethol, mi fyddai'r Llywodraeth yn cydnabod ystod llawn ein diwylliant ni yma yng Nghymru, a phwysigrwydd yr elfennau hynny yn ein hanes cenedlaethol ni, fel rwyf wedi'i amlinellu. Ond tra bo agor amgueddfa genedlaethol yn fuddsoddiad yn ein hanes a'n diwylliant ni, mae e hefyd yn fuddsoddiad economaidd yn yr ardal benodol honno. Nid oes ond rhaid edrych ar ffigurau amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol Cymru i weld y budd economaidd y mae'r rhain yn ei roi i wahanol ardaloedd o amgylch Cymru. Roeddwn yn sôn am amgueddfa wla'n Dre-fach Felindre yn gynharach; mae'n denu o gwmpas 33,000 o ymwelwyr y flwyddyn, a'r rheini'n gwario ychydig o dan £1 miliwn y flwyddyn yn yr ardal honno. Mae'n sefydliad sy'n cyflogi 29 mewn swyddi, neu o leiaf swyddi sy'n cyfateb i swyddi llawn amser. Ar ben arall y sbectrum, mae'r amgueddfa genedlaethol yn Sain Ffagan yn denu dros 0.5 miliwn o ymwelwyr yn flynyddol, a'r rheini'n gwario rhyw £14 miliwn yn yr economi leol, ac yn cefnogi rhyw 424 o swyddi sy'n cyfateb i swyddi llawn amser. Wrth gwrs, rŷm ni'n gwybod am bwysigrwydd Sain Ffagan, ac arwyddocâd Sain Ffagan yn y ffaith bod amgueddfeydd eraill wedi'u hysgogi ac ysbrydoli yn ei sgil. Ni fedraf restru rhagoriaethau'r holl amgueddfeydd, ond, wrth gwrs, rwy'n credu eich bod chi wedi cael y neges.

Mae amgueddfeydd yn llwyddo i ddenu ymwelwyr o bell ac agos. Mae gan Loegr amgueddfa bêl-droed hynod ym Manceinion, sydd wedi denu dros 1 filiwn o ymwelwyr, ac rwyf i yn un ohonyn nhw, mewn ychydig dros ddwy flynedd. Yn wir, fe ddenodd dros 100,000 o ymwelwyr yn ei chwe wythnos gyntaf yn unig. Mae'n werth nodi, gyda llaw, wrth sôn am yr amgueddfa honno yn benodol, y cafodd yr athrylith pêl-droed, Ivor Allchurch—y Cymro, wrth gwrs—ei dderbyn i neuadd anfarwolion amgueddfa bêl-droed Loegr ym mis Hydref llynedd; cydnabyddiaeth deilwng iddo fe, ond eto, wrth gwrs, nid oes gennym neuadd yr anfarwolion i bêl-droedwyr Cymreig yma yn ein gwlad ni'n hunain inni fedru dathlu ei gyfraniad ef fel gwlad. Mae yno hefyd arddangosfa am y dewin Billy Meredith—Cymro arall, wrth gwrs—a'i rôl ef wrth greu undeb y chwaraewyr ym 1907, ond eto, nid yw ei genedl e ei hun yn dathlu ei gyfraniad sylweddol ef i bêl-droed ac i hawliau chwaraewyr, sydd yn biti garw.

Felly, mae'r achos dros sefydlu amgueddfa bêl-droed genedlaethol yn glir, yn fy meddwl i: mae'n ddathliad o ran ganolog o'n treftadaeth a'n diwylliant ni, a byddai ei sefydlu yn debygol o fod yn hwb economaidd sylweddol i'r ardal dan sylw hefyd.

Ail ran y ddadl ar gyfer y prynhawn yma yw lleoliad yr amgueddfa honno. Rwy'n cynnig y dylai gael ei sefydlu yn Wrecsam. Mae gan Wrecsam a'r cylch, wrth gwrs, gysylltiadau cryf iawn â'r tîm pêl-droed cenedlaethol ac â'r gêm. Yn Wrecsam y sefydlwyd y gymdeithas bêl-droed, yn y Wynnstay, yng nghanol y dref, fel yr oeddwn yn ei ddweud, 140 o flynyddoedd yn ôl i'r wythnos yma. Y Cambrian Football Association, rwy'n meddwl, oedd yr enw gwreiddiol, cyn iddo gael ei newid ychydig wedyn i fod yn Football Association of Wales.

In having a national football museum, the Government would be recognising the full range of our culture here in Wales, and the importance of those elements in our national history, as I have already outlined. But whilst opening a national museum is an investment in our history and culture, it is also an economic investment in that specific area. You need only at the figures for national museums and galleries in Wales to see the economic benefits that accrue from these institutions to various areas around Wales. I was talking about the wool museum in Dre-fach Felindre; it attracts about 33,000 visitors annually, and they spend a little under £1 million per annum in that area. It's an institution that employs 29 people, or at least jobs that equate to 29 full-time jobs. At the other end of the spectrum, of course, we have the national museum in St Fagans, which attracts over 0.5 million visitors annually, who spend some £14 million in the local economy, and it employs some 424 full-time equivalents. Of course, we all know of the importance of St Fagans, and the significance of St Fagans in the fact that other museums have been inspired by it. I cannot list all of those excellent museums, but, of course, I think the message is coming across.

Museums do attract visitors from near and far. England has an excellent football museum in Manchester that has attracted over 1 million visitors, and I'm one of them, in a little under two years. Indeed, it attracted over 100,000 visitors in just its first six weeks. It's also worth noting, in talking of that museum particularly, that the Welsh football genius, Ivor Allchurch, was inducted into the English football museum hall of fame in October of last year; well deserved, of course, but yet we don't have our own hall of fame for Welsh footballers in our own nation so that we, as a country, can celebrate his contribution. There is also an exhibition about the Welsh wizard Billy Meredith and his role in creating the players union in 1907, but, again, his own nation doesn't celebrate his significant contribution to football and to players' rights, which is a great shame.

So, the case for establishing a national football museum is clear in my own mind: it would be a celebration of a central part of our heritage and culture, and establishing it would be a significant economic boost to the area in question.

The second part of the debate this afternoon is the location of that particular museum. I propose that it should be established in Wrexham. Wrexham and the surrounding areas have strong links with the national football team and with the game more generally. It was in Wrexham, in the Wynnstay in the town centre, that the football association was established, as I was saying, 140 years ago to this week. It was, I think, originally called the Cambrian Football Association, before it was later changed to the Football Association of Wales.

Yn nalgyloch Wrecsam y mae rhai o glybiau hynaf y byd: clwb pêl-droed Wrecsam ei hun yn un, wrth gwrs, Derwyddon Cefn yn un arall, a chlwb y Waun, Chirk Athletic, hefyd yn dyddio yn ôl i ddyddiau cynnar bodolaeth y gêm bêl-droed. Wrth gwrs, o ardal Wrecsam y daw nifer o anfarwolion y gêm, yn enwedig yn y cyfnod cynharaf, o safbwynt ein tîm cenedlaethol ni—pobl megis William Bailiff o Riwabon, Ray Bennion o Wersyllt, Horace Blew o Esclusham, Thomas Boden a Tom Burke, heb sôn, wrth gwrs, am enwau mwy cyfarwydd a mwy cyfoes: pobl fel Billy Meredith, yr oeddwn yn cyfeirio ato, Mark Hughes—ac rwy'n dal i gael gwefr wrth weld y gôl yna yn ôl ym 1985; y gic siswrn yn y Cae Ras, pan gurodd Cymru Sbaen o dair gôl i ddim, a brysied y dydd y byddwn yn llwyddo i wneud hynny eto, wrth gwrs—a'r digyffelyb Robbie Savage, sydd yn gymeriad ond, wrth gwrs, sydd yn ffigwr amlwg yn y gêm Gymreig hefyd. Wrth gwrs, erbyn hyn, mae gan bob rhan o Gymru ei harwr pêl-droed Cymreig, ac mae hi ond yn iawn y byddwn ni'n dathlu a chydabod y rhan y maen nhw wedi'i chwarae.

Y Cae Ras hefyd, wrth gwrs, yw'r maes chwarae rhyngwladol hynaf yn y byd sy'n dal i groesawu gemau rhyngwladol, gyda'r gêm gyntaf yno yn ôl ym 1877, pan gollodd Cymru o ddwy gôl i ddim i'r Alban. Derbyniodd y Cae Ras dystysgrif gan yr academi record byd yn ystod gem ddiweddar rhwng timau o dan 21 Cymru a Rwmania—y llynedd, rwy'n meddwl oedd hi—felly mae hynny'n record yr ym ni'n falch iawn ohoni. Yn Wrecsam hefyd y ffilmwyd un o'r gemau rhyngwladol pêl-droed cyntaf erioed, wrth i Gymru gael gêm gyfartal o bedair gôl yr un yn erbyn Iwerddon; dyna ichi gêm oedd honno—mae'n swnio fel tipyn o gêm.

Yn olaf, mae'n werth nodi bod gan amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol Cymru gynrychiolaeth ar hyd a lled Cymru—hynny yw, ar hyd a lled Cymru ac eithrio'r gogledd ddwyrain. Fel y dywedodd y diweddar Dr John Davies mewn darlith i'r Eisteddfod Genedlaethol yn yr Wyddgrug rai blynyddoedd yn ôl—maddeuwch imi, rwyf wedi gorfod cyfieithu o gopi Saesneg i'r Gymraeg, oherwydd nid oedd y copi Cymraeg gen i—mae yna dueddiad, yn y de yn arbennig, ond efallai hefyd yn y gogledd orllewin, i ystyried y gogledd ddwyrain i fod yn rhan ar wahân o Gymru, neu hyd yn oed i fod yn ychwanegiad i Lannau Merswy yn fwy nag yn rhan ganolog o'r genedl Gymreig. Mae e'n mynd ymlaen i ddweud nad yw'r rhanbarth yn cael ei siâr o sefydliadau Cymreig—ac mae yna wirionedd mawr yn hynny—nid am ei fod yn le anaddas i leoli'r fath sefydliadau, ond oherwydd ein bod ni yng ngweddill Cymru wedi cynllwynio i ymleiddio'r rhanbarth. Wel, dyna a ddywedodd John Davies.

Mae'r gogledd ddwyrain, wrth gwrs, wedi chwarae rhan gwbl ganolog yn hanes y genedl Gymreig. Mae'r bobl yno yn rhan allweddol o Gymru, ac mae hwythau'n haeddu cael dweud eu stori ac i'r stori honno gael ei chlywed.

Fel y dywedais i, pwrpas amgueddfa yw cronicle ac arddangos hanes pobl drwy wahanol ddulliau. Hanes pobl yw hanes pêl-droed Cymru. Gadewch inni dathlu hanes pobl gogledd-ddwyrain Cymru, a dathlu pêl-droed Cymru gyfan, drwy weld sefydlu amgueddfa bêl-droed genedlaethol yn Wrecsam.

The Wrexham area has some of the oldest clubs in the world: Wrexham football club itself, Cefn Druids is another, and Chirk Athletic, which dates back to the early days of football as a sport. Of course, it's from the Wrexham area that many of our earliest heroes hail, particularly in terms of our national team—people such as William Bailiff from Ruabon, Ray Bennion from Gwersyllt, Horace Blew from Esclusham, Thomas Boden and Tom Burke, without forgetting, of course, the more recognised recent names. These include Billy Meredith, who I mentioned earlier; Mark Hughes—and it still thrills me to see that goal in 1985; the scissor kick in the Racecourse, when Wales beat Spain by three goals to nil, and hasten the day when we do that again, of course—and the inimitable Robbie Savage, who is quite a character but, of course, a prominent figure in the Welsh game. These days, all parts of Wales have their own football heroes, and it's only right that we celebrate and recognise the part that they have played.

The Racecourse, of course, is the oldest international football ground in the world that still hosts international matches, with the first game played back in 1877, when Wales lost by two goals to nil against Scotland. The Racecourse received a certificate from the world records academy during a recent game between the Wales and Romanian under 21s—I think it was last year—so, that's a record that we're very proud of. It was in Wrexham, too, that one of the first international matches was filmed, as Wales drew four all against Ireland; what a game that was—it sounds like quite a match.

Finally, it is worth noting that the national museum and galleries of Wales have representation across Wales—that is, across Wales with exception of the north-east. As the late Dr John Davies said in a lecture in the National Eisteddfod in Mold some years ago—forgive me, I've had to translate from an English copy because I didn't have a Welsh copy of the lecture—there is a trend, particularly in south Wales but also, perhaps, in the north-west, to consider the north-east as being a separate part of Wales, or even as an add-on to Merseyside, rather than being a central part of the Welsh nation. He goes on to say that the region doesn't get its share of Welsh institutions—and there's great truth in that—not because it's an inappropriate place for such institutions. There's great truth there, not because it's inappropriate for such institutions, but because we in the rest of Wales have plotted to marginalise the region. Well, those are the words of John Davies.

The north-east, of course, has played a central part in the history of the Welsh nation. The people there are an integral part of Wales and they, too, deserve to be able to tell their own story, and for that story to be heard.

As I said, the purpose of a museum is to chronicle and display people's history in different ways. The story of football in Wales is the story of people. Let's celebrate the story of the people of north-east Wales, and celebrate Welsh football as a whole, by seeing the establishment of a national football museum in Wrexham.

18:09

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, Wrexham has an excellent local museum, and I commend its current Brymbo Fossil Forest free exhibition. But people in north Wales can only visit one of the seven free-entry National Museum Wales sites within a realistic 60-mile radius travelling distance, whereas people in Cardiff and Swansea can visit six. Because Wrexham is football's spiritual birthplace in Wales, the region's people do deserve a Welsh national football museum.

Wrexham's Racecourse stadium has a 200-year history as a sporting venue. As well as horse racing, the Racecourse was also used by Wrexham cricket club, and it was the club's members who formed Wrexham football club in 1872. It's where the first international match was played in Wales; where the oldest international ground in the world is located; where the Football Association of Wales was formed; and home to Wrexham AFC—one of the world's oldest football clubs.

Finally, a national football museum in Wrexham could also act as a memorial for the 266 miners who lost their lives in the Gresford disaster, where many of the men working that day had switched shifts so that they could watch a home game the following Saturday at the Racecourse.

Wrth gwrs, mae gan Wrecsam amgueddfa leol ardderchog, a chymeradwyaf ei harddangosfa gyfredol rad ac am ddim ar Goedwig Ffossilau Brymbo. Ond un yn unig o saith safle Amgueddfa Genedlaethol Cymru lle y ceir mynediad am ddim y gall pobl yng ngogledd Cymru ymweld â hi o fewn cwmpas realistig o 60 milltir o bellter teithio, lle y gall pobl yng Nghaerdydd ac Abertawe ymweld â chwech o fewn y pellter hwnnw. Gan mai Wrecsam yw man geni ysbrydol pêl-droed yng Nghymru, mae pobl y rhanbarth yn haeddu amgueddfa bêl-droed genedlaethol i Gymru.

Mae gan stadiwm y Cae Ras yn Wrecsam hanes 200 mlynedd fel lleoliad chwaraeon. Yn ogystal â rasio ceffylau, defnyddid y Cae Ras hefyd gan glwb criced Wrecsam, ac aelodau'r clwb a ffurfiodd glwb pêl-droed Wrecsam yn 1872. Dyma ble y chwaraewyd y gêm ryngwladol gyntaf yng Nghymru; lle y lleolir y cae rhyngwladol hynaf yn y byd; lle y ffurfiwyd Cymdeithas Bêl-droed Cymru; a chartref Clwb Pêl-droed Wrecsam—un o glybiau pêl-droed hynaf y byd.

Yn olaf, gallai amgueddfa bêl-droed genedlaethol yn Wrecsam weithredu hefyd fel cofeb i'r 266 o lowyr a golodd eu bywydau yn nhrychineb Gresfordd, lle roedd llawer o'r dynion a oedd yn gweithio y diwrnod hwnnw wedi newid shifftiau fel y gallent wylïo gêm gartref y dydd Sadwrn canlynol ar y Cae Ras.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:10

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn y lle cyntaf, rwy'n meddwl y byddwn i'n cytuno gair am air efo beth ddywedodd Llyr. Well imi ddatgan diddordeb, hefyd, fel Aelodau eraill: rwyf i'n aelod o Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Wrecsam.

Yn amlwg, rwy'n meddwl bod gan y Gweinidog rhywbeth i'w ddweud, gobeithio. Nid yw hwn yn syniad newydd. Rwy'n cofio cyfarfod efo Alun Ffred Jones rai blynyddoedd yn ôl, lle roeddem ni'n sôn am y syniad yma, ac eto, nid oes yna unrhyw symud ymlaen wedi cael ei wneud. Erbyn hyn, wrth gwrs, ers hynny, mae yna lawer iawn ohonom ni wedi bod yn dioddef yn flynyddol wrth wylïo pêl-droed yn y gogledd-ddwyrain, yn anffodus. Yn sicr, os ydw i'n mynd dramor, nid wyf yn sôn am Gymru, wrth gwrs, rwy'n sôn am Wrecsam, achos mae pawb yn Ewrop yn gwybod am y gemau—Anderlecht a Stal Rzeszów a Porto. Felly, bydd pawb yn gwybod yn union lle i fynd ar gyfer amgueddfa genedlaethol pêl-droed Wrecsam, sef cartref pêl-droed yng Nghymru.

In the first place, I think I would agree word for word with what Llyr said. I must declare an interest, as other Members have done: I am a member of the Wrexham Supporters Trust.

Clearly, I think that the Minister has something to say, hopefully. This isn't a new idea. I remember meeting with Alun Ffred Jones a few years ago, when we were talking about this idea, and yet there has been no movement on this. By now, of course, since then, a number of us have been suffering on an annual basis when watching football in the north-east, unfortunately. Certainly, if I go abroad, I don't talk about Wales, I talk about Wrexham, because everybody in Europe knows about the games—Anderlecht and Stal Rzeszów and Porto. Therefore, everybody would know where to go for a national football museum in Wrexham, which is the home of football in Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:11

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism to reply. Ken Skates.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth i ateb. Ken Skates.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth / The Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'd like to thank Llyr Gruffydd for raising this very important subject today. Can I also thank Mark Isherwood and Aled Roberts for their contributions? As fellow Wrexham supporters, I'd also like to put on record my thanks to Wrexham AM, Lesley Griffiths, and Member of Parliament Ian Lucas for making impassioned representations to me concerning the provision of sport and cultural facilities in the town.

Members are clearly aware of the existence of the National Football Museum in Manchester, as well as other world-class museums in Liverpool, Manchester and Llanberis. The National Slate Museum is the only national museum of Wales in north Wales, but it is complemented by many excellent accredited museums across the region including Wrexham museum. Indeed, Wrexham museum, as Mark Isherwood has touched on, is currently showing a fantastic exhibition of the fossilised forest from Brymbo—an outstanding exhibition that I had the pleasure of opening last week. In recent years, it's also featured exhibitions concerning Egyptian history and the world-famous gold cape loaned to them by the British Museum.

However, in recognising the potential to grow the town and the region's cultural offer further, last year, I asked my officials to examine the possibility of developing an eighth national museum in Wales located in north-east Wales. Such an attraction, and, of course, an invaluable education resource, would offer a seamless journey from York in England through Manchester, Liverpool and right through to Llanberis of world-class cultural institutions. It could easily draw on the many millions of residents living within an hour's drive of Wrexham and significantly boost the visitor economy of north-east Wales.

Deputy Presiding Officer, it became clear, through the work of my officials, a considerable cost would be incurred in creating a brand new national museum. At present, the redevelopment of St Fagans is drawing on capital expenditure, but upon completion, the national museum will have an opportunity to earmark investment for future major undertakings. It is my hope that resources can be dedicated to the creation of a national museum in north-east Wales. It needn't be located in a brand-new building if not necessary, but it could be utilising one of the region's many existing facilities. It could be delivered through partnership and collaboration across a number of sectors, including higher and further education and the sports and arts communities.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Hoffwn ddiolch i Llyr Gruffydd am dynnu sylw at y pwnc pwysig hwn heddiw. A gaf fi ddiolch hefyd i Mark Isherwood ac i Aled Roberts am eu cyfraniadau? Fel cyd-gefnogwyr Wrecsam, hoffwn gofnodi fy niolch hefyd i Aelod Cynulliad Wrecsam, Lesley Griffiths, a'r Aelod Seneddol, Ian Lucas am gyflwyno sylwadau angerddol i mi ynglŷn â darparu cyfleusterau chwaraeon a diwylliannol yn y dref.

Mae'r Aelodau'n amlwg yn ymwybodol o fodolaeth yr Amgueddfa Bêl-droed Genedlaethol ym Manceinion, yn ogystal ag amgueddfeydd eraill o safon fyd-eang yn Lerpwl, Manceinion a Llanberis. Amgueddfa Lechi Cymru yw'r unig un o amgueddfeydd cenedlaethol Cymru sydd yng ngogledd Cymru, ond caiff ei hategu gan nifer o amgueddfeydd achrededig rhagorol ar draws y rhanbarth, gan gynnwys amgueddfa Wrecsam. Yn wir, mae amgueddfa Wrecsam, fel y mae Mark Isherwood wedi crybwyll, ar hyn o bryd yn dangos arddangosfa wych o goedwig ffosiledig Brymbo—arddangosfa ragorol y cefais y pleser o'i hagar yr wythnos diwethaf. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae hefyd wedi cynnwys arddangosfeydd yn ymwneud â hanes yr Aifft a'r clogyn aur byd-enwog a roddwyd ar fenthg iddynt gan yr Amgueddfa Brydeinig.

Fodd bynnag, wrth gydnabod y potensial i dyfu'r dref ymhellach a'r hyn sydd gan y rhanbarth i'w gynnig yn ddiwylliannol, y llynedd, gofynnais i fy swyddogion edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu wythfed amgueddfa genedlaethol yng Nghymru a'i lleoli yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Byddai atyniad o'r fath, ac adnodd addysg amhrisiadwy, wrth gwrs, yn cynnig taith ddi-dor o Efrog yn Lloegr drwy Fanceinion, Lerpwl a hyd at Lanberis o sefydliadau diwylliannol o'r radd flaenaf. Gallai'n hawdd ddenu'r miliynau lawer o drigolion sy'n byw o fewn awr o daith car o Wrecsam a rhoi hwb sylweddol i economi ymwelwyr â gogledd-ddwyrain Cymru.

Ddirprwy Lywydd, daeth yn amlwg, drwy waith fy swyddogion, y byddai cost sylweddol ynghlwm wrth greu amgueddfa genedlaethol newydd sbon. Ar hyn o bryd, mae ailddatblygu Sain Ffagan yn tynnu ar wariant cyfalaf, ond ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd yr amgueddfa genedlaethol yn cael cyfle i glustnodi buddsoddiad ar gyfer ymgymeriadau mawr yn y dyfodol. Fy ngobaith yw y gellir neilltuo adnoddau ar gyfer y gwaith o greu amgueddfa genedlaethol yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Nid oes angen ei lleoli mewn adeilad newydd sbon os nad oes angen, ond gallai ddefnyddio un o nifer o gyfleusterau presennol y rhanbarth. Gellid ei darparu drwy bartneriaeth a chydweithrediad ar draws nifer o sectorau, gan gynnwys addysg uwch ac addysg bellach a chymunedau chwaraeon a'r celfyddydau.

Meanwhile, there is available space in Wrexham museum to develop a dedicated exhibition of national significance, along the lines of those being promoted by Assembly Members today. This is, of course, a matter for Wrexham County Borough Council, but perhaps, if the local authority wishes to collaborate with other organisations and other local authorities, then a museum of football within Wrexham museum could be delivered. It is something I would certainly be pleased to support. In doing so, I would also consider utilising capital funding from the museums, libraries and archives division of Welsh Government through appropriate works. Members may be aware that the availability of funding for the next financial year will rise by approximately £800,000; it will almost double for the community learning libraries, and for the first time that fund will be opened up to museums for transformational work. Indeed, 98 libraries have so far been transformed using that funding mechanism, and I'll shortly be opening the hundredth in Deeside.

The Welsh Government is leading the way also in digital archives and virtual museums, with the People's Collection Wales holding more than 570 items solely relating to football. So, an actual museum featuring football and possibly other sporting history would not just complement the virtual collection, but also, I believe, complement the National Football Museum in Manchester. Now, I am aware that Wrexham museum already holds, albeit currently in storage, Wales's finest collection relating to Welsh football. It includes a collection of John Charles's goods, which was purchased with support from the Heritage Lottery Fund, and which I believe deserves to be seen by the public.

Wrexham AFC is the spiritual home of football in Wales, being the oldest club in Wales and the third oldest club in the world. The Racecourse is the oldest international ground still in use for international fixtures, and as Members have pointed out, Cefn Druids AFC have a history dating back to the 1860s. These, along with other well-established clubs in north-east Wales, including Chirk AAA FC, Mold Alexandra FC, Connah's Quay Nomads FC, Airbus UK Broughton FC, Rhyl FC and many others provide the strongest case imaginable for a celebration of Welsh football being given a home in the region.

Deputy Presiding Officer, I am in contact with Wrexham County Borough Council regarding support for the development of Wrexham museum, and will pursue the idea of an exhibition that captures not only the region's football history, but that of the nation and, indeed, that of communities just across the border in England that have a strong affinity with north-east Wales. No single museum can capture the entire story of Wales, and north-east Wales is unique in having a porous border and strong social, economic, leisure, cultural and sporting ties with the north-west of England. The history of north-east Wales is rich in Welsh tradition and culture, while also indicative of an inclusive and outward-looking people.

Yn y cyfamser, mae lle ar gael yn amgueddfa Wrecsam i ddatblygu arddangosfa benodedig o arwyddocâd cenedlaethol, yn debyg i'r rhai a hyrwyddwyd gan Aelodau'r Cynulliad heddiw. Mater i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yw hyn wrth gwrs, ond efallai, os yw'r awdurdod lleol yn dymuno cydweithio â sefydliadau eraill ac awdurdodau lleol eraill, yna gellid darparu amgueddfa bêl-droed o fewn amgueddfa Wrecsam. Mae'n rhywbeth y byddwn yn sicr yn falch o'i gefnogi. I wneud hynny, byddwn hefyd yn ystyried defnyddio arian cyfalaf o is-adran amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau Llywodraeth Cymru drwy waith priodol. Efallai fod yr Aelodau'n ymwybodol y bydd £800,000 yn fwy o gyllid ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf; bydd bron yn dyblu ar gyfer y llyfrgelloedd dysgu cymunedol, ac am y tro cyntaf, agorir y gronfa honno i amgueddfeydd ar gyfer gwaith gweddnewid. Yn wir, mae 98 o lyfrgelloedd hyd yn hyn wedi'u gweddnewid drwy ddefnyddio'r mecanwaith ariannu hwnnw, a byddaf yn agor y canfed yng Nglannau Dyfrdwy yn fuan.

Mae Llywodraeth Cymru yn arwain hefyd ym maes archifau digidol ac amgueddfeydd rhithwir, gyda Chasgliad y Werin Cymru yn cynnwys mwy na 570 o eitemau'n ymwneud â phêl-droed. Felly, byddai amgueddfa go iawn yn cynnwys pêl-droed a hanes chwaraeon arall o bosib nid yn unig yn ategu'r casgliad rhithwir, ond hefyd, rwy'n credu, byddai'n ategu'r Amgueddfa Bêl-droed Genedlaethol ym Manceinion. Nawr, rwy'n ymwybodol fod amgueddfa Wrecsam eisoes yn cynnwys y casgliad gorau yng Nghymru sy'n ymwneud â phêl-droed Cymru, er ei fod wedi'i storio ar hyn o bryd. Mae'n cynnwys casgliad o nwyddau John Charles, a brynwyd drwy gymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri, ac rwy'n credu bod y casgliad hwnnw'n haeddu cael ei weld gan y cyhoedd.

Clwb Pêl-droed Wrecsam yw cartref ysbrydol pêl-droed yng Nghymru, gan mai dyma'r clwb hynaf yng Nghymru a'r trydydd clwb hynaf yn y byd. Y Cae Ras yw'r cae rhyngwladol hynaf sy'n dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer gemau rhyngwladol, ac fel y mae'r Aelodau wedi nodi, mae gan Glwb Pêl-droed Derwyddon Cefn hanes sy'n dyddio'n ôl i'r 1860au. Mae'r rhain, ynghyd â chlybiau hirsefydledig eraill yng ngogledd-ddwyrain Cymru, gan gynnwys Clwb Pêl-droed y Waun, Clwb Pêl-droed Alexandra yr Wyddgrug, Clwb Pêl-droed Nomads Cei Connah, Clwb Pêl-droed Airbus UK Brychdyn, Clwb Pêl-droed y Rhyl a llawer o rai eraill yn darparu'r achos cryfaf y gellid ei ddechymgu i roi cartref ar gyfer dathlu pêl-droed Cymru yn y rhanbarth.

Dirprwy Lywydd, rwyf mewn cysylltiad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ynglŷn â chefnogaeth i ddatblygu amgueddfa Wrecsam, a byddaf yn mynd ar drywydd y syniad o arddangosfa sy'n darlunio nid yn unig hanes pêl-droed y rhanbarth, ond hanes pêl-droed y genedl hefyd, ac yn wir, hanes pêl-droed cymunedau yn union ar draws y ffin yn Lloegr sydd â chysylltiad cryf â gogledd-ddwyrain Cymru. Ni all unrhyw amgueddfa unigol ddarlunio stori gyfan Cymru, ac mae gogledd-ddwyrain Cymru yn unigryw yn yr ystyr fod gan yr ardal ffin dyllog a chysylltiadau cryf gyda gogledd-orllewin Lloegr yn gymdeithasol ac yn economaidd, ac o ran hamdden, diwylliant a chwaraeon. Mae hanes gogledd-ddwyrain Cymru yn gyfoethog o ran ei thraddodiad a'i diwylliant Cymreig, a hefyd yn arwydd o bobl gynhwysol sy'n edrych tuag allan.

North-east Wales is our gateway to the world, exemplified by global economic giants such as Airbus, Kronospan and Toyota, as well as by cultural institutions such as the Llangollen International Musical Eisteddfod, Theatr Clwyd and the Stiwt, to name but a few. The built and natural environments are of global significance, with a world heritage site, an area of outstanding natural beauty and numerous magnificent castles. A vision for the future of Wrexham and north-east Wales should encompass cultural and sporting elements as a priority. Museums have a key role in explaining our past and pointing to our future. Interactive, immersive museum experiences can ignite imaginations and spark creativity, and for this reason I made Wrexham a pioneer area in the Fusion programme—a project designed to tackle poverty through harnessing the power of culture. Great strides have been made in fusing together the people of the county borough with the organs of cultural activity. And moving forward, the establishment of a new cultural attraction with widespread popular appeal could add significantly to the programme, and to the Welsh Government's objectives of tackling poverty and of enabling the success of all citizens and all communities in Wales.

Gogledd-ddwyrain Cymru yw ein porth i'r byd, fel y dangoswyd gan gewri economaidd byd-eang megis Airbus, Toyota a Kronospan, yn ogystal â chan sefydliadau diwylliannol megis yr Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Theatr Clwyd a'r Stiwt, i enwi ond ychydig. Mae'r amgylcheddau adeiledig a naturiol o arwyddocâd byd-eang, gyda safle treftadaeth y byd, ardal o harddwch naturiol eithriadol a nifer o gestyll godidog. Dylai gweledigaeth ar gyfer dyfodol Wrecsam a gogledd-ddwyrain Cymru gwmpasu elfennau o ddiwylliant a chwaraeon fel blaenoriaeth. Mae gan amgueddfeydd rôl allweddol yn egluro ein gorffennol ac yn pwyntio at ein dyfodol. Gall profiadau amgueddfa rhyngweithiol ac ymdrwythol danio dychymyg ac ennyn creadigrwydd, ac am y rheswm hwn gwneuthum Wrecsam yn ardal arloesi yn y rhaglen Fusion—prosiect a gynlluniwyd i drechu tlodi drwy harneisio pŵer diwylliant. Gwelwyd camau mawr ymlaen gydag asio pobl y fwrdeistref sirol ag organau gweithgarwch diwylliannol. Ac wrth symud ymlaen, gallai sefydlu atyniad diwylliannol newydd gydag apêl eang a phoblogaidd ychwanegu'n sylweddol at y rhaglen, ac at amcanion Llywodraeth Cymru o drechu tlodi a galluogi pob dinesydd a phob cymuned yng Nghymru i lwyddo.

18:18

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much, and that brings today's proceedings to a close.

Diolch yn fawr iawn, a dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)